



Celt  
5392  
50

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

HARVARD COLLEGE  
LIBRARY



PURCHASED FROM THE  
INCOME OF THE  
FRED NORRIS ROBINSON  
CELTIC FUND



[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

Y

MARCHOG CRWYDRAD:

HEN FFUGLITH GYMREIG.

---

CYHOEDDEDIG DAN OLYGIAD

Y PARCH. D. SILVAN EVANS,

Periglor Eilan yn *Maabddwy*, *Metricion*.

---

TREMADOG:

ARGRAFFWYD GAN ROBERT ISAAC JONES,

SWYDDEA Y 'BRYTHON.'

CAERFYRDDIN: W. SPURRELL

1864.

1. 2. 3. 4. 5. 6. 7. 8. 9. 10. 11. 12. 13. 14. 15. 16. 17. 18. 19. 20. 21. 22. 23. 24. 25. 26. 27. 28. 29. 30. 31. 32. 33. 34. 35. 36. 37. 38. 39. 40. 41. 42. 43. 44. 45. 46. 47. 48. 49. 50. 51. 52. 53. 54. 55. 56. 57. 58. 59. 60. 61. 62. 63. 64. 65. 66. 67. 68. 69. 70. 71. 72. 73. 74. 75. 76. 77. 78. 79. 80. 81. 82. 83. 84. 85. 86. 87. 88. 89. 90. 91. 92. 93. 94. 95. 96. 97. 98. 99. 100.

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)



1. 2. 3. 4. 5. 6. 7. 8. 9. 10. 11. 12. 13. 14. 15. 16. 17. 18. 19. 20. 21. 22. 23. 24. 25. 26. 27. 28. 29. 30. 31. 32. 33. 34. 35. 36. 37. 38. 39. 40. 41. 42. 43. 44. 45. 46. 47. 48. 49. 50. 51. 52. 53. 54. 55. 56. 57. 58. 59. 60. 61. 62. 63. 64. 65. 66. 67. 68. 69. 70. 71. 72. 73. 74. 75. 76. 77. 78. 79. 80. 81. 82. 83. 84. 85. 86. 87. 88. 89. 90. 91. 92. 93. 94. 95. 96. 97. 98. 99. 100.

## RHAGHYSBYSIAD.

Nis medraf roddi ond yehydig iawn o hanes ffuglith ddyddan y *Marchog Crmydrad*, amgen na dywedyd mai dyma y tro cyntaf iddi gael ei hargraffu.

Gwyddwn er ys blynyddoedd fod y fath waith i'w gael, wrth y dyfyuiadau lluosog a geir o hono yng *Ngeiriadur Cymraeg* y Dr. Owain Puw: ond rhagor na hyny nis gwyddwn am dano hyd o ddeutu tair blynedd yn ol, pryd y rhoddodd y Cadben Mounsey (gwr boneddig o Sais, yr hwn y mae llenoriaeth Cymru dan lawer o ddyled iddo heb law yn y peth hwn) ysgriflyfr o hono yn fy llaw, yr hwn a brynasai ef gan un o lyfrwerthwyr Llundain ychydig cyn hyny. Ysgrifenyd yr ysgriflyfr hwn, cyn belled ag y gellir barnu wrth nodwedd y llawysgrifen, o ddau gant i ddau gant a hanner o flynyddoedd yn ol.

Nis gwn pwy yw awdwr y gwaith, na pha bryd yr ysgrifenyd ef. Anhawdd gwybod hefyd gyda sierwydd pa un ai cyfansoddiad gwreiddiol ai cyfieithiad ydyw. Ymfynais ag amryw wŷr dysgedig, yn Lloegr a Ffrainc yn gystal ag yng Nghymru, yng nghylch y pynciau hyn; ond ni roddasant i mi un goleufynag arnynt. Er ymgynghori â'r gwŷr tebycaf i wybod, nid wyf yn cael hanes fod y fath waith i'w gael nac yn y Seisoneg, na'r Ffrancaeg, na'r Lladin; ac eto gellir barnu wrth lawer dull ymadrodd ynddo, mai cyfieithiad ydyw, ac nid gwaith a ysgrifenyd ar y eyntaf yn y Gymraeg. Rhaid i mi gan hyny adael y pethau hyn i ymchwil rhywrai ereill: ond hyd oni ddangoser o ba le y benthyciwyd ef, teg iddo sefyll yn lle cyfansoddiad cyssefin.

Canfyddir fod yr ysgriflyfr yn anghyflawn mewn mwy nag un o fanau. Buasai yn dda neillduol genyf pe gallaswn gyflenwi y diffygion hyn, modd y cawsid y chwedl yn ei chyflawnder; ond hyny nid oedd yn fy ngallu. Nid wyf yn gwybod am ddim ond un adysgrif arall o'r gwaith; a hono sydd ym meddiant Arglwydd Llanofar. Nis gallaswn hebgor amser i fyned yr holl ffordd i Lanofar i gydgyrharu y ddwy gyfysgrif; ac ymddengys nad yw rheolau ei arglwyddiaeth yn caniatáu i un ysgriflyfr

gael ei gymmeryd allan o'r llyfrgell. Nid yw ysgrifyfr Llanofar chwaidh yn gyflawn; er y gallasid, mae yn debygol, rhwng y ddau wneuthur y gwaith yn lled ddiwall. Nid oes un ysgrif o hono yn y Gywreinfar Brydeinig.

Gwelir yn amlwg ddigon fod y gwaith wedi ei gyfansoddi yn y Ddeheubartheg, a bod yr ysgrifenydd wedi myned yn fynych i eithafion gwerinaidd y dafodiaith hōno. Wrth ei ddarparu i'r wasg cyfnewidiwyd ychydig ar lythraeth yr hen ysgrifyfr (yr hwn, yn hyn o beth, sy dra anghysson ag ef ei hun), er mwyn ei wneuthur yn fwy darllenadwy a dealladwy i'r cyffredin; ond cymmerwyd gofal na chyfnewidid yn y mesur lleiaf ddim ag sydd yn rhoddi arbenigrwydd i'r iaith a'r ddullwedd.

Gyda hyn o raghysbysiad cyflwynir y *Marchog Cruydrad* i sylw holl ddarllen-yddion Cymru, gan

Eu cydwladwr anwiw,

D. SILVAN EVANS.

*Llan ym Marddwy: Tachwedd 10, 1864.*

---

*Ymddangosodd y Ffuglith hon yn y BRYTHON, cyf. v., tt. 1, 138, 257, 361.*

---



# Y MARCHOG CRWYDRAD.

## RHAN I.

### Y 1. PENNOD.

*Y Marchog Crwydrad yn dangos ei furiad ffol a'i antur ansynwryol yn hwennychu ac yn tebygu cael gwir hapusrwydd yn y byd hwn.*

LLAWER o ystoriawyr dawiol a bydol a draethodd o draigl llawer o ddynion a'u hanturiau.

Yn gyntaf, Iustin Diodor a draethodd o draigl Siason, a Chastor, a Pholics, ac Ercules, a'u cydymeithon, yn myned ar hyd y môr i Ynys Coleos i ennill y cnuf euraid .....oedd y dragwn... ..

[Coll pymtheg llinell yma yn y gynysgrif gan friw dalen.]

.....y gwir Geidwad hwnw, Iesu Grist, a roes gyffelybaeth o blegid y plentyn afradus, ac o'i ddyfodiad yn ei ol drachefn at ei dad.

Saint Lawe yn nodedig ac yn buraidd a draethodd o boen a berindod bendigaidd y llestr mawr dewisedig Saint Pawl: a hefyd pwy drafael a gymmerodd ef i bregethu yr Efengyl a ffydd Iesu Grist i'r Cenedloedd. Ac yr awr hon (drwy ras Duw) yr wyf finnau yn bwriadu traethu fy anturiau fy hunan a'm traigl, y rhai ydynt debyg i draigl

y plentyn afradus, yr hwn ..... wledydd dyeithr.....

[Coll pymtheg llinell yma eto gan friw dalen.]

..... yn gariadus ato. Ond pwy fodd y ba hyny mi a draethaf oll ichwi, drwy ddeisyf arnoch yn ufudd wrando arnaf fi, a chofio oll o'r dechreu hyd y diwedd.

Gwedy ymdraelo mewn ffolineb ac anlladrwydd dair wythnos o flynyddau fy oedran; sef oedd hyny, plentyneidrrwydd, bachgen-eidrrwydd, a ie'netid, y rhai oll yng nghyd a wna un flwyddyn ar hugain; yno yr oeddwn yn dyfod mewn oedran gwr iefanc, yr hwn oedd y pedwrydd wythnos o'm hoedran. Pan oeddwn yn bedair blwydd ar hugain, mi feddylais (drwy fy ansynwryus orchwyl) am wneuthur traigl i geiso gwybod b'le yn y byd hwn y eawn i gwrdd â gwir hapusrwydd neu ddechwyddyd, yr hwn oedd yn fy neall ffol i hawdd ei gael; a minnau yn gryf ac yn iefanc, yn wyllt ac yn awyddus, mi a dybiais i'm meddwl mai gwaeth nog angeu oedd fyw yn y byd heb hapusrwydd neu ddedwyddyd. Ond o achos fy mod gwedy boddi mewn dyfnder tywyllwch anwybyddiaeth, nid oeddwn yn cyddnabod mai

rhodd Duw o'r goruchelder yw gwir ddedwyddyd, ac na ellir cael dedwyddyd neu hapusrwydd heb ei nerth Ef.

Ac felly, pan oeddwn gwedy fy ysbeilo o'm synwyr a'm deall, mi a dybiais y gallwn yn esmwyth fy hunan ddyfod i ddedwyddyd heb help arall. Ac felly mi a geisais wir ddedwyddyd lle nad ody, lle na bu, a lle na bydd byth; megys mewn cyfoeth, hoffder bydol, cadernyd, enrhydedd, a hwantau y enawd: ond am dybied felly yr oeddwn yn ffol, megys un a fai yn ceiso (a rhwyd) ddala pysgod yn yr awyr, neu â bytheusaid ddilyn ol ysgyfnog yn y môr diffaith. Onid oedd (meddwch chwi) yn ffolineb i ddyn dybied felly? Yr un modd yw i ddyn dybied y cair gwir hapusrwydd yn y byd halog hwn. Ac yn gymmaint a bod hysbysrwydd perffaith yn damgylchynu pob daioni, a bod y byd yma yn gorbwyso ac yn ymroi i bob drygoni, ac yn gaeth i newyn, syched, gwres, oerfel, clefydau, bl'nderau, balchedd, trachwant, ac anesmwythder, ffolineb yw ceiso yndo ef wir hapusrwydd. Nid ydyw gwir hapusrwydd heb ddaioni a rhinwedd, yr hwn sydd yn dyfod oddi wrth Dduw goruchaf. Am hyny, ffolineb yw i neb dybied y gall (o'i orchwyl ei hunan) gael a mwyniannu gwir ddedwyddyd. Y neb a debyco y gall gael gwir hapusrwydd yn y byd yma, fo gaiff, fal y ceisais innau, yn lle hapusrwydd, oferedd; yn lle daioni, ddrygoni.

## Y 2. PENNOD.

*Y Marchog Crwydrad a ddangosodd idd ei Llywodraethferch, Dám Ffolineb, beth oedd ei furiad.*

A minnau yn bwriadu myned i'm taith, mi a ddeallais fod yn raid ym' gael cynghor, drwy wybod mai bob peth ag a wneler heb gynghor da, ni ddaw i ddiwedd da. Y peth yn ddeallus a ddechreuir, yn ddaionus y diweddir.

Yr amser hyn yr oedd morwyn yn tario gyda mi, ac yn llywodraethu fy nhy, a'i henw priodol oedd Ffolineb; a heno oedd eilynes i Ddoethineb. Os pob peth ag a gasao

y naill, fo câr y llall. Y mae cymmaint o wahaniaeth rhyngtnt hwy ag a sydd rhwng gwyn a du, twym ac oer, ir a sych, goleu a thywyllwch, a rhwng Duw a diawl. Y rhai'n oll a sydd wrthwynebus bob un i'w gilydd, ac ni allant fod yng nghyd yn un corff. Doethineb a sydd yn llywodraethu y rhai da, a Ffolineb y rhai drwg. Doethineb a wna y rhai drwg yn dda, pan ymroddon' i fod yn ufudd iddi. Ffolineb a wna y rhai da yn ddrwg, pan elont dan ei chadwriaeth. Doethineb a dyn wŷr o uffern, ac a'u dwg hwynt i'r nef. Ffolineb a gyrech engylion o'r nef i drigo yn uffern. Nid wyf yn cyfrifyn ddoethineb wybod y saith gelfyddyd, naturiaeth y ser a'r planedau: ond yd wyf yn galw yn ddoeth y neb a fo yn gwir addnabod Duw. Saint Cyril a ddywed, 'Doethineb yw gwir wybyddiaeth am y goruchaf ddaioni;' sef yw hyny, Duw a welir, a gyddnabyddir, ac a gerir, drwy berffaith gariad a phuraidd ewylllys. Ffolineb yw gwir anwybyddiaeth a cham addoliaeth i Dduw. Doethineb a wna ffolaid yn ddoethion, a Ffolineb a wna ddoethion yn ffolaid. A oes doethineb fwy no gwasanaethu Duw drwy buraidd ffydd, a chynnal a chadw y gyfraith fendigedig yn uddyf? Ac yn wrthwyneb i hyny, a oes ffolineb fwy no gwneuthur pechod, ac anufuddhau i Dduw drwy dori ei orchymynion? Pwy bynag a wnel bechod, y mae yn ei glwyfo ei hunan, ac yn rhedeg yn llwyr ei ben i uffern, yr hyn a sydd bwynt o lawr ffolineb. Am hyny, pawb ag a sydd yn fyddllawn yn gwasanaethu Duw, ac yn cadw ei orchymynion, a sydd ddoeth, a Doethineb yn eu llywodraethu. A'r rhai a sydd yn tori ac yn dibriso gorchymynion Duw, ydynt ffolaid, gwedi eu rhwymo â chadwynau ffolineb, megys bileinaid caethion. Pan oeddwn yn crwydro mewn ffydd rhyfygus, yr oeddwn yn tybied fy hunan yn ddoeth trwy wneuthur fy ewylllys; ond mi a brwfais yn ffol hollawl: ac felly yr oeddwn yn cael maeth gan Ffolineb, i'r hen y dangosais fy mwriad, yr hyn oedd fyned i geiso ewrdd a dedwyddyd neu

hapusrwydd. Mi a ddamunais ei chynghor hitheu heb briso p'un a fai hyny i mi ai drwg ai da. Hithau a'm cymhellodd i i'm blaen drwy fod yn fodlon i'r peth, a thrwy ymadrodd gwenieithus, hi a draethodd fal hyn. Ac i'm chwannogi i i fyned i'm traigl, hi a ganmolodd fy mwriad a'm synwyr; hi a fawrhaodd fy ngrymusder, a'm rhinweddau, a'm gwybyddiaeth; hi a ddyfalodd fy nbegwch a'm cynneddau drwy ddywedyd mai ail Selyf oeddwn, am fod i'm pen y fath feddwl canmoleddig hyny. Ac ar hyn hi a ammodes fod yn gyfrwyddyd i mi, ac a roes ddiolfryd nad ai oddi wrthf i'm holl draigl, drwy ddywedyd wrthf y cawn weled y lle o wir hapusrwydd ar fyrder. 'Fy mab (heb hi), na feddwl fod lle i'm calon i i dwyll na drygoni.' Ac felly (drwy ymlawenhaus mewn ewnder) mi a'm gwelwn fy hunan yn ddedwydd gael y fath lywodraethferch hōno, mor ddoeth, mor araf, mor wybyddus, ac mor gynnil; ac o fawr lawenydd yr oedd fy nghalon yn crychaeido i'm corff. Ond er hyny (O ffol truan!) fy neisf oedd am bethau gwrthwynebus. Os yr oeddwn yn esgeulus o bob peth ag a fai les ym', yn gymmaint ag yr oeddwn i yn gweled y sur yn felus, y du yn wyn, a'r drwg yn dda, ffolineb yn ddoethineb, a thywyllwch yn oleuni. A Ffolineb oedd gwedy fy rhwymo i i walluso gwneuthur daioni (yr hwn a ddylywn ei wneuthur), ac yr oeddwn yn rhy wyllysgar i wneuthur y pethau nas dyleswn eu gwneuthur.

Gwir a ddywed y doeth, 'Y mae iechyd lle mae llawer yn rhoi cynghor;' a'r neb a gymmero ddeall a chynghor da, na bydd edifar ganto gwedy hyny: ond y mae yn warddedig cyn'ryd cynghor gan ffolaid. Y ddihaereb a ddywed, 'Fai y bo fy nghynghoriaid i, felly y mae rhaid bod fy nghynghor i.' Os y mae yn erbyn rheswm i ffol roi cynghor da; can'tebyg yw hyny i safonydd yn rhedeg yn erbyn eu glenydd. Nid oes dim i ymyffelybu i gynghor da, na dim waeth na chynghor drwg, drwy yr hwn y byd odys yn ei drallodi, breniniaethau yn eu blinhau, ty-

wysoigion yn eu gostrethwng, breninoedd yn eu lladd, amherodraethau yn eu newid, trefydd yn eu distrywio, cyfreithau yn eu tori, barnedigaethau yn eu hanghyflawnhau, gweinidogion duwiol yn eu halogi ac yn eu cymmysgu â drygoni, ac yn eu gortrechu, gwirgyddnabyddiaeth as Dduw yn ei anghofi, ufudd-dod i'r penaethiaid yn ei walluso, digwylyddrwydd yn gymmeradwy, ffydd, go-baith, cariad perffaith, a'r holl rinweddau ereill, gwedy eu dawynebu, a phob rhywryfel yn fwriadedig. O ffinder! O ddial! O greulon anghenfil! Yn awr at y peth.

## Y 3. PENNOD.

*Ffolineb a Drygwyllys a baradhaodd i'r Marchog ddillad, harnais, a march.*

Yn gymmaint a bod gwyr weithau yn newid eu bwriadau, ydd oedd Ffolineb yn ddiwall i'm cymhell i i'm traigl, drwy ddywedyd na ddylyai y fath fwriad da hyny ei adael fyned yn ofer. Yno yr atebais innau (gan ddywedyd) yr awn i'm taith, pa beth bynag a ddelai o hyny; ond yr oeddwn yn tybied fod yn rhaid ym' gydymieithio â chyfreidau ereill, megys trwsiad, meirch, a harnais gweddus i'r fath draigl hyn. 'Fy mab (heb hi), mi a gymmeraf y carc arnaf; ymddired i myf; tafa ymaith bob pryder oddi wrthf; na fid dim i'th flinnau; bydd lawen; cwsg yn esmwyth; na wrthod lonyddwch; can's mi a ddawaf ar fyrder â phob cyfreidau ag a fo raid iti. Ac yn gymmaint ag iti ymroi i mi, ni ffaelaf fionau i tithau. A thrwy fod yn llawen am y geirau hyny, mi a osodais bob peth yn ei chydwyhod hi, ac a gymmerais fy esmwythder. A Ffolineb oedd a chyddnabod rhyngti a harnaiswr, yr hwn a elwid Drygwyllys, a pheunydd ydd oedd hi yng nghydymieithias hwnw. Nid oedd yr harnaiswr yma yn unig yn gwneuthur harnais, ond hefyd ydd oedd ef yn gwneuthur pob dillad ag a archai ei dras Ffolineb iddo eu gwneuthur. A Ffolineb a draethodd iddo ef fy holl fwriad i. Ac yntau (ar ei deisyf hi) a wnaeth ini gryd o anlladrwydd, a dwbled o waed ddamuniadau, ac

ysanau o ofer hoffder, a harnais o anwybydd-iaeth, eorsled o ansadrwydd, menyg plat o seguryd, a helmet o wegi, a bwcler o ddi-gywilydd-dra, a gwregys o annhymmereidd-rwydd, a chleddyf o anufudd-dod, a dart, yr hon a elwir Gobaith am hiroes. Ac yno Balchedd a barodd imi geiso march, yr hwn a elwid Ffromder. A'r holl ddryg-arfau a'r trwsiad afradus hyn, Drygwyllys a'u paradhaodd i mi ar ddeisyfaeth Ffolineb. Pwy wasanaeth well a all ef ei wneuthur, ac yntau heb wirionedd yndo? Os megys ag y mae Drygwyllys yn weithredwr pob drygioni, felly y mae Ewyllys da yn weithredwr pob daioni. Iesu Grist (yr hwn ni ddichon ffaelu) a ddywad fal hyn: 'O gyflawnder y galon y geneu a draetha. Y dyn da o drysor daionus y galon; y dyn drwg, yn wrthwyneb i hyny.' Os ni all ddyfod allan o ffetan, ond y fath beth ag a fo yndi; ac allan o goffr llawn o berls gwerthfawr, nid rhaid edrych am rysod: ac o'r achos hyny, a minnau yn cael Drygwyllys yn daelwr ym', a Ffolineb yn rhiolwraig ym', pa fodd y gallwn i wneuthur dim ond drygioni?

#### Y 4. PENNOD.

*Ffolineb yn trwsiadu ac yn harnaiso y Marchog Cruydrad.*

Tra ydoedd Ffolineb, fy llywodraethferch, a Drygwyllys, fy harnaiswr, yn parodhau ym' drwsiad, a phethau ereill rheidiol, nid oeddwn yn gellwng yn anghof fwŷw pob pryder-iaeth drach fy nghefn, megys y harchodd Ffolineb imi. Os pan oeddwn blentyn, mi fwytawn bob amser o'r bwyd moethusaf, yfed o'r ddiod felusaf, gorwedd mor esmwyth a'r sidan, troelo fy amser mewn hoffder, drwy ymddiried i'm rhiolwraig Ffolineb yn fy holl bethau: gwedy ymdroelo tri dydd mewn hoffder, y boreu (pan oeddwn yn fy hun or-auraid), Dâm Ffolineb a ddaeth wrth fy ngwely (hi a Drygwyllys) a chydag hwynt pob peth ag a oedd rheidiol ym'. Ffolineb a archodd ym' gynu i fynydd: pa bryd oedd hwnw ym' fod i'm gwely? 'Ha, fy ngras

anwyl! (a ddywedais innau), mi a ddilynais eich cynghor chwi, mi a fyrais bob pryder-iaeth ymaith, ac a gymmerais fy esmwythder. Ond y mae yn ryfedd genyf eich dyfodiad mor fuan.' 'Pa beth, wr (hebe Ffolineb), oni wyddost ti mor ddiwall ydd wyf i'm gweithredoedd? ni orphwysaf fi nes dwyn i ben y peth a gymmerwyf unwaith yn llaw.' Ac yno, hi a ddodes am danaf fy nghrys o anlladrwydd, yr hwn oedd yn cytuno â'm 'wyllys ryfygus i. Ac yno fy holl chwant oedd fod yn foethus, yn orwag, ac yn esmwyth. Ac yn ol hyny y gwisgais fy nwbled o wael ddamuniadau, bob amser gelyn i'r Ysbryd Glân. Gwedy hyny fy 'sanau o ofer hoffder. Yno, pan oeddwn lawn o bob gwael ddamuniadau, nid oeddwn yn cym'ryd rhanc-bod-iaeth mewn dim ond oferedd; a'm 'wyllys oedd damnabl: felly ydd oedd fy moddlonder yn beryglus.

Yno, pan oeddwn yn gwisgo am danaf, Ffolineb a orchymynodd i'r ysgolhaig o'r gegin gywair fy nghino yn barod o fwyd ysgafn moethus; ac enw yr ysgolhaig oedd Drwgrïolaeth. Ac fal yr oeddwn, mi a Ffolineb, yn gwneuthur yn llawen, ac yn byrhau y pryd i aros ciuo, mi a gynmerais achos i ofyn pa oedran ydoedd hi, a hefyd pwy gymmwedd, a phwy gysp a fedrai ni, a phwy bobloedd a fu hi yn eu rhioli, a phwy wedd y llywodraethodd hi hwynt. Hithau a ddywad ofyn y gofyniad hyny iddi lawer gwaith o flaen hyny: 'ond pan fôm ni yn marchog-aeth ar y ffordd, mi a'i traethaf iti: ond am fy oedran, ydd wyf yn fwy no phumpmil o flynyddau o oed.' Minnau a ddywedais, pa fodd y gallai hwy fod, nid tebyg eich bod yn ddeugain o flynyddau. Hithau a ddywad, 'Ydwylf; rhaid i ti ddeall fy ngeni i y pryd y gwnaethpwyd y byd, a'm bod bob amser yn sefyll yn fy ngrym, mewn iechyd, a heb glefyd. Ni byddaf byth tebyg i hen, er ym' fyw fed dydd farn. Ffolaid a fydd meirw, ond Ffolineb ni bydd marw byth. Yr wyf bob amser i'm grym yn teyrnasu o drais ym mhob cornel o'r byd, ac yn rhioli yn gystal

tywysogion a thlodion. Bellach at ein bwr-  
iad.

Gwedy darfod cino, mi a wisgais fy harnais; ond gwedy ym' ymdrwsio mewn y dillad, harnais, ac arfau a enwid o'r blaen, nid oeddwn yn pryderu am iechyd yr enaid, nid oedd arnaf chwant gwrando gair Duw, ni ofnwn dori y gorchymynion, ni phriswn wneuthur dim gweddus i Griston eu gwneuthur tuag at ei gadwedigaeth: mi a wnawn a fynwn, mi a ddywedwn a garwn; ac wedy ymwisgo fy mhais ddur o anwbyddiaeth, yn bresennol mi a aethym yn anwadal ac yn anghytun ynof fy hunan, yn gyfnewidiol ym bwriadau, nid ar well ond ar waeth, o un drygoni i'r nall. Ni orphwyswn yn ymgyddnabod â phob rhyw bechodau, heb wneuthur dim ag a fai syber a daionus. Os felly y mae naturiaeth pechod (oni ddarostyngir ef ym mhryd), fe dyn bechod arall ato, megys y tystiolaetha Saint Pawl yn y bennod gyntaf at y Rhufeiniaid. Yno Ffolineb a wisgodd ryw arall o harnais am danaf, yr hwn a elwir Ofer Ogoniant. A naturiaeth hwnw yw, pa fwyaf y tyfo, lleiaf ydd ys yn ei gyddnabod. Yno y gwisgais fy myswr, yr hwn a elwir Glothineb, mammaeth pob pechod cnawdol, ac yn enwedig godineb. Can's pan fo y boly yn llawn o fwyd bras a diod wresog, fo dwymwresa yr aelodau ereill, y rhai a ymael ac ystriffa yn erbyn yr Ysbryd Glân daionus. Gwedy hyny y gwisgais y gwregys o annhymmer-eiddrwydd, yr hwn a ellyngodd yn rhydd ffrwyn y godineb a phob chwant cnawdol. Wrth y gwregys, mi a wisgais y cleddyf o anufudd-dod; ac yno yr anufuddhäis yn erbyn Duw, a'i orchymynion bendigedig, a'r penaethiaid. Ond pe buaswn yn ffrwyno fy ewnder, ac ymgeryddu fy hunan, a'm chwant, a'm damuniadau, ac yn aros yn llonydd mewn cydwybod, heb anufuddhau yn erbyn Duw, yno y buaswn yn gwasanaethu Duw, ac yn addnabod fy ngwell. Dâ'n Ffolineb a'm dyeithrodd i o'r hem a elwid Rhwyfusedd, yn yr hon y dododd hi gynffon pawyn,

megys na allwn mwy oddef fy ngheryddu neu fy meio, ond meintuno fy opiniwn yn erbyn pawb, heb roi lle i neb dysgedig ag a fai mewn awdurdod. Yno mi a esgynais ar gefn fy march Ffromder; â dart yn fy llaw, yr hon a elwid Gobaith am hir oes. O ddart dwyllodrus; crinach no'r gorsen! Pwy gymmaint o ie'ntid a ymddiredodd i ti, ac a gafas eu twyllo! Gwedy ym' ymgym'ryd y ddart hon i'm llaw, mi a elwais ataf bob drygoni. Hi a'm rhwystrodd i wrando Edifeirwch, drwy ddywedyd wrthyf fal hyn: 'Nid wyd ond iefanc; bydd lawen tra gellych fod. Os pan ddél hensaint, pob hoffder a chwantau â heibo; yno bydd digon o amser iti edifarhau.' Ac felly, drwy riolaeth a llywodraeth Ffolineb, ni feddylwn am na Duw na diawl, am fywyd nac angeu, am nef nac uffern; ond byw mewn hoffder drwy wneuthur pob peth a'r a fai fodlawn genyf. Ac o'r diwedd, Ffolineb a ymdrwsiodd ei hunan yn ysgawn mewn clog o bluf, ac a esgynodd ar balfrai, ac a azores ei phluf a'i hadanedd gyda'r gwynt ymaith; hi a hedodd a minnau at y fentr, ac a roes ysbardynau i'm march Ffromder, ac ymaith yr aethon ein dau. Felly chwi welwch mai Ffolineb oedd fy nghyfrwyddyd, a Ffromder fy march. A'r cyntaf edifarhaodd o honom ein dau oeddwn i, fal y cewch chwi glywed a barnu ar ol hyn.

#### Y 5. PENNOD.

*Ffolineb (ar y ffordd) a ddangosodd i'r Marchog Crwydrad ei hen weithredoedd hi, a'r sawl un o wjr anrhydeddus a fuasai hi yn eu llywodraethu.*

Gwedy i ni fyned ar hyd y ffordd nes colli fy ngolwg ar fy nby, mi gofiais yr ammod a wnaethoedd Dâm Ffolineb â mi y boreu, nid amgen no thraethu o'i gweithredoedd, y rhai athoedd heibo, a phwy bobloedd a fuasai hi yn eu llywodraethu. Ac felly (drwy fodd gweneithus) mi a ddechreuais: 'Fy meistres ddaionus, fy arglwyddes gariadus, fy nghalon, fy llawenydd, fy mywyd, fy chwant, fy nghyfrinach, fy ngobaith, a'm goruchaf ddaioni; yr wyf fi yn deisyf arnad yn brysur (o bydd

oenad genyd) ar adael imi ddeall beth oedd dy hen weithredoedd di cyn hyn, a thraethu pwy bobloedd a lywodraethaist ti, pa fodd y rhiolaist ti hwynt ac y cynghoraist.' A hithau a ddywad, 'Fy ngweithredoedd a sydd anghyfrifus; deg diwarned nid digon i draethu eu hanner hwynt. Ond er hyny (i gyflenwi dy wyllys, ac i fyrhau y ffordd) mi a ddywedaf wrthyd y rhai prinpalaf o hanynt.

'Yn gyntaf, y byd a minnau a ddaeth ar unwaith; ac am na chefais un dyn yn y byd, mi a esgynais i fynydd i'r nef; ac yno mi a brofais yr angel penaf o'r holl engylion, yr hwn a elwid Lusifer, yr hwn (ar fy nyfodiad) a'm cymmerodd i yn llywodraethwraig arno (ac felly gwnaeth llawer o'i gyffelybiaid). Drwy fy nghynghor i, ef a ddrychafodd ei hunan i ameanu bod yngydymaith gogyfuwch a Duw. Ac am y balehedd hyny, ef (a'i gyffelybiaid) a yriwyd o'r nef, ac a hwpwyd yn llwyr eu penau i uffern. Ac fal dyna y gweithred cyntaf a wnaethym i.

'Ar fyrder gwedy hyny, Duw a wnaeth ddynd, ac o'i asen fe luniodd wraig. Y ddau hyn oedd wr a gwraig, a chydag hwynt mi a gefais waith i'w wneuthur, am eu bod yn llawn doethineb a chydwybod. Ond mi arferais, o help y neidr ddrygonus, i dempo y wraig (y llestr gwanaf), yr hon neidr (o'i hymadrodd twyllodrus) a barodd i'r wraig fwyta o'r afal, yr hwn a waharddodd Duw iddynt ei fwyta. Ond gwedy iddi ei fwyta gair bron ei gwr (am nad oedd ef yn ofni ei hanghywirdeb hi), yntau hefyd a fwytaodd i gyflenwi ei chwant. Ac am hyny y buont ffolaidd ill dau: am yr hyn ffolineb y collasant wirionedd gras Duw a'i ogoniant; ie, hwy helwyd o'r lle a ordcinodd Duw iddynt i drigo yndo; a hwy a ddodwyd (a'u plant yn eu hol) dan bwer angyu tragwyddol. A dyna yr ail o'm gweithredoedd.

'Yno y dechreuwyd fy nheyrnasad yn y byd, lle y llywodraethais i rifedi o ffolaidd.

'Mi lywodraethais Cain, y ganedigaeth cyntaf o'i dad a'i fam; drwy fy nghynghor i, fo laddodd ei frawd daionus, Abel y gwirion.

'Myf a lywodraethais y Cewri mwyaf a'r a fu erioed o had dyn, megys merched Cain: a meibon Seth. Mi a berais iddynt ymddiried yn eu grym eu hunain, nid yn unig mewn rhyfel, ond hefyd mi a berais iddynt ddibriso gair Duw, a'r gwybyddiaeth am hwnw; mi a berais iddynt arfer eu rhyddid, a byw yn ol eu chwant mewn godineb, a phob rhyw bechodau dybryd ereill, heb briso am gyflawnder, onestrywydd, nac ofn Duw.

'Gwedy i Noe bregethu deugain mlynedd o ddistrywaeth diwethaf y byd, y Cewri anwardd hyny (y rhai oedd gwedy eu myrno mewn pob drygoni a bywyd halog) a gymmerodd ei holl gynghorau a'i bregethar ar watwar. Am hyny Duw a lidiodd ac a ddanfonodd lif mawr, yr hwn a foddodd bob creadur byw, namyn Noe a'i drimeib, Sem, Cham, a Iapheth, a'u gwragedd. Yno mi dybiais ym' gollf fy nheyrnasad yn y byd: ond mewn ychydig o ysbâs, fo fwyhawys yn fawr, ac a amhawys y bobl ddrwg; ac mi a'u cynghorais hwynt i adeiliad tŵr uchel, yr hwn a gyrhaeddai hyd y nef, megys o anffodd Duw y gelynt eu cadw eu hunain, o meddylai. Ef eilwaith am fodd y byd: ond Duw a ddi-ffrwythodd eu bwriad. Ac fal nad oedd ond un iaith yn yr holl fyd o'r blaen, Efo a'u rhanodd hwynt; ac fe drigodd y tŵr heb ei gwplhau, o achos nad oedd yr adeiliaid yn deall pa beth a ddywedai un wrth y llall. Y pryd hwnw y gwasgarwyd etifeddion Noe ar lled y byd; a mi a deyrnasais yn eu mysg ym mhob lle, yn cynghori llawer cenedlaeth i wrthod cyd'nabyddiaeth Duw, ac i anrhydeddu y planedau; nid amgen, yr haul, y lleuad, y ser, y tân, y dwr, yr awyr, a'r ddaiar; a gwneuthur delwau, a'u hanrhydeddu hwynt; ar ddall gwyr, ac enefeiliaid, ac adar, ac i ddarestwng iddynt, fal nad oedd gwir gyddnabyddiaeth ar Dduw gan neb, ond gan genedlaeth o bobl, y rhai oeddynt yn hanfod o arenau Abraham; a'r rhai'n yw yr Iddewon.'

Yno mi a ofynais i Ffolineb pa fodd y

dechreuodd gauaddoliaeth ddyfod i'r byd gyntaf, a phwy le y dechreuodd. Hithau a ddywad, 'Fy mab, gwybydd di mai trwy fy achosion i y daeth gauaddoliaeth i'r byd gyntaf. Gau addoliaeth a gafas ei dechreuad cynnaf yn yr wlad a elwir Caldea, yn y dinas a eiwir Babilon, ym mreniniaeth yr Assiriaid, yn nbeyrnasad Ninws, y trydydd brenin, yr hwn oedd fab Bel; Bel fab Nemroth, fab Chus, fab Cham, fab Noe. Ac felly Ninws, y trydydd brenin ym Mabilon, oedd y gwr cyntaf ag a wnaeth demlan, ac a osododd alloran i aberthu arnynt idd-ei dad Bel, ac i Iuno ei fam. Yn gynraf, fo luniodd eu delwau safedig hwynt, ac a'u gosodes yng nghanol dinas Babilon: a hyny oedd y dechreuad cynnaf ar y gauaddoliaeth. Cymmydogion ereill yn yr un modd.

'Yr Egipsiaid a wnaeth yn yr un siwt i Osirys, ac o lysenw Iubiter Ddaionus, gwir fab Cham o Rhea. Osirys hyny (yn ol ei farw) am ei rinweddau da oedd yr Egipsiaid yn cymryd yn dduw iddynt. Ac felly, drwy fy nghyngor i, y troes y mater yn gauaddoliaeth. Can's hwy a offrymasant aberthau iddo ef; ac yr oeddynt yn ei addoli ef yn rhith ych neu lo. Yn yr un modd y gwnaeth plant yr Israel yn y diffaethwech idd eu delw hwyntau, yr hwn a elwid gwedy hyny Serapys.

'Ond nid oedd Ffrainc a Ierman eto wedy ymbalogi mewn gauaddoliaeth; ac am hyny nid oeddwn i yn trigo yn llonydd nes cael gauaddoliaeth yn gyffredinol drwy'r byd.

'Ninws fab Bel, brenin Babilon (yr hwn a enwid o'r blaen) a briododd y wraig aruthr Semiramis, yr hon (fal y mae yn ysgrifenedig) a ddychymygodd ysbaddu yr holl feibon. Ac o'i chorff hi y ennillodd Ninws fab, yr hwn a elwid Ninws yr Ail; ac o wraig arall a oedd iddo, fab, yr hwn a elwid Trabetta, yr hwn (wrth gyfiawnder) a ddykasai deyrnasu, a mwyniannu coron Babilon; ond ei lysfam a'i cadwodd hi rhagddo ef, ac a gyammerodd y rhiolaeth yn ei llaw ei hunan, ac a'i cedwis idd ei mab iefanc ei hunan,

Ninws yr Ail. A'r pryd hyny Trabetta (rhag ofn ei lysfam) a gilodd o Babilon; ac wedy hir drafaelu, fe diriodd yn Ffrainc, yn agos i afon Rhon, lle y gwnaeth ef ddinas a'i galw hi Treues, yr hon eto a sydd ddinas o henafiaeth. Yr amser hwnw, Galia, Belgiga, a'r holl wledydd o amgylch (y rhai a alwn ni Almaen Isaf) gyntaf a halogwyd o gauaddoliaeth, yr hwn oedd mil, nawchant, deugain a saith o flynyddau cyn geni Crist. Yno Trabetta (drwy fy nghyngor i) a wnaeth ddelw a llun ei dad y tu, Bel fab Nemroth, (y Cawr mawr a Satwrn cynnaf ym Mabilon) idd ei addoli a'i anrhydeddu yn ninas Treues. Ond gwedy hyny Bafoi (yr hwn a adeilodd Belges, ac o enw arall Bafoi, yn Hainot) a ennillodd o'i gadernid ddinas Treues, ac yn orchfygodd a ddygodd i Bafoi hyn o gyfoeth Treues a'i gau dduwiau. A chyda hyny hefyd, fe ddygodd ei au dduwiau ei hunan o Phrighia. Ac o'r achos hyny camwedd gauaddoliaeth a ddaeth mewn mwy anrhydedd, can's drwy fy nghyngor i (o'r ysbail a ennillodd ef) fe adeiliodd (yn ei ddinas ei hunan) saith denl aruthr, y rhai oedd a saith drws cydsyniol a'r saith planed. Ydd oedd iddynt hefyd fil o dyrau, bob un o chant eubit o uwchder, ddeunaw troedfedd o led. Ond o blegid cenedloedd ereill, nid oeddynt ond y naill ai Babiloniaid, Egipsiaid, Phrighiaid, Ffrangaid, neu Iermaniaid.

'Y padriarch daionus Noe, ac o enw arall Ianus, a fu yn trigo yn yr Eidiol ddau a phedwar ugain o flynyddau, pan ydoedd yn oedran ond un trigain a naw chant o flynyddau; ac ar ol y llif yn amgylch deg a deugain a thrichant o flynyddau y bu ef farw, a chyn dyfodiad Crist yng nghnawd, mil, nawchant, trigain a saith o flynyddau. Y gwr da hwn a fu gwynfawr drwy yr holl fyd, ac yn enwedig gan yr adeiliaid, y pryd hyny a elwid Lanigenes, a chan yr Armeniaid, os arnynt hwy y bu ef yn teyrnasu yn gyntaf. Y bobleedd hyny yn gyndrychol, pan wybuont farw Noe, hwy a'i hanrhydeddysont ef megys santaid; can's yr amser

hyny, pob gwr santaidl a elwid yn dduw, megys y traetha yr Ysgrythyr yn fynych,—  
 “Mi a ddywedais Duwiau ydych, a 'Chwy-chwi y gyd, plant y Goruchaf ydych.”  
 Hefyd, hwy a wnaethant iddo ef demlau ac allorau, megys yn y dyddian hyn ydd ys yn gwneuthur i'r saint o'r nef. A'r neb a wnel felly, gauaddolwyr ynt.

‘Myfi (hebe Ffolineb) a berais i'r gyffredin bobl gredu yndyn' eu hunain idd ei enaid ef symmud i'r cyrff nefol; ac am hyny y galwent hwy y nef yr haul, a had y byd, a thad y duwiau, y lleiaf a'r mwyaf; duw yr heddwch, cyfiawnder, a santeiddrwydd; ymlidwr ymaith y pethau drwg, a cheidwad y pethau da oll. Yno mi a berais i'r bobl offrwm aberthau iddo ef, megys i Dduw; am hyny ydd aethant oll yn auaddolwyr. Os betfuasent hwy yn ei gym'ryd ef yn wr da, heb wneuthur ond hyny, ni buasent yn pechu dim; can's yn wir ydd oedd ef yn wr santaidd.

‘Syna beth a ddywed Awstyn yn ei ddegfed llyfr o Ddinas Duw: “Nid deddfol (medd ef) offrwm aberthau i saint, p'un bynag a fo ai dyn ai angel, ond i Dduw yn unig.”

‘Ar ol distryw Troea, Eneas a ddaeth i'r Eidial, ac a ddygodd eu audduwiaeth gydag ef, a duwiau Troea hefyd. Ac ar hyn gauaddoliaeth a amlhaodd yn rymus. Yr wyf yn tybied (hebai Ffolineb) ym' draethu (ligon i ddangos pa fodd y daeth gauaddoliaeth i'r byd gyntaf. Ti a glywaist pa fodd y llywodraethais i engylion a chenedloedd: yr awr hon ti a gei glywed pa fodd y rhiolais i wŷr yn neillduol.

‘Ar ol y llif, yn gyntaf, mi a riolais Cham fab Noe, yr hwn oedd yn hollol wedy ymroi i gefyddyd magig; ac am hyny y ennillodd ef ei alw Zorastes. Ac fe a gasaodd ei dad, am fod ei dad yn caru ei feibon ereill yn fwy nag efo; ac i ddial hyny, ef a gafas ei dad Noe yn feddw yn gorwedd ar y ddaiar, ac yn cysgu. Yntau (yn amherffiaith) a noethodd ddirgelwch ei dad, a thrwy fy nghynghor i, fe deimlodd ei aelodau dirgeledig ef, a thrwy y gelfyddyd magig, fe barodd na all-

odd ei dad o hyny allan ennill dim plant. A'i dad a ddigiodd am hyny, ac a'i helodd ef ymaith.

‘Ar ol hyny y daeth Cham yn gyntaf brenin a Satwrn yn Egipt, yn gymmaint ag y mae yr Ysgrythyr Lân yn galw Cham y brenin cyntaf yn Egipt. Eilwaith, drwy fy nghynghor i, fe ddygodd i fynydd y bobl oedd yn ol ei naturiaeth ei hunan mewn pob mileindra a halogrwydd, drwy ddangos y gallai bawb (yn ddeddfol) ymarfer o'u mamau eu hunain a'u chwiorydd, megys ydd oedd yr arfer cyn y llif; a hefyd i wneuthur llawer o bethau, anghyfreithus ereill, y rhai ni allaf rhag cywilydd eu hadrodd. Drwy y dysgeidiaeth hyny, morwynion gwry naturiol oeddid yn eu treisio yn fynych.

‘Y pryd hyny fy ffrind Cham aeth i'r Eidial, ac a gamddalodd y freniniaeth iddo ei hunan. A lle ydd oedd dywysogion ereill o'i waedoliaeth ef yn Iermaen, Spaen, a Ffrainc, yn rhoi cynghorau da ac arweiniad perffaith idd y cyffredin, yntau yn wrthwynebu i hyny, a ysbeilai y ie'nctyd yn Ital o'u holl rinweddau da, ac a'u dysgai mewn pob drygoni, megys ocr, lledrad, cynllwyn, gwenwyno, a hudoliaeth, yn yr hwn beth efe ei hunan oedd y dychymmygwr cyntaf, megys ag y mae yr holl ystoriawyr yn dal opiniwn. Ond pan gwybu ei dad daionus hyny, fe ddaeth i'r Eidial, ac a'i helodd ef ymaith. Pe bawn i yn ysgrifenu holl ddrygweithred-oedd Cham, fe fyddai ddryll o waith pwysig, a'r mater a fyddai anghynflaidd. Ond o'r diwedd fe a'i dygodd ei hun drwa i fysg y Bractians, pobl yn trigo tua'r Indians, a thrwy ei gelfyddyd ef y bobl a ddaeth yn uddyf iddo, ac efo a deyrnasodd arnynt trwy fawr nerth a gallu; eto (o'r diwedd) fe a orfuwyd ac a laddwyd ar faes, drwy law Ninws, brenin Babilon, yr hwn oedd yn dyfod o'i lin ef drwy ei fab Chus. Ac felly (hebai Ffolineb) mi a gollais fy ffrind Cham, ac o llysenw Zorastes, Satwrn o Egipt, gelyn cyffredinol Duw a dyn, ac un o'r creuloniaid gwaethaf ag a fu erioed.



'Myfi a lywodraethais Bel, yr ail brenin o Babilon, a'i fab yntau, Ninws; ym mhenau y rhai'n mi a ddodais ddirfawr chwant i fyw eu hunain yn y byd. Ac i ddwyn hyny o gylch, mi a'u cynghorais hwynt i newid ac i dori ymaith y byd euraid, yr hwn a fynai fod bob peth yn gyffredinol, yn heddychlon, ac yn llonydd. Ar hyn [hwy] a harneisysont ac a gymmer'sont arnynt fyned i ysbeilo Sabasiws Saga, ac o lysenw Satwrn, brenin a phadriarch yn Armenia, gwedy ei wneuth[ur] a'i ordeino drwy ei dad y cu, Noe. Sabasius hyny oedd fab Chus a brawd Nemroth, yr hwn a alwodd Moeses, Sabatha yn Ebryw, yr hwn yw Satwrnus yn Lladin. Y pryd hyny, Sabasius, brenin Armenia (gwedy dianc o'r braidd o ddwylo Bel a Ninws), aeth at ei dad y cu, Noe, i'r Eidial, ac a wnaeth Noe yn frenin ac yn badriarch ar yr Aborigens, ac a wnaeth iddo ddiinas o'r tu arall i'r afon Tiber, yr hon a alwodd ef Satwrnia, fal y traetha Vyrgil yn yr ymadrodd hyn:

"Satwrn y cyntaf o'r nef a gilodd,  
Rhag ofn Ioves, yr hwn a'i saethodd;  
Fe gollwys ei rywl a'i freniniaeth,  
Ac arweinwys ei fywyd mewn alltudiaeth."

'O achos Bel fab Nemroth, o lysenw a elwid Iubiter, ac nid ydyw yn debyg fod yn wir y peth a ddywad rhai, mai Satwrn hyny, yr hwn a helodd Iubiter ymaith oedd Nemroth, brenin Crete: ond y Beibl a ddywed mai brenin o Babilon oedd ef, yr hyn a sydd bell oddi wrth ynys Crete. Yn y dyddiau hyny, hwy a alwent y gwr penaf ym mhob ty, Satwrn; a'i feibon, Iubiter neu Ioves; a'u merched, Iuoes; a'u hwyron, Hercules. Ac felly ni a welwn mewn henafiaeth ysgrifenu, lawer un yn dwyn enw Saturnus, Ioves, a Hercules.'

Ond i droi eilwaith at y mater. Ffolineb a ddywad, 'Ninws (yr hwn a enwid o'r blaen), drwy fy nghyngor i, yn ol marw ei dad Bel, a barodd wneuthur llun a delwau safedig, a gorchymmyn pob rhyw o ddyd i wneuthur gwrogaeth i ddelwau ei dad a'i

fam ef, a'u hanrhydeddu. Ac felly (fal y traethwyd o'r blaen) efo oedd y cyntaf ag a ddychymygodd ddelwaddoliaeth.

'Myfi a lywodraethais Tiphon fab Cham, yn yr hwn holl ddrygoni ei dad oedd yn gyflawn. Ydd oedd ef yn genfigenus am ffyniant a gwynfyd ei frawd Osirys, ac o lysenw, Iubiter y Cyfiawn, yr hwn oedd yn fawr yn herlid y creulonaid camweddus. Ydd oeddwn yn ddiog iawn (hebai Ffolineb) am fod gwr mor onest ag ef yn fyw: am hyny mi a berais i Tiphon a chewri ereill ladd Osirys. Ac fe'i torodd Tiphon ef yn chwech ar hugain o ddarnau, ac a'u rhoes hwynt i'r cewri ereill a'i helpysai ef i ladd ei frawd.

'Ond y daionus Hercules o Libia, mab Osirys, drwy help ei frodyr ereill, mewn ymladd ar faes, a laddodd Tiphon y Cawr, a'r camweddwyd ereill, y rhai a helpynt ladd ei dad.

'Myfi a lywodraethais un Iubiter, brenin Crete, yr hon wlad a elwir yr awr hon Candi. Ond am fod y Groegwyr celwyddog a'r ysgrifenyddion ereill, yn gystal Lladinwyr a Ffrangod, i fwyhau eu celwydd a'u breuddwydon, yn rhoi i'r Iubiter hyn yn fynych y pethau na pherthynant iddo; o'r achos hyny mi fynwn ichwi syned mai arferedig yr amser hyny oedd alw plant breninoedd, neu dadau tylwyth, yn Iubiter a Ioves, Eto ni welwn mewn hen hystorys, fod o'r enw hyny dri canmoledig.

'Y cyntaf oedd Osirys, wyr Noe a mab Cham, yr hwn oedd mor lawn o ddaioni ag oedd ei dad o ddrygoni. Iubiter hyn a ennillodd Hercules o Libia, yr hwn a fu frenin yn Spaen, Ffrainc, a'r Itali. Yr Hercules fawr hyn a oedd debyg idd ei dad yn herlid y creulonaid camweddus drwy'r holl fyd. Efo a ennillodd o Aracsia, Tuscus iefanc, brenin Tuscan ac Itali.

'Y Tuscus hyn a ennillodd Altirus Blascon; yntau a ennillodd Camboblascon, yr hwn oedd, fal y dywed rhai, o lysenw Iubiter yr Ail, ac yn ei anrhydeddu yn y byd.

Camboblascon hyn, o lysenw Iubiter, a ennilodd o Electra, merch Attas, o lysenw Italus (oddi wrth yr hwn y mae Itali eto yn dwyn yr enw), Iasius a Dardanius. Hyn ody y Groegwyr celwyddog yn ei osod i Iubiter o Crete, yr hwn beth a sydd mewn ystrif, ac a ellir ei amheu; o achos gwedi i Dardanius (drwy genffgen a thwyll) ladd ei frawd Iasius, efo a giliodd i ynys Samos, ac odd yna i Phrigia, lle y gwnaeth ef ddinas a'i henwi Dardania, lle y ennilodd ef fab, a'i enwi Erictonius, ac o hano ef yn uniawn y hanoedd Tros, yr hwn a droes enw y dinas Dardania i Troea. I'r Tros hyny ydd oedd tri mab, Ilius, Asaracus, a Gaminedes. Tantalus, brenin Phrigia Uchaf, a ddalwys Gaminedes, ac a'i gwerthwys i Iubiter, brenin Crete, idd ei gam arfer megys y Sodomaidd: yr hyn beth a sydd yn traethu nad efo oedd dad Dardanius, yr hwn oedd hen dad y cu Gaminedes. Iubiter cyntaf, ehwi welweb, oedd Osirys, \*yr Noe, yr hwn ydoedd Moeses yn ei enwi Mesraim.

'Yr ail Iubiter oedd Camboblascon, brenin Itali, ac (medd rhai) brenin Athens ac Arcadia. Ond ydd wyf yn tybied mai Iubiter o Arcadia, yr hwn a ennilodd Lasedemon, oeld ryw un arall heb Camboblascon. Ond p'un bynag bwedd y mae'r peth yn sefyll, hollol wybyddus yw, nad yr un oedd Iubiter Ioves, Osirys, a Camboblascon.

'Y trydydd Iubiter anrhydeddus yn y byd oedd brenin Crete, yr hwn oedd yn dwyn yn ei scutchin, a'i bais arfau, oedd yn dwyn eryr: ond yn ei arferau ydd oedd ef wedi ymroi i ffolineb; can's ydd oedd ef yn diflodeuo morwynion, yn treiso gwragedd, ac yn cam arfer plant iefanc, ac yn gwneuthur pob rhyw fileindra ag a ellid ei ddywedyd ne'u gwneuthur. Efo a wnaeth godineb gydag Alcumena, gwraig Amphitrio, o'r hon y ennilodd ef Hercules fach o Roeg. Fe wnaeth yr un modd â Leda, gwraig Dindarus, o'r hon y ennilodd ef Elen Fanog. Ydd wyf yn ddiog i draethu pa ryw drais a milindra a wnaeth ef i lawer o forwynion a

phlant iefainc. Ond er ei holl ddrygoni, m' a berais (hebai Ffolineb) i'r bobl ynfydion ei alw a'i gym'ryd ef megys duw. A llawer o gelwyddwyr a sydd yn gosod iddo ef hardd weithredoedd y padriarch Noe, a'i \*yr Osirys, ac o enw arall, Iubiter y Cyflawn. Hefyd, nid oedd y bobl yn unig yn offrwam aberthau iddo ef, ond hefyd rhoi iddo enw a'i alw ef yr Odidog Ddaioni, lle yr oedd ef (yn wir) yn odidog ddrygoni.

'Myfi a lywodraethais Hercules fach, o enw arall Alsens, mab o orddereh i'r Iubiter hyn o Alcumena, gwraig Amphitrio. Y Groegwyr celwyddog a sydd yn gosod i'r Hercules hyn hardd weithredoedd ac enw Hercules o Libia, yr hwn beth a sydd ffalst; cau's Hercules o Roeg oedd y pirad neu'r lleidr cyntaf ar y môr, ac oedd gyflawn o bob drygoni, yn dilyn ol troed ei dad Iubiter, y godinebwr, mewn pob modd. Ac fal ydd oedd ef yn byw, felly y bu ef farw; can's pan ydoedd gwedy gwallgofi (medd Seneca), fe laddodd ei wraig a'i blant, a chwedy hyny fe a losgodd ei hunan. Ond ychydig cyn ei angu fe barodd i Philoctetes dyngu na ddangosai ef pa fodd y buasai y diwedd; yr hyn beth a wnaeth ef o dra balchder ac oferedd meddwl, er mwyn peri i'r bobloedd gredu a thraethu mai'r duwiau a'i tynysai ef atynt yn anweledig: ond ni hapodd fal y dymunodd. Eto er hyny, mi a berais i'r Groegwyr celwyddog draethu fod hyny yn wir; ac ydd oeddynt yn ei anrhydeddu ef megys yn dduw.

'Myfi a lywodraethais Paris teg (mab Brenin Priaf), a'i lysenw oedd Alecsander. Ar y ddechreu nid oedd gantho bris am danaf fi; ond arwain ei fywyd yn uniawn, a dilyn yr Arglwyddes Palas, duwies y Doethineb, a'm gwrthwynebus elynes innau. Ond pan oedd Iuno, Palas, a Venws, yn ymryson am y bel euraid, yr hon a fwrased yn eu mysg hwynt, mewn ammod i'r tecaf o naddynt ei chael hi; hwy ddodysont yr ymryson ar farnedigaeth Paris, o enw arall Alecsander, yr hwn a oedd yn barod i farnu gyda Palas,

fy ngelynes i; ond trwy fy nghanlyniaeth i, gwedy hyny, efo a'i rhoes ef i Venws, fy anwyl ffrynd i, ac o hen gyddnabyddiaeth. Y pryd hyn (yn dâl dros y farnedigaeth ffol) myfi a'i cynghorais ef i fyned i Roeg, lle y treiswys ef Elen deg. Ac ar hyn y Groegwyr (mewn llid mawr a ffromder) a ordeinodd eu holl nerth yn erbyn y Troeaniaid; ac wedi sitysio y dinas ddengmlynedd, hwy a ddalysout Ilion, ac a ddodysont y Brenin Priaf i angeu, nes bod yr holl ynys wedy diwynebu.

'Yn y rhyfel hyny y lladdwyd llawer marchog hardd, a llawer o dywysogion, megys Ector, Achilles; Paris hefyd a laddwyd y gan Philoctetes, cydymaith Hercules leiaf, mewn ymladd law dra llaw. Yr arfau oedd ganthynt oedd bwâu a saethau fforchogion. Philoctetes a glwyfodd Paris mewn tri lle; yn gyntaf, yn ei law aseu; yr ail, yn ei lygaid deheu; y trydy, yn ei ddwygoes; a hoelodd ef yng nghyd. Gwedy y clwyfau hyny, fe'i dygodd y Troeaniaid ef i'r dinas; ac ar fyrder y bu ef farw.

'Myfi (hebai Ffolineb) a lywodraethais Elen deg, merch o ordderch i'r trydydd Iubiter o Roeg, yr hon a ennillodd ef o Leda, gwraig Dindarus, yr hon Elen (drwy fy nghynghor i) aeth oddi wrth ei gwr priod, Menelâus, ac a ddyoddefodd ei threiso gan y godinebwr truan iefanc Paris, o lysenw Alecsander, fab Priaf. Yn lle goddol, hi a ddygodd waed ac angeu i Troea: can's o'i hachos hi Troea a ddistrywyl; a rhag ofn idd ei chywely godinebus Paris (neu Alecsander) fyned at ei wraig briod ddeddfol, Pegasus Enone, a'i gadael hithau, hi a'i swynserchodd ef o ryw ddiod (yn yr hwn beth y oedd hi yn gelfyddus), yr hwn beth, pan ddarffai ei wneuthur â dyn, fe a ellyngai yn anghof y pethau a aethoedd heibo, a'r doluriau presennol. Pan ydoedd hi wedy dyfod i Troea, ei gwr da hi Menelâus, ac Ulices, ac ereill, o Roeg, a ddoethant idd ei cheiso hi adref. A'r Brenin Priaf a erchis ei dwyn hi rhag bron, drwy gynnwyl iddi ar g'oedd yn rhwydd,

o bai hi yn gweled bod yn dda, fyned yn rhydd drwy genad eilwaith yn ei hol i Roeg, a'i holl enifer a'i golud gyda hi: i'r hyn beth hi atebodd, lle y clywai ei gwr, a'r Brenin Priaf, a'r holl foneddigion a'r cyffredin, nad oedd yn ei bwriad hi fyned yn ei hol eilwaith idd ei gwlad; a hefyd ydd oedd hi yn ewyllysu idd ei gwr da hi, Menelâus, fyned at Dduw, ac nad oedd hi ddim yn wraig iddo ef, ac na byddai iddi hi a wnelai ag ef byth, ac na ddaethoedd hi i Troea yn erbyn ei hewyllys, ac nad oedd genti bris am y briodas.

'Ond o'r diwedd, Troea a ennillwyd ac a ddistrywyl ym mhen deunaw mlynedd ar ol ei dyfodiad hi oddi wrth ei gwr. Ac yn hyny oll o amser, yr oedd hi yn byw mewn godineb gyda dau odinebwr. A hi a wnaeth heddwch â'i gwr Menelâus. Ond pan aeth hi yn hen, hi a edrychodd mewn gwydr, ac wrth ei gweled ei hunan cybelled oddi wrth fod yn deg, hi a hwarddodd yn uchel am ben y ffoliaid a ymladdasai ddengmlynedd o restr, o gariad ar beth oedd yn gwywo ymaith mor ebrwydd. Ond pan fu farw Menelâus ei gwr hi, dau o'r gwyr penaf yn ninas Sparta (y rhai a elwid Nicophratus a Megapentus, gwyr o awlurdod mawr) a helodd Elen allan o ddinas Sparta ac o freniniaeth Lasedemonia, heb osod iddi un lle na gwlad i aros yndi. Pan ei halltudwyd hi odd yno, hi aeth i Rhods at ei hen gyfeilles a'i ffrynd Polipo, yr hon oedd hefyd yn widw, o achos lladd ei gwr hi Tlepolemus wrth Troea. A phan oedd hi yn Rhods, y Frenines Polipo oedd yn ei hamgeleddu hi yn dda: ond y merched iefaine (y rhai oedd yn weito ar y Frenines) oedd yn casâu Elen yn fawr, o herwydd o'i hachos hi y lladdesid eu meist'r a'u brenin hwynt, Tlepolemus. Ac ar ddiwarnod hwy a gytunasont oll yn ei herbyn hi, ac a'i cawsont hi i ardd, ac a ddodasant raff am ei gwiddwg hi, ac a'i crogasant wrth bren nes ei thagu hyd angeu. Ac fal hyn y bu druan diwedd Elen Fanog. Ond gwedy ei marw hi (hebai Ffolineb) mi a ddodais ym mhenau y bobl

foliaid ddeillion mai duwies oedd hi, gan ei theced. Ac er bod hyny yn ddelwaddoliaeth, ac yn gyfrgolledig o dwyll, hwy a adeiliasont deml iddi, ac a'i galwysont hi (drwy fawr gydwybod) Duwies y Tegwch, ac a ddywedysont gelwydd, a'i bod hi yn gwneuthur gwyrthau, y rhai (er mwyn byrhau yr ymadrodd) ni a'u gadaf heibo.

'Myfi (hebai Ffolineb) a lywodraethais Pharo ap Menophis, a Pharo Bocoris, brenin-oedd ill dau yn Egipt, y rhai (drwy fy nghynghor i) a beris foddi y meibion oll o'r Iddewon, y rhai'n bobloedd a oedd mewn caethiwed mawr gan Pharo y Cyntaf. Ond yr ail Pharo, mi a'i dysgais ef yn gystal na fynai ef oddef plant yr Israel i fyned allan o'i dir ef. Ond o'r diwedd (gwedy i Dduw ddanfon dial arno ef) fe orfu arno eu gellwng hwynt i fyned; ac wedi eu myned, mi a rois cynghor iddo i ddial arnynt, ac iddynt eu dilyn hwynt a'u holl farchogion, a'i bwer yn Egipt: yr hwn beth ef a wnaeth. Ond y creulon wr a'i holl nifer a foddodd yn y Môr Coch.

'Myfi a lywodraethais Chore, Dathan, ac Abeiron: drwy fy nghynghor i, hwynt nad ufuddhäent orchymmyn Moeses, yr hwn oedd Duw gwedy ei ordeino yn rhiolwr penaf ar blant yr Israel. Ond Chore, wrth offrwm aberth yn wrthwyneb idd ei swydd, a foghawyd, a phump cant o'i dylwyth gydag ef. Dathan ac Abeiron, y ddaiar a agorodd ac a'u llyncodd hwynt, a'u gwragedd a'u plant, a'u da, yn fyw.

'Myfi a lywodraethais Sawl, y brenin cyntaf ar blant yr Israel. Yn nechreu ei deyrnasad ydd oedd ef yn dda ac yn dduw-iol; ond o'r diwedd, myfi a'i rheibais ef, nes iddo beri lladd llawer o brophwydi Duw, yn gymmaint ag y dododd ef i angeu mewn un dydd bump a phedwar ugain o brophwydi. Mi a'i cynghorais ef i herlid y daionus Dafydd, ac i ofyn cynghor i wragedd y swyn-oglaui, yn wrthwyneb i gyfraith Dduw y pryd hyny. O'r diwedd, gwedy i Dduw ei ymwrthod ef, Phelistines a gafas y gorchafiaeth

arno; ac a'i law ei hunau fe amlfasodd ei hun ar fynydd Gelboa.

'Myfi a fuo mor ewn ag entro i dy y Brenin Dafydd: a thrwy fy nghynghor i, mi a berais iddo ef wneuthur godineb gyda Berseba, gwraig Urias. Ac er bod Urias yn was ffyddlon, ac yn gynghorwr da iddo ef, eto, mi a rois gynghor iddo ef ladd Urias, fal y gallai ef felly guddio ei bechod wrth briodi gwraig Urias. Ac am y bai hyny, y prophwyd Nathan a'm gortrechwys i, fal y torodd ymaith fy mwriad ym mhellach. Ac o hyny allaf fe a'm halltudwyd i byth o dy Dafydd.

'Myfi a lywodraethais hefyd y Absolon, yr hwn, gwedy iddo ladd ei frawd Amon, fo wnaeth ryfel yn erbyn ei dad, ac a'i helwys ef i Gaerysalem, heb fod arno gywilydd am fyned i dai gordderchadau ei dad, a gorwedd gydag hwynt. Ond derwen a ddialodd yn gyfiawn ar y plentyn drwg hwnw; pan oedd ef yn tybied y diangai ar gefn ei fwyl, pren a'i dalodd yn ffest gerwydd ei wallt, nes dyfod Iacob a dart, a'i ladd ef.

'Myfi a lywodraethais Roboam, mab y Brenin Selyf, yr hwn (yn anrhesymol) oedd yn blinhau ac yn gortrechu y bobl a thaloedd a thasgoedd; a phan oeddynt yn damuuo arno eu lleihau a'u hesmwytho, nid oedd yn unig yn pallu iddynt a'u canlyn, ond hefyd rhoi geirau anwedus iddynt, a dilyn cynghor ei wŷr boneddigion iefainc rhwyfus, yn gynt na dangosiad gwŷr araf doethion a'i gynghoriaid. Ac am hyny fe gollodd y freniniaeth ond y ddegfed ran.

'Myfi a riolais y Frenines Iesabel. Drwy gynghor hōno, ei gwr Achab a addolwys ddelw Bal, ac a barwys ladd Naboth ddaionus. Hi a herlidodd y prophwydi duwiol, ac a wnaeth ddodi llawer o hanynt i angeu. Hi a geisodd ym mhob modd ddinystri Elias ddaionus. Ond fal ydd oedd ei bywyd hi yn ddrwg, felly y bu ei hangeu yn gywilyddus, fal y cwmpodd hi drwy ffenestr uwchel, hi a ddansielwyd dan draed meirch, ac a'i bwytafwys y cŵn hi.

'Myfi a lywodraethais Sardanapalus, y

## CRWYDRAD.

brenin diwethaf o'r Assiriaid, yr hwn nid oedd yn priso am riolaeth ei deyrnas, ond byw yn hollawl mewn hoffder diofal. Fe arferai beinto ei wyneb, a gwisgo dillad gwreigaidd am dano. Ac ydd oedd yn ymarfer o bob rhyw fileindra a halogrwydd, nes i'r rhan fwyaf o'i bobloedd ei adael ac ymwrthod ag ef. A phan y gweles ei fod yn annedwydd mewn rhyfel, ac nad oedd yn sefyll ar dir rhydd rhag perygl angu; fe hapiodd ddiwarnod ei fod ef yn y tŵr ym Mabilon, ac fe losgodd ei hunan, a'r maint oedd ganto hefyd.

'Myfi a lywodraethais Cambises, brenin y Persiaid, mab y brenin daionus Kirus, yr hwn (drwy fy nghyngor i) a ymroes ei hunan i lothineb a medd'-dod, ac i ddrygoni ereill anwedus i dywysog eu gwneuthur. Pracsaspes a oedd ddiwarnod yn gweled y brenin yn cyfeddach yn anfesurrol; fe ddywad yn orestyngedig wrth y brenin, nad oedd dywysogaidd iddo ef wneuthur felly. Am hyny y brenin a lidiodd, ac a archodd iddo ddanfôn i nol ei fab i'angaf; ac wedy ei ddyfod, Cambises a barodd i Pracsaspes ei glymu ef wrth bren, ac a ddywad, "Os tarawaf â'm saeth a'm bwa hir galon dy fab, ai all dyn meddw wneuthur felly?" Ac yno Cambises a saethodd ac a holltodd galon y plentyn yn ddau, a'i dangos idd ei dad, a rhoi gorchymmyn iddo ymweglyd rhag beio y brenin a'i arglwydd. Gwedy hyny mi a berais iddo briodi ei chwaer gnawdol, a lladd ei frawd ei hunan. Fo hapiodd ddiwarnod fod y brenin a'r frenines ei chwaer yn eistedd wrth y ford, ac (er mwyn hoffder a difyrwch) ydd oedd ganto lew iefanc yn ei fagu yn gryf, gwedy ei ellwng, a gwaedgi mawr grymus, yr hwn oedd y brenin yn peri ei gadw hefyd. Y llew a'r ci a ymladdodd yn greulon; ac o'r diwedd ydd oedd y ci yn barod i gael y gwaethaf; ac o fewn golwg iddynt ydd oedd waedgi arall yn rhwym mewn cadwyn gadarn, yr hwn gi a gydfagesid â'r llall. Pan y gwelodd y ci ei gydymaith mewn perygl, ar frwst fe ddaeth i helpu ei

gydymaith, ac ill dau y gorfuant ar y llew, ac y lladdysont ef. A'r brenin a fu hoff gantho gydgariad a chydgywirdeb y cŵn: ond y frenines a wylodd yn dost. Pan y gwelodd Cambises hyny, fe ofynodd pwy achos ydd oedd hi yn tristâu. Hithau atebodd fal hyn: Ni hapiodd i'm brawd i megys ag y hapiodd i'r ci yma, yr hwn oedd yn rhy wan i'r llew; er dy fod di yn frawd iddo ef, ni ddangosaist ti y fath gariad a ffyddlawnder iddo ef ag a ddangosodd y ci yma idd ei gydymaith: tydi a beraist ladd dy frawd." Y brenin a fu anfoddlon a lliidiog am yr ateb, ac a orchymmynodd fyned â'r frenines o'i olwg, a'i doddi i angu: a hyny a ddarfu. Ond fal ydd oedd y brenin hyny ddiwarnod yn dyfod o Egipt yn marchogaeth, ei gleddeu a gwypodd o'r wain, ac yntau a gwypodd ar ei flaen ef, nes myned y cleddyf trwyddo, ac yntau a fu farw.

'Myfi a lywodraethais un â'i enw Catilin y Rhufeinwr, yr hwn a oedd wr aflonydd, ac a fwriadodd ladd holl Senedd Rhufain; ond fe ddaeth rhwystr arno, o achos i Sisero gyhoeddi ei ddrygoni ef. Ac yntau a'i holl gytunwyr a laddwyd ar faes.

'Myfi a lywodraethais Herod a Herodias, ac a berais iddynt wneuthur godineb. Mi a'u clymais hwy mewn priodas, er ei bod hi yn wraig idd ei frawd Philip: am yr hon briodas anghyfreithus Iefan Fedyddiwr a'u ceryddodd hwynt; ac am wneuthur felly, yntau a gafas dori ei ben.

'Myfi a lywodraethais Pilat, Annas, a Chaephas, yng Nghaerysalem, a llawer o ddoctoriaid, offeiraid, ac ysgrifenyddion; mi a'u cynghorais hwynt i goeshoeli Crist rhwng dau leidr, megys bei buasai Ef herwr anundeb. Ac wedy gwneuthur felly, mi a dybiais ym' ennill y byd; ond pan y gwelais i Efo yn cwnyd y trydy dydd yn fyw, yr hwn beth nad oeddwn yn ei dybied, mi a gollais lawer o'm gwasanaeth-ddynion, y rhai oeddynt yn clywed yr Apostolion yn pregethu, ac a'm rhoisont i i fynydd.

'Myfi a lywodraethais Nero, y chweched

Amherawdr o Rufain, yr hwn yn nechreu ei deyrnasad oedd dda a rhinweddol; ond gwedy iddo wresgynu yr amherodraeth bum mlynedd, ef a aeth yn ddrwg ac yn wael, ac a ymröes i odineb a halogrwydd. Y gwr hwn oedd gynllwynwr; fe laddodd ei wraig a'i fam, a llawer o ddynion da ereill, ym mysg y rhai'n fe laddodd Seneca. Efe oedd y cyntaf a herlidodd yr Eglwys a'r Crist'nogion, ac a roddes lawer o wŷr da i angu, megys Pedr a Phawl. Ond pan oedd y creulonwr hwn ryw bryd heb ei geidwaid o'i amgylch, y Seneddwr boneddigion o Rufain a geisodd ei gopsi ef, ac o dra lliid fe laddodd ei hunan.

'Myfi a lywodraethais Antonius Basian Caracala, y pedwaredd ar bymtheg Amherawdr o Rufain, yr hwn (drwy fy nghynghor i) a laddodd ei frawd Getta. Heb law hyn, fe briodes ei lysfam, ac a ddeisyfodd ar Pompinion (y gwr o gyfraith mawr) wneuthur ei esgus ef am y cynllwyn; yr hwn atebodd ac a ddywad nad oedd ef mor wyllysgar i gelu cynllwyn ag oedd ef idd ei gyhoeddi. A'r Amherawdr annylyadwy i gael ateb cystal a hyny, a lidiodd, ac a barodd ladd y gwr o gyfraith.

'Myfi a lywodraethais Varius Heliogabillus, yr unfed Amherawdr ar hugain yn Rhufain, yr hwn (drwy fy nghynghor i) a oedd yn dwyn ei fywyd cynddrwg ag na adewis ef un cofiedigaeth ar ei ol am fywyd glân puraid, ond drygenw a chywilydd; a'i sowdwys ei hunan a'i lladdodd ef, ac a'i byrysont mewn clawdd; ac am nad ai ef i'r gwaelod, hwy a'i llusgysont ef i'r lan â bach, ac a'i byrysont i afon Teibr.

'Myfi a lywodraethais Iulian Apostata, y pedwrydd ar bymtheg ar hugain Amherawdr yn Rhufain, yr hwn (yn ei feddwl) oedd mor ddoeth ag y gwnaethpwyd ef yn ddarlleawdr yn yr Eglwys o Nicomedia. Y gwr hwn a drafaelodd i Athens, lle bu ef yn myfyrio philosophi; ond ni thrigwys ef yn hir ar y meddwl hyny; ond, drwy fy nghynghor i, fe ymwrthododd â ffydd Grist, ac aeth yn ddelw-

addolwr. Mi a berais iddo herlid y Crist'nogion, rhag iddynt amlau deg am yr un: ond o fewn dwy flynedd gwedy hyny fe laddwyd ym Mheria; a phan ydoeidd ef yn rhoi ei ysbryd gwael i fynydd, fe gwnodd ei law tua'r nefoedd yn erbyn Duw, ac a ddywad, "Yr awr hon, O Tydi, y Galilean, ti a gefaist y goruchafiaeth."

'Myfi a lywodraethais y gau brophwyd Mahomet, ac a'i cynghorais ef i wneuthur llyfr, a'i alw ef Alcaron, ac i ddeall pethau yn yr Ysgrythyr Lân yn gnawdol; yr hwn beth a wnaeth ef. A'r gyfraith hōno a sydd yn eefyll eto yn y rhan fwyaf o'r byd.

'Myfi a lywodraethais Mesaline Amherodres, y butain gwplaf o'r byd oll, pan ydoedd yn newydd briodad â'r Amherawdr Claudius y pummed yn Rhufain, yr hwn oedd hen wr boneddigaidd. Pan gwybu hi trwy brofi ei fod ef yn abl i wasanaethu ei chorff godinebus, drwy fy nghynghor i, yn fynych hi a wisgai drwsiad gwr am deni, i ymddeithro ei hunan, ac ai i'r puteindy cyffredin i wneuthur godineb gyda llaweredd o ddynion, ac a ddawai yn ei hol yn halogach na'r ast, dan fostio iddi ragori pob putain yn y puteindy.'

Pan glywas y Marchog Crwydrad Ffolineb yn traethu y fath bethau hyny, ag yndo beth gwreichionen o ddeall naturiol, fe feddylodd ei fod yn ffol; ni fedrai ef farnu ar bethau mor fesifflyd a chynddrwg a hyny. Pan oedd heb fod yn abl ym mhellach i dewi, fe dorodd allan ei feddwl at Ffolineb, drwy weled bai mawr ar yr amherodres, ac a ddywad â llais uwchel, "Ffi! ffi! ffi! ast front a phutain wyllt, a ddylai ei rhwyma wrth bren yn noethlymun, a'i rhoi i gŵn newynllyd ac adar ciglyd idd ei bwyta a'i dinystr." Yno mi a ofynais i Ffolineb, beth a fuasai ddiwedd y wraig ddrwg hōno. Hithau a ddywad, i'r amherawdr ei gwr, ei dodi hi i angu am ei godineb. Ac â'r hyny y cytunais innau, drwy ddywedyd ei fod yn weithred da. Nid oedd raid ond tair putain halog o'r fath hyny i lygru ac i ysbeilo yr holl fyd.

Y chwedl hyn, yr hwn a ddywad Ffolineb o blegid ei gweithredoedd, ei chwmpasau, a'i dychymmygiaeth, ei chymhelliad, a'i chynghorau; am [eu] bod hwy yn hirion ac yn ddyeithr, nid oeddwn abl idd eu hadrodd fal y traethodd hi: ond yn llednoeth mi a ddangosais gymmaint ag a drigwys i'm cof i o hanynt, er mwyn i bob darlleawdr Crist'nogaidd yn wyllysol ddysgu yn hollol pwy gymmaint ddrygoni yw dilyn gwael gynghorau Dâm Ffolineb; pob rhai a ddylyai ei chasau ac ymwrthod â hi; o achos diwedd pob dyn ag a sydd yn cymmeryd eu rheoli genti hi, ac a sydd yn oerdded ei llwybrau, ac yn dawnsio gyda ei phib hi, peryglus, marwol, a damnedig ydyw.

Onid yn awr gedwch yn' droi at ein traigl a'n mater.

#### Y 6. PENNOD.

*Y Marchog Crwydrad yn cwrdd â dwy ffordd, heb wybod p'un o hanynt ydd ai; yno y hapiodd dyfod Rhinwedd a Gwaelder ato ef, a phob un yn cynnyg dangos y ffordd iddo.*

Ac felly fe barhaodd chwedlau Ffolineb nes troelo y rhan fwyaf o'r dydd, a gestwng yr haul: yn y diwedd mi a ddoethom i gyfyngder, lle ydd oedd dwy ffordd; un yn gorwedd ar y llaw asen, yr hon a oedd teg a llydan, ac yn myned i lanerch o waen las deg; a'r llall ar y llaw ddeheu, yr hon a oedd gul greigog, a llawn mynyddau. Pan oeddwn yn petruso, heb wybod p'un o'r ddwy ffordd oedd oreu ym' fyned, Ffolineb a ddywad, mai goreu a thecaf oedd y ffordd ar y llaw asen; a'm march i Ffromder oedd yn tawlu ac yn gwingad i geiso myned i'r ffordd hono, fal yr oeddwn yn cael trafael idd ei firwyno ef i mewn. Yno y dywedais wrth Ffolineb fy mod yn ofni rhag i'r ffordd las welltog hono fy nwyn i gloddiau a ffosydd, a choroydd crynedig, lle ydd elem mi yn ffest yndynt; a chyda hyny, yr oeddwn wedi diawchu o achos y chwedlau a ddywedassai hi wrthyf. Ac er fy mod yn eu casu hwynt i'm calon, eto fy arfer oedd yn peri ym' ymddilyn ag hwynt, heb fod yn abl i

wneuthur amgen, heb Ras Duw; ac ar hyny mi fwriedais gym'ryd y ffordd ar y llaw asen, a Ffolineb yn cadw cydmeithias â mi.

Onid fal yr oeddwn yn ymddyddan felly, mi a welwn ddwy arglwyddes yn dyfod tuag at y lle yr oeddwn yn sefyll; a hyny a fu lawen genyf. Un o hanynt oedd yn marchogaeth march gwyn, ac yn gwisgo gŵn o liwiau costfawr wedy ei ymbrodio â gwaith nydwydd, yn yr hwn o amgylch iddo, ydd oedd y tair duwiol a'r pedair dynol Rinwedd yn ysgrifenedig; a'r arlwyddes hono a oedd deg anianol, ac yr oedd yn debyg ei bod wedy ei chyflenwi o radau duwiol a rhoddion ysbrydol; ydd oedd iddi gorff addfwyn, ac ymddygiad arafaid; nid oedd ei hwyneb wedi ei beinto; ym mhob modd yr oedd yn wybodus; yr oedd hi yn arwyddocau awdurdod, ac anrhydedd diwatwar; nid oedd hi sur nac afrywog, ond mwyn a chariadus. A'r arglwyddes arall oedd yn marchogaeth march o liw y llygoden, ac yn myned mewn gŵn o gyfnewidiol liwiau, wedy ei harddu o aur a gormoddawl gost; am ei mwnwgl yr oedd gadwyn o aur, a thlysau cyfoethogion yn ffest wrthi, a'i bysedd yn llawn modrwyau; ydd oedd yn debyg ei dwyn hi i fynydd yn foethus; ei hwyneb oedd deg, ond ydd oeddwn yn tybied ei fod wedi ei beinto; ei hedrychiad oedd rwyfus ac anwadal, ac yr oedd yn troi ei golygon i bob ffordd. Yr arlwyddes hon a ddaeth ataf fi o flaen y llall: ac wedy cyfareb gwell, mi a ofynais iddi y pa un o'r ddwy ffordd ydd oedd oreu ym' fyned i gael perffaith ddedwyddyd neu hapuswydd bydol. Hithau a atebodd, gan ddywedyd, 'Fy mab, os myni fy nilyn i, mi a'th ddygaf i ffordd fer hafaid drwy lanerch deg: ac na ddrwg dybia ddim, can's myfi a'th lettyaf di y nos heno yn y llys o ddedwyddyd neu blas yr hapuswydd, yr hwn le, pan ddelych a chael dy osod yno, nid rhait yt' dybied am ddim, ond am y pethau mwyaf a'r a fo rancodd iti, ac a baro yt' fwyaf hoffder: megys buchedd foethus, dawnsio, chwareu, lettya yn esmwyth,

cariad yr arlwyddesau, chwertlin, hela, hebcca, adara, marchogaeth, neido, bylio, saethu, gwych ymdrwio, a phob peth ag a fedrych ei ddamuno i gyflenwi dy wyllys. Yr holl rancbodiaeth hyny, myfi a'i parodhaf iti, a miloedd ragor hefyd; o achos myfi a biau rhoi y fath bethau hyny, i'r rhai a'm cymmero i yn feistres iddynt.

Y geirau hyn a'm swynoglodd i, megys ag ydd oedd hir genyf, o eisau cael gweled y llys hoffaidd hyny, heb dybied fod yr arlwyddes yn amgenach nog yr oedd yn dywedyd ac yn dangos ei bod. Ac fal ydd oeddwn yn damuno gwybod ei henw, mi a ddywedais fal hyn: 'O Arlwyddes ddaionus! a fydd gwaeth genych er gofyn eich enw?' 'Fy mab,' hebai hi, 'y rhai a sydd i'm dilyn, ac wedi cael cyddnabyddiaeth ar fy naioni, a'm geilw i Dedwyddyd neu Hapurwydd, a hyny drwy ei haeddu yn gyfiawn; can's yn wir, myfi yw amherodres y llys o fyddol hoffder, i'r hwn le mi a'th ddygaf di cyn nos heno, os dilyni di fyfi. Ond y mae fy nghasogion yn rhoi arnaf fi enwau dirmygus anwiraidd, drwy ddywedyd mai myfi yw Malais, Ofereidd, Gwaelder, a Dryghwant; ond na ro di glust iddynt hwy, am eu bod hwy yn dywedyd wrth eu cenfigen, a'u cas, a'u drwg wyllys.'

Ac ar hyny, nachaf yr arlwyddes arall yn dyfod, ac wedy cyfarch gwell ym', yn traethu wrthyf y geiriau hyn: 'Cydwylbod a orchymynai i myfi gael dywedyd yn gyntaf; ond y mae y bawines beintedig yma, yr hon a elwir Gwaelder, yn ei doddi ei hunan i ddywedyd o'm blaen i bob amser, ac ym cymmeryd y chwedl allan o'm pen i. Ymgadw rhagddi; can's, yn wir, y mae ei hymddyddan hi yn gwaethygu ac yn halogi y rhai goreu yn fyw, drwy wenwyn ei drygioni hi. Yr awr hon ydd wyf fi i'th weled di yn gorbwyso ar ddaioni, ac yn barod i bwysu dy lwybrau yn y dafn, mor wyllysiol i rodio yn y ffordd dda ag yn y ddrwg. Ac am fod dy feddwl yn hofra'n, ymarfer dy hunan mewn rhinwedd bob amser; byrhâ ddolurau

dy enaid; dysga dy wyllys o ddoethineb; na pherygla dy werthfawr oes bresennol mewn ewnder, trachwant, ac ofer ogoniant; na ddođ dy hoffder mewn cnawdol gariad; ysgyd ymaith seguryd, drwy ymarfer a gorchwylion daionus; cilia ymaith oddi wrth hoffder bydol; harneisa dy hun yn erbyn dart Ciwbit, rhag iddo (o'r diwedd) dy orchfygu di; agor dy glustau i ddeall, a dilyn fy nghyngor i. Nid myfi yw y front, fleinig, ofer, fesifflyd, ddrygonus, dwyllodrus, yr Arlwyddes gelwyddog Gwaeledd; ond myfi yw y sywr a'r ddiogel ffordd a sydd yn myned i berffaith ddedwyddyd. Ac er fy mod yn gyfyng ac yn boenedig i'm tramwy; eto, os myni fy nilyn ti, mi a'th wnaf yn llawen, ac a'th arweinaf yn gyfarwydd i'r ffordd uniawn, yr hon a ordeinodd Duw i fyned i wir ddedwyddyd. Ond, fy mab, gwybydd hyn, nad ydyw Duw galluog yn rhoi llawenydd berffaith a goruchel ddaioni i ddynion, yn llai nog iddynt drafael idd ei ennill ef. Os tydi, am hyny, a feddwl bob amser am drcelo dy oes mewn boddlawnder, a dilyn dy chwant dy hunan, a gwneuthur pob peth a'r a fo hoffaidd genyd, a thybied mai y ffordd hōno y cei di ddedwyddyd, ydd wyt ti ym mhell oddi ar y ffordd iawn, ac yn camdybied. Y neb a fyno fêl, rhaid iddo wneuthur yn fawr o'r gwenyn. Os tydi a ddamuna ddedwyddyd, arwain dy fywyd fal y bo Duw o'i ddaioni yn wyllysol idd ei roi ef iti. Glanhâ dy galon, ac arllwys y drwg feddylau allan; bydd ffest i'th ffydd; pureidda dy enaid; na chymmer dy dwyllo mewn drwg ddysgeidaeth. Yr hyn ydwyf yn ei ddywedyd ni ellir ei wneuthur heb drafael; ni ellir cael daioni na'i ennill, heb gymmeryd poen. Ti a weli pwy fodd y mae defeidwyr, morwyr, a chrefftwyr, trwy drafael a labr y maent yn tyfu mewn cyfoeth. Ansynwyrus yw gwr a feddyllo gael medi llafur y cynauf ar ei dir, oni bydd ef gwedy hau had yn y ddaiar yn ei amser. Yn yr un modd, ofer yw i ddyn



geiso dedwyddyd perffaith, neu fed gwir hapusrwydd, heb fraenaru a hau ei faes â rhinweddau, megys gweithredoedd da, ffydd, gobraith, a chariad perffaith, y rhai ynt yr uniawn uwchel ffordd i'r nef. Y gwr a deila ei dir, a hea ei had, a impa ei goed, a dora ei ddefaid, ac a arwain ei fywyd mewn trafael drwy obeitho mwyniannu y ffrwyth, y borfa, y llafur, y gwlan, a chwbl o'r holl broffid: a hyny a bair iddo gym'ryd y drafael yn hoffaid ac yn foddlawm. Yr un modd, os tydi a fyddi foddlawm i gym'ryd poen i gerdded y ffordd hon, heb briso am na chwarru na mynyddau, bid sicr genyd y cei wir ddedwyddyd.'

Gwedi ymglywed y cynghor doethgall hyny, a syned ar yr arlwyddes yn fanol, ni ellais fod yn llonydd nes gwybod ei henw, ac am hyny mi a ddywedais: 'O Arlwyddes! (drwy na bo gwaeth genych) mi a ddamunwn gael gwybod eich enw.' Hithau a atebodd, gan ddywedyd: 'Fy mab, myfi wyf fawr gyda Duw: myfi wyf gyddnabyddus gyda'r saint; myfi wyf oll yn oll gyda'r engylion; myfi wyf gymmeradwy gyda gwŷr daionus; hebof fi ni wneir dim yn y nef; a hebof fi ni ellir gwneuthur dim daioni ar y ddaiar. Fe'm gelwir yn gyffredinol Dedwyddyd, Doethineb, a Rhinwedd. Myfi wyf yn llywodraethu breninoedd daionus, tywysogion, a phobloedd; myfi wyf yn rhioli preladiaid a gwŷr eglwysig; myfi a sydd yn ystopo geneuau y gau brophwydi a'r camddangoswyr; myfi wyf yn llywodraethu perchen teiau tylwythau mewn cymhendod daionus: yr wyf yn cydymddaith â'r rhai a garant ddyseidiaeth: myfi yw gwr y gwragedd diwair, y widwod, a'r morwynion rhinweddus: yr wyf fi yn gobrwyo fy ffryns yn eu gwynfyd o santeiddrwydd, ac yn eu hadfyd o naturiol gynghorau: yr wyf yn rhoi iddynt ymborth, gwisgadau, lletyau, cryfder, ufuddod, a phob rhyw beth angenrheidiol; a pha beth bynag a fo gantynt, ai yehydig ai llawer, hwy a fyddant boddlon. Ac yng ngwrthwyneb i hyny, trasau neu ffryns Gwaelder,

ni byddant byth yn foddlon, er bod ganhynt ormoddion. Gwell gan fy anwyldrasau i ganu salmau nag oferganiadau; gwell gantynt ddirwestu na meddwi; gwell gantynt weddio na mellitho: hwy a godant yn gynnar, ac ânt i gysgu yn ddiweddar; hwynt a bryderant yr esmwythder cyfreidiol: ffydd a'i cynghora hwynt; gobraith a'i cynnal hwynt; cariad perffaith a'i cynnyrch hwynt; doethineb a'u llywodraetha hwynt; cyfiawnder a'u cyfrwydda hwynt; a myfi a'u cyfoethogaf hwynt, fal y bo yr holl fyd yn eu rhyfeddu, yn eu hanrhydeddu, ac yn ufuddhau iddynt; ie, ac er meirw eu cyrff, eu henwau da a fydd byw yn dragwyddol, er dangosiad i ereill, a'u heneidau anfarwol fyddant fal engylion. Ac yng ngwrthwyneb i hyny, y rhai a fo yn arwain eu bywyd mewn gwaelder, halogrwydd, aflendid, neu ddrwg ymddygiad (onid edifarahant am eu buchedd bechadurus, a bod yn ddrwg gantynt am gam droelo eu bywyd), y rhai hyny damnedig yw eu hangen, a'u henwau cywilyddus ni byddant meirw byth, mwy no drwg enwau Sardanapalus, Nero, Heliogabalus, Herod, Pilat, Annas, a Chaephas, a'r fath rai hyny. Am hyny, fy mab, gad ymaith Gwaelder, o byddi di yn meddyled am gael gwir hapusrwydd, neu berffaith santeiddrwydd.'

#### Y 7. PENNOD.

*Y Marchog Crwydrad (drwy gynghor Dâm Ffolineb) a adodd yr Arlwyddes Rhinwedd, ac a ddilymodl Gwaelder, yr hon a'i harweinodd ef i'r lle o Ddedwyddyd bydol.*

GWEDY ym' wrando ar ymadrodd y ddwy arlwyddes, ni wyddwn pa un o hanynt oedd oreu ym' ei gym'ryd yn gyfrwyddyd imi. Ond **O** druan pererin trallodedig! pe buasai genyf synwyr cyfflog, a heb hofran mewn meddylau, gwell a fuasai genyf ddilyn Rhinwedd, ac ymado â Gwaelder. Felly pan oeddwn yn anwadal, mi a ddamunais ar fy llywodraethferch Ffolineb ddangos yn suan p'un oedd oreu i mi ei ddilyn o'r ddwy arlwyddes, i gael gwir ddedwyddyd. Fal y

dywedais i y gair, bithau yn ddisymmwrth a ddywad fal hyn. Mai drwg dwyllodrus oedd Rhinwedd, a'i ffyrdd hi oedd boenedig idd eu hymddaith; 'ac am hyny dilyn Gwaelder, a sydd â'i ffordd yn deg, yn las, ac yn hoff-aid. O dilyni di Rinwedd, ydd wyd i'th osod dy hunan mewn oerfel, gwres, newyn, syched, trafael, poen, a blinderau; rhaid y't godi yn gynnar, a myned i'th wely yn ddiweddar; bod yn ofnus, wylo, pryderu, byw mewn blinder; ac er hyny heb fod mewn diogelrwydd am gael dedwyddyd; ar y diwedd, o gwnei di ronyn yn ei herbryn ar air na gweithred, hi a'th edy di heibo; os y mae yn rhaid ei gwasanaethu hi yn fanol; y peth a ddyweto hi wrthyd yr awr hon, hi a'i gwada oll pan y caffo hi dydi ym mysg y cwarrau a'r mynyddau; hi a'th edy dy hunan ym mysg anifeilaid gwyllton, i arwain dy fywyd yn y diffaethwch. Am hyny, fy nghynghor yw, Na ddilyn hi, ac na chred iddi; ond gad yn' gymmeryd y ffordd deg lydan hyn ar y llaw aseu, yr hon y rhan fwyaf a'r bobl a sydd yn myned iddi; a heno y nos ni a lettywn yn y llys o Ddedwyddyd. A hyn a ddywedaf wrthyd, O hapia dy fod yn anfoddlon i'th amgeledd yno, o fewn dau ddiwarnod neu dri, ti a elli droi yn dy ol eilwaith, am nad ody y ffordd onid ber; ac o tebygi fod yn dda, ti a elli ddringad i'r mynyddau, a marchogaeth y ffordd ar y llaw ddeheu.'

Moethus ddychymmygiadau fy ffrynd Ffolineb a dywyllodd holl gynghorau Rhinwedd, i'r hon gwedy rhoi diolch, mi a ddywedais: 'Ewch yn iach'! ac a ddeisyfais erni na bai gwaeth genti er ym' ballu o'i dilyn dros y mynyddau. Y pryd hyny, yr Arlwyddes Gwaelder a arweinodd y ffordd, a'm march innau Ffromder yn troedo ei h.1, a Ffolineb yn dilyn wrth fy sodlau. Rhinwedd oedd yn edrych arnon yn graff, ac a ddaeth ar fy ol, megys un yn tristâu yn ol corff a fai yn myned idd ei gladdu, dan ddywedyd & llais uchel: 'O tydi ynfyd! gad ymaith Gwaelder, os hi a'th arwain di i angeu a distryw-

aeth; cynghor dy dras Ffolineb a sydd ddiaffig; y mae hi beunydd yn twyllo y neb a'i dilyno hi; ei dedwyddyd hi a sydd anwir; iaith Gwaelder yw drwg hudoliaeth, drwy yr hon y mae hi yn swynogli ei phlant.'

Er ei bod hi i'm cynghori, ac yn dangos ym' fy meiau, myned i'm ffordd a wnaethof fi, ac ni allwn gyfano â'i chynghorau Crist'nogaidd. Pan welodd hi hyny, hi a roddes imi aruthr ymiachâd, gan ddywedyd, 'O tydi ddyn anghenfilaidd! O ddelw ynfyd! O! O gysgod dyn! nid oes genyd fwy o ddeall na chan anifail; ydd wyd yn dangos dy fod dy hunan yn ddigywilydd, am dy fod i'th osod dy hunan i ddilyn Gwaelder, ac ymwrthod & Rhinwedd. Ai gwell genyd freicheido cyfoeth bydol na rhadau nefol? Od wyd ti yn damuno y pren o flaen y ffrwyth, mi a'th welaf gwedy dy dwyllo yn druan. Y neb a ddilyno Gwaelder ac a wrthoto Rinwedd, a sydd mewn caethiwed Sathan. Cofia, O tydi druan! beth a ddywad Selyf: "Mi a elwais arnad, ond ti a wrthodaist fy nilyn; myfi arosais fed y boreu, ond nid oeddyd yn deall; ond ofni fy nghynghorau, ac ni dderbynnyd fy nghospedigaeth; am hyny mi a hwerddaf pan y'th ddinystre; ond pan ddygwyddo y't' ddrygoni, y pryd hyay ti a ymgeisi â mi, y boreu pan na cheffych fi, am iti gasâu gwybyddiaeth, ac am na dderbynaist ofn Duw, nac ufuddhau i'm cynghor, ond salw-hau fy ngheryddiaeth."

Yr hyn eirau a draethwyd imi drwy eneu Doethineb, yr hyn allasai fod yn abl i'm tynu oddi wrth fy antur ffol; ond ydd oedd hi yn pregethu i bencyff: a Ffolineb (yr hon oeddwn yn ei dilyn) oedd yn ei gwatwaru hi yr holl ennyd hynny.

#### Y 8. PENNOD.

*Y modd y derbynwyd ac y gresewid y Marchog Crwydrad yn y lle o Ddedwyddyd bydol.*

Gwedy yn' fyned ddoagn o ffordd, nid anherfynedig lawenydd, yr Arlwyddes Gwaelder a ddododd ei llaw ar fy mhen, ac a roes

imi ei bendith goreu; minnau yn ei gadael yn llonydd, megys un a fai yn rhwymedig i. I. I. Yno y dywad hi eirau melusaidd wrthyf i'm hudolaethu; ac yn bresennol mi a gollais fy neall, drwy gymmeryd pob peth yn dda ag oedd hi yn ei ddywedyd ac yn ei wneuthur. Gwedy yn' droelo mewn llawenydd ddwy awr o'r amser, yr haul a ddechreuodd fyned i lawr; ac ar hyny, mi ganfuo y llys o Ddedwydd bydol; ac am hyny nid bychan oedd fy llawenydd; achos mi a debygwn fod y llys yn lle hoffaidd, ac aroglau deinteiddiol; ac yn wir, nid oedd hyny i gyd ond swynoglan. Pan oeddem o fewn ergyd bwa croes i'r llys, Gwaelder wypodd ac a alwodd: ac ar hyny y daeth allan lawerodd o arlwyddesi mewn gwych drwsiau; ac yn flaenaf o'r rhai'n yr oedd y rhai a enwaf gyntaf: Nwyfant, Afrad, Godineb, Rhyfyg, Dibryderiaeth, Gwegi, Anlladrwydd, Trachwant, Medd'-dod, a Blysigrwydd, a'r fath rai hyny. Gwedy ym' ddisgyn oddi ar fy march, Ffolineb a dynodd fy helmed. Pan ydoedd fy wyneb yn hoeth, yr holl arglwyddesi a'm cusanodd ac a'm greseawodd; yr hwn amgeledd oedd yn cytuno yn dda a'm ffansi ffol. Yno Afrad a Thrachwant a'm harweinodd erwydd fy nwyllaw. Anlladrwydd, a'r arlwyddesi ereill, oeld yn arwain y ffordd o'r blaen. Gwegi a remenont oedd ar ein hol. Ac felly ni ddoethon i'r plas ne'r llys o rancoddiaeth bydol; a'i borth ef oedd uwchel, gwedy ei adeiliad ar faen marbl, ac yn agored ar lled, nos a dydd, haf a gauaf; ac am hyny mi ryfeddais yn fawr. Yno Gwaelder a ddywad wrthyf yr achos, fal hyn: 'Yr wyf fi yn cadw ty agored i gynifer un ag a fynd ddyfod ataf; a phob awr ag y delo neb ataf fi, ar ddydd neu nos, y mae iddynt roeso, a mi a'u derbynaf hwynt yn wych.' Yno Gwaelder neu Ddrygchwant a'm harweinodd i neuadd fawr ddrychafaidd. Yno Nwyfant a'm diarfodd i; Gwegi a roes yn' own o felfed coch gwedy ei ddyblo a chrwyn beleod. O fewn ennyd bychan gwedy hyny, y ford a

a osodwyd; i mewn y daeth y tair senon fin; ac i swper y daethon; yr Arlwyddes Gwaelder a'm gosododd yn y lle goruchaf; ac ar fy nau ystlys ydd oedd Melusigrwydd a Medd'-dod yn eiste; a'r arlwyddesi ereill a eisteddodd bawb yn eu graddau; ond Gwaelder a eisteddodd yn uniawn gyferbyn a mi, yr hon yn fedrus a oedd yn tori ataf y bwyd moethusaf. Yr oedd yn waeto arnon w'r iefainc boneddigion mewn gorweigon drwsiau; a'r bwyd oedd gwedy ei dymmeru yn dda. Ein cogyddion oedd sywion; ein bwlleriaid yn haelion; ein cerddwyr oedd odidog, a'u caniaidau yn felus; a phob swyddog yn rhagori mewn moethusder. Yno ydd oedd ymborthi yn felusig, ac yfed yn ddrachtedig nes bod hanner meddw, a chwbl feddw, yn hwareu da. Gwedy swper, yr Arlwyddes Rhyfyg a'm cymmerodd i erbyn fy llaw, drwy ofyn ym' ai hwareuwn i ddawns. A'r Arlwyddes Nwyfant hefyd a ofynodd i mi, p'un a synwn, ai cysgu fy hunan, ai cael cywely ym'. Mi atebais drwy ddywedyd fy mod yn ddiffygiol gwedy siwrneio; ac mi ddeisyfais gael myned i'm gwely. Yno Anlladrwydd a'm dygodd i'm hystafell, ac a'm gosododd mewn gwely esmwyth nawsaidd, a llenllieinau aroglber, a phob peth yn odidog gostfawr. Ac wedi hyny, yr Arlwyddes Gwaelder a gymmerodd ei chenad, ac addawodd ddangos i mi y boreu dranoeth gwbl o'r llys o Ddedwydd bydol; am yr hwn ydd oeddwn yn breuddwydo drwy'r nos, fy mhen oedd mor llawn o feddylau.

## Y 9. PENNOD.

*Gwaelder a ddangosodd i'r Marchog Crwydrad ran o'r lle; ac wedi hyny hi aeth ag ef idd ei gino.*

Y boreu dranoeth, pan oedd pelydr yr haul yn haddu ac yn goliannu yr ystafell drwy'r ffenestr wydredig dysglaer-loew, Gwaelder a ddaeth i mewn ataf, ac a gyfarchodd well ym', drwy ofyn a gwnwn i fynydd; i'r hon yr atebais, gan ddywedyd y gwnawn. Ac yn fuan codi a wnaethof. Ac felly pan oeddwn yn ymdrwsiaw fy hunan, Melusig-

rwydd, a'i chwaer Medd'-dod, a ddaeth i mewn, y rhai a baratodd i mi fy nhorympryd. Yn y mangwedy hyny, y daeth yr Arlwyddes Gwaelder i mewn, a chyda hi Anniweirdeb, a'r rhai ereill oll. Yr oedd hi gwedy ym-drwsiadu yn debycach i dduwies nog i frenines. Y rhai'n oll a'm cusanodd, ac a eisteddodd gyda mi i dori ymptyl. Ac yno yr aethym yn bryderus am bob dim ond daioni.

A'r pryd hyny, mi a ddamunais ar Gwaelder ddangos i mi gwbl o'r llys, fal y buasai ammod iddi wneuthur. Felly ni a rodiason yng nghyd i ystafell fawr deg, gwedy ei threfnu o amgylch â brethyn aur a main gwerthfawr; a'r ystafell hõno oedd gwedy ei llorio â marbl du a gwyn, a'r pilerau o iasper, a'r to o ifori gwedy ei wisgo ag aur; ac ystaerau o alablaster. Yn yr ystafell hõno yr oedd caflair anrhydeddus o ystâd, yn yr hon (yn fawredig) yr oedd tywysog yn eistedd, ac ar ei ben yr oedd coron amherodraidd o aur gwedy ei gosod â main gwerthfawr a pherls, ac yn ei law teyrnielen urddedig. A hefyd, ei wisgad a oedd gyfoethog; a chydag ef lawerred o'r rhai gwychion eu trwsiadau. I'r tywysog hyny mi orestyngais. Yntau yr un modd a'm mawrhaodd innau, ac a orchymynodd wneuthur imi amgeledd odidog.

Ac felly ni aethon odd yno; ac wedi myned, mi ofynais i Gwaelder, pwy dywysog oedd hwnw. Hithau a ddywad mai efo oedd dywysog y llys, a'm tad innau, yr hwn yn unig a' biau roi hoffder bydol. A hyny a gredais i fod yn wir, nes ym' gael gwybod mai efo oedd Liwsypher, tad yr halogrwydd, tad y cu y glothineb, tywysog y balchedd, amherodr y drygoni, arglwydd y diffeithwch, rhiolwr y byd, ac un nad oes iddo ddim i wneuthur yn y nef, ond yn y ddaiar ym mysig bydolion, a dynion diawlig. Y Liwsypher hyny yn ddiryfedd a sydd yn arddel bod ganto allu a phwer i roi gogoniant, enrhydedd, a chyfoeth i'r rhai a fyno ef, fal y mae yr Ysgrhythyr Lân yn tystoliaethu am hyny; y bydolion a sydd yn ei wasanaethu megys ei orestyugaid.

Odd yno ni aethon i'r trysordy, lle ydd oedd coffrau yn llawn o fath a thlysau, y rhai'n a oedd yr Arlwyddes Tyngedfen yn eu cadw, fal y dangosodd Gwaelder i myfi; ac ydd oedd hi yn eu gosod hwy ar y rhai y gorchymmynai y brenin iddi. Odd yno ni aethon i'r ty aroglber, lle yr oedd pob peth i gyffro chwant dyn ar hoffder: yno yr oedd lliwiau i beinto gwragedd beilchion, ac aroglau a wylmentau i wneuth[ur] y cyrff yn dyner ac yn beraidd; a cheidwad y lle hyny oedd Anlladrwydd. Odd yno ni aethon i syler teg ehalath, lle nad oedd eiseu un rhyw o win; ac yno ydd oedd breniniaeth Dâm Medd'-dod. Odd yno ni aethon i'r gegin, lle ydd oedd Melusigrwydd yn cadw pob peth mewn order.

Odd yno hi a'm harweinodd i fynydd i le oedd wedi ei adeiliad yn grwn, yr hwn oedd ddirfawr ei oleu ac ysgawn, o achos y fenestri mawr a gwydredig dysglaer-loew; hwn oedd yn gwasanaethu iddynt yn lle teml; can's nid oedd gantynt un amgen. Yno y gwelais amllder o unbonesaau yn rhagori mewn pryd a chariad; ac ym mysig y rhai hyny yr oedd un yn dwyn goruchafiaeth; a mi a ofynais ei henw. Gwaelder a ddywad mai hi oedd yr Arlwyddes Fenws; yr hon ody yr holl garedig gariadon yn foddlon iddi, ac yn ei hanrhydeddu megys duwies. Gyda hi yr oedd fachgen dall yn eiste, yr hwn o'i fwa a'i saethau a oedd yn eu saethu dan amcan; ac fe a darawodd fy nghalon i; ac yn ddioghir Dâm Fenws a ddaeth ataf, ac a dynodd y saeth allan, drwy fy mwybau o gariad llawenychaidd; ac er tynu y saeth allan yn fuan, ac nad oedd debyg iddi wneuthur cam, eto yr oeddwn yn tybied fod y pen yn wenwynllyd, can's fe wnaeth archoll ddyfn glwyfus, anhawdd i'w iachâu. Y Ciwpyd hyny a sydd yn llywodraethu cariadon anniwair, beth bynag pwy oed, na phwy radd a fõnt. Gwybyddiaeth beunydd a sydd yn tystoliaethu, y mae ef yn hoeth ac yn ddigwilydd, heb bryderu pwy edrycho arno. Ei ddallineb ef a sydd yn arwyddocâu y rhai a redant yn ol eu

penau mewn anniwair gariad, drwy ddodi eu hadanedd yn y gwynt, heb briso beth a ddêl gwedy hyny. Ei fwa a'i saethau a arwyddocâ ffolineb y rhai ffoliaid, a sydd yn cynnyg eu hunain i fod yn barselau iddo, ac yn sefyll yn llonydd tra fo ef yn eu saethu ac yn eu taro hwynt. Ei adanedd ef a arwyddocâ meddylau anwadal y rhai a jarawo ef, y rhai nid odynt yn esmwyth un pryd yn un lle. Rhai a ddywed fod gan Ciwpyd dorgs poeth yn ei law yn llosgi calonau y rhai a witsio ef.

Hyn i gyd a wnaeth Gwaelder. Ac wedy hyny i gino yr aethon. Ac wedi bwyd hi addawodd ddangos imi gwbl o'r lle neu'r llys.

#### Y 10. PENNOD.

*Gwedy cino, Gwaelder a ddangosodd i'r Marchog Crwydrad gwbl o'r lle o Ddedwyddydd bydol, a dysgrifad y saith tŵr.*

Hyn a siawnsodd yn ei amser hoffaidd fis Mai, pan oedd chwant a chariad fwyaf yn ei rym. Yno y cytunwyd ar i ni swperu mewn garddau teg, ac nid mewn gwledd-dai, er eu bod hwy yn lân odidog. Yn y garddau hyny yr oedd peraidd lyseuau yn tyfu, a choed rhos, a gwinwydd, a ffynnonau gloew-ddwr oer yn rhedeg, ac aroglber flodau, a'r adar bychain yn canu ar frig y llwynau o amgylch i ni. Yno yr oedd chwareuaeth, pibyddiaeth, dawnso, neido, breicheido, a chusanu; pob cariadwr a'i arlwyddes oedd yn llawen; pob un oedd yn gwneuthur y peth a fai hoffaf ganto, ac yn tybied ei fod yn hapus gael y fath ddedwyddydd hyny. Y pryd hyny mi a gofiais i'r Arlwyddes Gwaelder am gadw ei hammod a wnaethoedd â mi. Hithau a'm cymmerodd herwydd fy llaw, ac aeth â mi lle ydd oedd ei lletty dirgeledig hi ei hunan; ond mi a gadwaf yn ddirgel pwy fath le a phethau oedd yno, rhag digio y darlleawdr lân. Gwedy hyny ni aethon o galeri i galeri o swydd i swydd, o ystafell i ystafell, lle gwelou ni bob man gwedy ei gyflenwi o gyfoeth dewisaidd, fal na ellid damuno mwy. Ac ym mysg hyn oll ydd oedd un ystafell yn rhagori mewn gwaith a helaethrwydd; yno

y gwelais wely hardd wedi ei drymo yn orwag, a hwnw a ganmolais yn fawr. Y pryd hyny Gwaelder a ddywad mai hyhi a oedd geidwad ar yr ystafell hōno, ac o bai arnaf chwant, y cawn orwedd yno y ncs hōno. Anniweirdeb addawodd ddwyn yr Arlwyddes Fenws i orwedd gyda mi. Y pryd hyny mi debygwn fod yr archoll a roesodd Ciwpyd i mi o'i saeth, mor newydd a'r pryd cyntaf.

Yno ni aethon o amgylch y gwelydd, y rhai oeddynt dewon a chelyrn. Ar y gwelydd hyny y daroedd adeiliad saith tŵr, yn debyg i glochdai; a phob tŵr â'i berchen yndo. Yn y cyntaf yr oedd Balchder; yn yr ail, Cenfigen; yn y trydydd, Llid; yn y pedwrydd, Glothineb; yn y pumed, Godineb; yn y chweched, Trachwant; yn y seithfed, Diogi. Fy mwriad oedd fyned iddynt bob un yn ol eu gilydd. Ac fal ydd oeddwn yn myned i'r tŵr o Falchedd (yr hwn oedd y cyntaf), mi a welwn yn ysgrifenedig ar y porth y posi hyn:

'Balchder dywysog a gwreiddyn yr holl bechodau.'

Fal y mae brenin â llawer o wasanaethwyr yn cydymddaith ag ef, felly y mae gan Falchder serten o bechodau yn weison cyffredinol iddo, ar y rhai y mae ef yn teyrnasu yn dywysogaidd. Gweled dyn yn hir fyw mewn balchedd, a sydd yn arwyddocâu ei fod yn ddirgawriaeth, ac wedy ei dafu ymaith. Os y mae balchedd yn anfoddlonhau Duw yn fwy no'r holl ddrygedd ereill; fal y mae ufudd-dod yn boddlonhau Duw yn fwy no'r holl rinweddau ereill. Ac am fod y balch yn ei ddrychaf ei hunan uwch law ereill, y mae y diawl yn cyfranu ag ef yn ol hyny. Megys y frân, y pryd na bo abl â'i phig i dori y gneuen galed, hi a heda yn uchel uwch ben rhyw gareg, ac a ellwng y gneuen i gwympo ar y maen nes toro hi, ac a ddisgyn hithau i fwyta y cnewullyn: yn yr un modd y hwery y diawl â'r beilchion: yn gyntaf, fe'u drychaif hwynt yn uchel mewn gorchafiaeth yn y byd hwn; ond pan

fônt ym mrig, y dedwydd, heb dybied fod dim perygl yn agos, y pryd hyny y daw y diawl, a'u gwthio yn llwyr eu penau i waered i uffern drwy fesiff. Y gwahaniad rhwng yr ufudd a'r balch a ellir ei addnabod wrth yr us a'r yd: yr us a ddrychaif i fynydd gyda y gwynt, ac a dderfydd ymaith; a'r yd daionus a orwedd yn isel, ac y gynnuller oddi ar y ddaiar, ac a ddirir i gadw yn gymmeredig gan bawb. Felly y dygwydda am ufuddod yr ufudd, a balchder y beilchion. I falchedd y perthyn y drygeddau hyn, nid amgen, diryfeddrwydd, bocsach, llid, annyoddefaeth, ofer ogoniant, trachwant, a'r fath hyny.

Yn yr ail tŵr yr oedd Cenfigen, ac ar y porth yn ysgrifenedig y geirau hyn:

'Etewyn o uffern, ac anwylyd y diawl.'

Cenfigen yw tristyd a thrymder calon am fod arall mewn gwynfyd. Y pechod hyn a sydd oruchafaid yn y rhai drwg, megys cariad perffaith yn y rhai da. Cariad perffaith yw arwydd cadwedigaeth, a chenfigen yw arwydd damnedigaeth. Tebyg yw'r cenfigenus i'r diawl; y maent hwy mewn cydran mewn ennill a cholled. O medra y diawl ennill am wneuthur drygoni, y cenfigenus a fydd sywr o ddilyn ei ol ef: ac fal y mae y cenfigenus yn gwytho am fod gair da i ddyn arall; felly y mae ef yn llawenhau am ddyfod colled neu ddrygair i ddyn arall. Ni all fod pechod halogach na chireulonach na chenfigen: can's y mae hi yn poeni ac yn trallodi ei thadmaeth, sef y cenfigenus, yn yr hwn y bo hi yn trigo. Y neb a geiso ennill mewn colled dyn arall, nid â ef ar ei welliant byth yn y meddwl hyny. Cenfigen a sydd glefyd anhawdd ei iachâu, am ei fod ef yn gorwedd yng nghudd yn y galon, lle ni all y Physigwr ddyfod ato, idd ei wellâu: a'r drygeddau hyn a berthyn iddo ef: salwhau, dywedyd drwg, a thwyll, a'r fath hyny.

Yn y trydydd tŵr yr oedd Llid yn trigo; ac uwch ben y porth yr oedd y geirau hyn yn ysgrifenedig:

'Cynllwynwr gwirion gariad.'

Can's fal y mae gwirion gariad yn parodhau cydwybod dyn i drigo gyda Duw; yn yr un modd y mae Llid yn ei barodhau i drigo gyda'r diawl. Llid a rwystr wrando ar resymolder; ni wrendy dyn lliodiog ar gynghor neb. Tebycaf dim i ddelw Duw yw dyn a fo mewn perffaith gariad; can's fe fydd Duw lle bo undeb, lle bo heddwch, a lle bo gwledydd mewn llonyddwch; yr hwn beth ni ddichon fod lle bo lliodgrwydd. Dyn lliodiog a sydd debyg i ddyn a fo â drygysbryd yndo yn ei drallodi. Llid a bair ymladd; llid a bair gablu; drwy lid y mae y diawl yn gorchfygu gwledydd; llid a sydd tebyg i gi mewn trwynrwym; pryd na allo ef gnoi, fe hwyrna, nes hela ereill benben. Megys ag y tywylla y pysgodwr y dwr rhag i'r pysgod weled y rhwyd; yn yr un modd y tywylla y diawl ddeall dyn trwy lid, fal na bo ef yn canfod ei ddistrywaeth ei hunan. I'r dyn lliodiog y perthyn y drygeddau hyn: poethfan calon, digofaint, cyndrogrwydd, dial, a chynllwyr, a'r fath bethau hyny.

Yn y pedwrydd tŵr Trachwant oedd yn trigo; ac uwch ben ei borth ef yr oedd y geirau hyn:

'Delwaddolfaeth, a llyncbwl heb waelod, diddigonedd.'

Y dyn trachwantus cybydd ody Duw yn ei wrthod; can's y mae ef yn caru ei ennill yn fwy no Duw; gwell ganto golli Duw no da. Am ychydig o ennill fe dwng, ac a ddywed gelwydd, yr hyn beth a sydd damnedig. Y ffydd, gobaith, a'r cariad a ddlyai fod at Dduw, trachwant a'u try hwynt i'r cyfoeth bydol oll. Calon y dyn trachwantus a sydd at dda, ac nid at Dduw. Lle bo calon dyn, yno hefyd y bydd ei gariad. Y dyn trachwantus a sydd yn digio Duw, yn cam gasglu, yn cam gadw, ac yn cam garu ei dda. Megys ag y delir y llygoden yn yr annel wrth ddyfod i geiso y baet; yn yr un modd y dygwydd i'r diawl ddal y trachwantus yn magl yn cam ddilyn cyfoeth. Y trachwantus cybydd sydd debyg i dwrch, yr hwn yn ei fywyd nid ody yn gwneuthur dim dŵioni i

neb, ond yn fwy drygioni; ond pan ddél y cigwr a'i ladd, yno y mae ef yn fwynedus, am ei fod yn drwyddy. Yr un modd, y gwr cybydd trachwantus, ni wna ef ddim daioni i neb, ond yn fwy drygioni idd ei gymmodogion: ond pan ddél y lladdwr (sef yw hwnw, yr aneu) a'i ddistryw ef, yno y bydd y rhai a fo ar ei ol, yn byw yn well o'i blegid. Y cybydd a fynd ei dda, ac a edy y tlawd mewn eiseu. Ac i gybyddiaeth y perthyn y drygeddau hyn: ocr, twyll, anudon, a thrais, a'r siwt hyny.

Yn y pummed tŵr ydd oedd Glothineb; ac ar ei borth ef yr oedd y geirau hyn yn ysgrifenedig:

'Gwin gwenwynig annuwiol foethau.'

Gwir yw, y geneu yw'r porth i'r corff. Chwi wyddoch, pan fo gwrthwyl bwr yn ceiso ennill castell, os gall ef unwaith ennill y porth, sier yw ganto ennill y cwbl. Yr un modd, pan ennill y diawl y geneu, a myned i mewn yno, gwybyddus yw y hennill ef bob un o'r ddau, y pen a'r corff; a'i aifer ef yw dyfod i mewn â phechodau gydag ef; yr hyn bechodau yw glothineb eu mam hwynt. Y dyn meddw, anhymmerus yn ei ymbort, a sydd yn cytuno â phob drygedd. A'i hyny, gweddus yw dodi porthor da i gadw y geneu, rhag i'r diawl ddyfod i mewn: can's fal y gall dyn arwain ei farch erwydd y ffrwyn; yn yr un modd y gall y diawl rioli dyn, pan gaffo ef unwaith afael yn ei eneu, erwydd glothineb; can's y mae ef wedy gwresgyn yndo ef yn hollol y pryd hyny. Glothineb a sydd yn lladd mwy no chleddyf y gelyn; y mae yn peri i lawer feirw yn gynt nag y dlyent wrth naturiaeth. Gormodd yfed a bwyta a sydd yn gwaethygu y corff, ac yn peri magu clefydau. Y rhai a sydd yn cymmeryd y tefyrn yn lle temlau iddynt, a sydd debyg i dwrch yn ymgreino mewn cors. Megys y mae yr anifail halog hyny, y twrch, yn ymdroi mewn corsydd a thomydd; yn yr un modd y mae y rhai glwthig meddwon yn ymdroi ac yn ymgreino mewn medd'-dod a glothineb. Ac ar y pechod brwnt hyn y

mae pechodau ereill yn waeto; sef ydynt, chwannogrwydd i fwyd, afradusrwydd, moethusder, gormodliaeth, ynfyd lawenydd, ofer dreban, ac anifeilrwydd corfforol.

Yn y chweched tŵr, Anniweirdeb oedd yn trigo; a'r geirau hyn ar ei borth:

'Putain front gyffredinol a haloga yr enaid a'r corff.'

Brynti putain a haloga wr o'r tu mewn ac o'r tu maes. O'r holl bechodau i gyd, hoffaf gan y diawl y pechod hyn, godineb, am ei fod ef yn gwaethygu pob un o'r ddau, yr enaid a'r corff. Ond ynfyd y marsiant a wnelai fargen, a gwybod o'r blaen y byddai edifar ganto gwedy hyny? Yn yr un modd, yr anniwair a gymmer lawer o drafael, ac a droela ei dda, i gyflenwi ei ddamuned; ond gwedy hyny y edifara am ei drafael, am ei gost, am ei bwrcas. Er edifarhau felly, nid ody Duw yn maddeu iddo, yn llai na'i fod mewn bwriad wyllysol ar wellau ei fywyd rhag llaw, a gwneuthur felly hefyd. Tri pheth a sydd yn trallodi y godinebus yn ei fywyd: y cyntaf yw poethder y butain; yr ail, poen y galon; a'r trydydd yw pryfyn y gydwybod ei hunan. Fe fydd yn llosgi mewn chwant, yn drewi mewn anair, a'i gydwybod yn cyhuddo ei feiau. Godineb yw clawdd, yn yr hwn y bydd y diawl yn tawlu pechodau ereill. Edrych ar wraig yn rhyfygus a sydd gymhelliad mawr ar odineb: ac am hyny, da oedd na edrychid erni; ond gwell ym mhell na theimlid hi, ac na fedlid a hi yn gnawdol. A'r pechodau hyn a sydd yn waeto ar Anniweirdeb; sef ynt, godineb, trais, a thor priodas.

Yn y seithfed tŵr, Diogi oedd yn trigo; ac ar ei borth ef ydd oedd y geirau hyn yn ysgrifenedig:

'Gwraig ty ddiog, ac yn wastad yn cysgu.' Diogi neu lesgedd yw trymder calon, a chasineb ar ysbrydol ddaioni, ac a bair i ddyn fod yn wallus i wasanaethu Duw bob un o'r ddau, a geirau daionus rhygedog o'r geneu, a gorchwylion daionus yn ffrydio o'r galon; yr hwn ddau beth ody Duw yn 'wyllysu eu

gwneuthur. Mawr weddus yw cyddnabod y Creawdr, yr hwn a sydd yn amlhau y daionus ddaioni a ydym ni yn ei dderbyned beunydd ; a'n cyddnabod ein hunain yn bechaduriaid, a Duw yn faddeuwr pechodau. Fal y mae dynion yn ddylon i wneuthur gweithredoedd daionus ; felly y maent fuanion i wneuthur pechod. Llawer o ddrygeddau a dyf o lesgedd ; ac o'r rhai'n dau a sydd beryglus ; sef ynt, gwallusio troi at Grist, a difofalu am gyffesu pechodau. Am hyny, llawer a sydd yn ymado o'r bywyd yma, heb gyddnabod iddynt wneuthur yn erbyn Duw : a hefyd heb eildroi ato Ef. Ac am wneuthur felly, y maent yn peryglu enaid a chorff. Peth anhodd yw i ddynt farw yn dda, a fo bob amser yn byw yn ddrwg.

Yn y tŵr o Lesgedd yma y mae deg o lettyau neu ystafelloedd : yn y cyntaf y mae yn gorwedd Lledglaerder ; yn yr ail, Anlladrwydd ; yn y trydy, Dargysgrwydd ; yn y pedwrydd, Dibryderiaeth am ei iechyd ei hunan ; yn y pummed, Dyhirio y pryd heb wneuthur daioni ; yn y chweched, Annuwolder ; yn y seithfed, Trynder calon, neu Gasedd gwasanaethu Duw ; yn y wythfed, Blino yn byw ; yn y nawfed, Anobaith ; yn y ddegfed, Anoddefiaeth.

Ac felly am y saith tŵr oedd wedy eu hadeiliad ar y wâl, a'r trigadiaid oedd yndynt. Perthynus yw ini bellach draethu o sefyllfa y llys ; yr hyn a draethwn ar ychydig o eirau.

#### Y 11. PENNOD.

*Gosodiad neu sefyllfa y llys, neu'r lle o Ddedwyddyd bydol.*

Y llys yma oedd gwedy ei gosod a'i hadeiliad mewn dyffryn hoffaidd, & glenydd uchel iachus o amgylch y llys, gwysgodol rhag y gwynt, pa ffordd bynag y hwythai ef. Ar y naill ystlys yr oedd winllanau daionus ; yn y rhai hyny yr oedd graps o amrafael rywion yn tyfu. Ar y tuedd arall yr oedd amllder o lafuriau yn tyfu. Ar ystlys arall yr oedd goedydd rhwyddion, ag yndynt bob rhyw o

adar hardd yn magu. Mewn lle arall yr oedd warens yn llawn cwingod ac ysgyfarnogaid. Mewn lle arall yr oedd barc, heb ddim diffyg llydnod cochon a llwydon. O'r tu cefn i'r glenydd hyny yr oedd fforestydd yn llawn chwareuon gwyr boneddigion, megys hela a heboca. Yn y dyffryn lle ydd oedd y llwyn yn sefyll, ydd oedd glaswaen deg ; drwy genol hōno ydd oedd afon o loew-ddwr gwyra yn rhedeg. Ar ddwylan yr afon yr oedd yn tyfu goed afalau, coed per, coed plemys, coed oliff, coed deri, coed elm, a'r fath hyny ; a hefyd, gairddau, perllanau, pysgodlynau, yn llawn ffrwythau, blodeuau, a physgod. Ac yn yr afon a'r coedydd yr oedd pob rhyw o adar dyfroedd a thiroedd, ag a ellid eu hadnabod yn dwyn pluf. A chyda hyny, yr oedd tenys cwrtws i chwareu pel, & gwelydd uwchel gwynion o amgylch iddynt. A hefyd yr oedd mot rhyfeddfawr, ofnus i edrych arno, o amgylch i'r llys, a phont ddrychafael drosto, yr hon nid oedd lydan iawn, a'i henw oedd Anobaith ; a'r bont hōno oedd hir a chul, ac o troedai un drosti ychydig, fe gwypai i mewn yn beryglus na chwnai byth. Ni a swperen mewn gwledd-dai, a'n swper oedd yn rhagori mewn moethusder a maint trwyddydd ar a welais erioed. Dâm Fenws oedd yn cadw fy nghwmpniaeth ; ac ydd oeddwn wedi hurto gan falchder y gwasanaeth a gefais i yno. Fy holl hoffder oedd i edrych ar yr Arlwyddes Fenws, yr hon oedd yn eistedd yn uniawn gyferbyn â mi ; ac am hyny (o'r diwedd) Gwaelder a'm gorchfygodd. Gwedy diweddu swper, i mewn y daeth chwareuwyr a dawnsuwr & phob rhyw o lawenydd, y rhai a odynt yn eu harfer beunydd wrth wledda. Pan oeddwn yn blino, mi a gymmerais fy nghanad oddi wrth y cydmeithion, drwy ganu, Ewch a nos da'wch. Ac yno y'm dygwyd i'r ystafell harddaf yn y llys. Yr Arlwyddes Fenws a'i llawforwynion oedd yn waeto : ond pob un aeth ymaith pan aethof i'm gwely, ond Fenws yn unig, duwies y cariad, gyda'r hon y gorweddais drwy'r nos.



## Y 12. PENNOD.

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

*Yr athro yn traethu pwy fodd yr oedd y Marchog Crwydrad, a'r rhai gwaelaidd yn byw yn y byd, yn tori deg gorchymyn Duw.*

Yr hyd y bu y Marchog yn tarío yn y wenywyllys hōno o fydol hoffder, yn dilyn ei hwant ei hunan trwy dwyll ofer waelder, nid oedd ef yn gwneuthur dim ond hwareu, a dawns, neido, canu, yfed, bwyta, heboca, hela, a dilyn anniweirdeb, a'r fath bethau hyny, megys y gwnaeth y plentyn afradus, ac arwain ei fywyd yn anwedus, yn hyd un diwarnod ar ddeg. Y doctoriaid Crist'nogaidd a'r philosophers a ddywed mai drwg ac annedwydd yw y cyfrif o un ar ddeg, o achos y cyfrif o ddeg i arwyddocâu deg gorchymyn Duw. A'r cyfrif o un ar ddeg (yr hwn yw un ragor) a brophwyda ac a arwyddocâu tori y gorchymynion. Ac felly y Marchog a dariodd yn y llys un diwarnod ar ddeg yn truan dori ewyllys Duw a'i orchymynion, drwy adael y ffyrwyn yn rhydd idd ei ddrwg arferon, heb attal yr un o hanynt. Od edrychwch yn graff, chwi a gewch weled fod y rhai a sydd yn byw yn ol arfer y llys o fydol Ddedwyddyd, ac yn ymroi i ddilyn balchder y byd, a'r gwaelder hoffaidd a sydd yndo ef, ac yn wyllysgar i ddilyn y fath fywyd hyny, heb fwriadu newidio eu buchedd, ond gynt llawenhau yn eu drygedd; mi a ddywedaf ac a draethaf yn wirionedd, mai y fath rai hyny a sydd yn dryllio cyfraith Dduw a'i orchymynion. Ac yn wrthwneid i hyn, y rhai mad ynt yn cyfrif eu hnnain ond megys pererinion, ac a sydd yn gosod eu bwriad ar y byd arall, lle mae Iesu Grist yn teyrnasu, a heb gymryd y bywyd yma ond fal alltudiaeth, ac yn wyllysgar i ymado ag ef, i fyned i lys y Brenin nefol, a gaiff fwyniannu cyflawnder llawenydd y deyrnas hōno. Megys y mae y byd yma yn rhoi llaweredd o dda amserol, ac anrhydedd darfodedig; felly yn yr un modd y mae ef yn gwneuthur terfyn arnynt. A'r rhai a sydd yn arfer ei roddion hyny i ogoneddu Duw, pobloedd i

4

Dduw ydynt: a'r rhai a sydd yn eu harfer hwynt yn waelaidd, llestri y diawl ydynt, a dryllwyr cyfreithau Duw ydynt, fal y tystoliaetha y deg gorchymyn isod, drwy y rhai hyny y gall y bydolion ddeall eu bod (trwy fyw yn waelaidd) yn dosturus yn dryllio cyfreithau Duw, er distrywiaeth iddynt eu hunain. Megys yr oedd y deg gorchymyn yn ysgrifenedig mewn dŵy dableu, felly y maent yn ddwy ran: y tri cyntaf yn gyfuil yn gorchymyn caru Duw, a'r saith ereill yn gorchymyn caru ein cymmodog. Ac am hyny, y neb a sydd yn byw megys bydolion, ac yn gosod eu dedwyddyd mewn gwaelder, llestri y diawl ydynt, ac nid ynt yn caru Duw na'u cymmodog, am eu bod yn dryllio cyfreithau Duw, y rhai a sydd yn canlyn isod:

'Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, na fist yt,' &c.

Y rhai hyn yw cyfraith Dduw, drwy yr hon y gellweh weled fod y rhai a sydd yn byw mewn bydol waelder yn ei dryllo hi: a'r rhai a sydd yn ymgais am ddedwyddyd nefol, pobloedd i Dduw ydynt, a hwy a gaiff wresgynaeth o'r lle hwnw.

Yr awr hon gwrandewch beth a hapiodd i'r Marchog gwedy iddo fyw un ar ddeg o ddiwarnodau yn y llys o ofer fydol Ddedwyddyd.

## Y 13. PENNOD.

*Y Marchog aeth i ymlawenhau ac i hela o amgylch i'r llys, ac yn y man fo welai y llys yn ddisymmoth yn syrthio i eigion y ddaiar, ac yntau a'i farch yn y gors fed adanedd ei gyfrwy.*

Gwedy ym' fy ymddwyn fy hunan yn y llys un ar ddeg o ddyddiau trwy ddrylliau gorchymynion Duw, ac arwain bywyd anifeiliaidd, mi a ddamunais farchogaeth i'r fforestydd o amgylch i'r llys, nid mewn bwriad ymadael a'm gwael fuchedd, ond er mwyn fy rhancboddiaeth fy hunan, o achos fy mod yn blinaw yn ymborthi yn segurlyd yn yr un lle: can's er bod y bydolion yn hoff gantynt fwyta,

yfed, dawnso, neido, canu, marchogaeth, a rhedeg, a'r fath bethau hyny; eto, er hyn i gyd, ni allant aros yn wastad yn y rhyw fywyd hyny, heb gymmysgu ag ef ryw ddifyrwrch arall. Am hyny, weithau y gadant heibo ryw hoffder, a chym'ryd rhyw ddifyrwrch arall, er bod eu bwriadau i droi eilwaith at yr hoffder cyntaf, nid odynt yn hollol ymado ag hwynt, ond eu hoedi dros y pryd hyny, i beri rhagor hoffler yndynt ar ol hyny eilwaith. Minnau (pan oeddwn yn hwenychu rhagor ddifyrwrch) a ddamunais fyned i'r fforestydd o amgylch i hela. Pan gwybu fy llywodraethes Ffolineb hyny, hi a ddywad y chwedl wrth yr Arlwyddes Gwaelder. Hithau a gytunodd â mi, ar fyned i hela neu heboca; am hyny llawen oeddwn. A'r pryd hyny mi a amdwrswiais fy hunan mewn trwsiad helwr; yn lle fy helmed mi wisgais het yn llawn o esgyll, ac yn lle fy harnais mi wisgais gorn; a mi a neidais ar gefn fy march Ffromder. Gwaelder aeth ar gefn ei hobi. Ffolineb ar arlwyddesi ereill aeth bob un ar gefn palffrai. Yno y daeth yr helwyr a'u huaid a'u milgwn, dan alw, wypo, a chrio, rhai y naill ffordd, ereill y ffordd arall; y cwn oedd barod wrth emaid; fe darfodd yr ysgyfarnog; y cri oedd nefol i'w glywed. Ond yng ngenol fy nigrifwrch a'm llawenydd, fe hapiodd i mi droi fy march i gael gwynt, a'm hwyneb at y llys o Ddedwyddydd bydol. Ac yn ddisymmwrth mi a welwn y llys yn syrthio i'r ddaiar, a phob un ag oedd yndi. Ond y neb a fo â deall ganto, barned pa fath lef tosturus oedd gantynt. Yno y cododd corwynt i'n mysg, a chrynfya y ddaiar, yr hyn a'n gwahanodd oll oddi wrth eu gilydd. Ac yno y syrthais, mi a fy march, yn y gors hyd am yr hanner. A'r holl ennyd hyny nid oedd neb gyda mi ond yn unig fy meistres Ffolineb. A'r pryd hwnw y cododd drewiant o amgylch ym' na chlywad erioed ei fath. Y pryd hyny mi wybuo fy mod ym mhell oddi wrth y llys hoffaidd, a'r garddau, a'r perllanau, a'r gwinllanau, yn y rhai y buaswn o'r blaen gyda yr Arlwyddes Gwaelder;

ond y oeddwn yn ffest mewn cors halog-front, ym mysg amwyd, medrwyod, ffrogaid, llyffain, nadredd, gwiberod, a phryfed gwenwynig. A minnau felly mewn meddwl tröedig, mi gwypais mewn anobaith, heb fod yn abl i ddywedyd un gair; yr oeddwn gwedy anfadu. Ond pan ddaeth ef eilwaith yn fy nghof a'm deall, megys un a fai yn dyfod o angeu i fywyd, am weled fy hunan mewn cors anifeilaidd, mi dynais fy ngwallt, mi ddryllais fy nillad, mi wylais, mi ddoluriais, mi udais, mi lefais, mi wesgais fy nwyllaw, mi gurais fy mrest, mi rabinais fy wyneb, mi a gnoais fy mreicchau, ac a ddywedais fal hyn: 'O fudredd! O nar! O erthyl! O netwyth! O ynfyd! O ffol trallodedig! pwy le yr awr hon y mae dy ystafelloedd gwychion, dy arddau gwyrddon, dy forstydd gleison, dy feusydd llafurdir, dy goffrau llawn bath, dy feirch, dy ychain, dy weison, dy arlwyddesaidd gariadon, dy hebogaid, dy huaid, dy welyau esmwythion, dy fuchedd foethus, dy win a'th gerddwriaeth, a phob peth hoffaidd am law hyny, ac a gam arferiaist yt' dy hunan? Och! Och! fudredd truan! pwy fodd y'th dwyllwyd? Ti a dybiaist dy fod yn y llys o wir ddedwyddydd; ond yn rhith dedwyddydd ti a gefaist oferredd. Tost y'th swynoglywyd; can's, yn lle daioni, ti a gefais ddrygoni.'

Ac ar hyny mi a droais at Ffolineb, ac a ddechreuais ei sardo, drwy ddywedyd fal hyn: 'Melltigedig fo y dydd y gwelais i di; melltigedig fo y dydd y gwrandewais i di; melltigedig fo y dydd y credais i di; a melltigedig fo y dydd y dilynais i di. Ai fal hyn y cynghori? ai fal hyn y llywodraethi? ai fal hyn y arweini di y bobloedd i gyfrgoll? Pa le y mae y dedwyddydd yr hwn a addewaist i mi? Pa le y mae yr hap da a gawn genyd? Fe hapiodd i mi fal ydd oeddwn yn ei bryderu ar y ffordd, pan oeddyd yn traethu dy ddrygweithredoedd o'r dechreuad: ond yr hyny, dy swynoglau a'th weniaith oedd yn peri i mi gadw dy gydymeithias, er fy mod (Duw yn ei wybod) yn damuno ymado â thi: ond

fy ewn-falch anwybyddiaeth oedd yn peri ym' ddilyn dy gynghorau peryglus.'

Par oeddwn yn ymysgathru â hi felly, y gacen goeg a hwarddodd i'm gwatwaru; ac am hyny y llidiais, drwy amcanu tynu fy nghleddyf; ond ni ddawai allan. Yno mi ysbardynais fy march; ond ni chwuai ef un droed iddo. Eto er hyny i gyd, yr oeddwn yn meddyled am fyned allan. Ond hyn a sydd wirionedd, pan ddarffo i ddyn unwaith syrthio mewn pechod, a boddi mewn drygchwantau cnawdol, fe drig yn ffest yndo, heb fod yn abl i ddrychaf ailwaith o'i rym ei hunan, yn llai nog iddo ef gael nerth gan Ras Duw; yr hwn nerth, Duw o'i ddaioni a'i rhoddo ini bawb. Amen.

#### Y 14. PENNOD.

*Yr athro yn llefain yn huerw yn erbyn y byd a'r bydolion a'u hysbyswydd.*

O y byd brwt! O ffalstwr celwyddog! O dwyllwr damnedig! arfog ym mhob halog-rwydd, bradynus a melltgedig gynnilddeb! Yr hwn wyd ag wyneb fal dyn, ond y gynffon fal gwiber; yr hwn wyd o'th drebl gwenwynllyd yn aido y peth nas myni ac nas gelli byth ei gwplhau: sef yw, heddwch, llonyddwch, diogelrwydd, bendigedigrwydd, a hapusrwydd; ond yr wyd yn ymddangos yn wrthwyneb i hyny, yn ofer, yn greulon, yn aflonydd, yn anniogel, yn felltgedig, ac yn anobeithus. Ac am dy fod yn mynu rhoi dy wenwyn, ydd wyd yn ei guddio ef ag ychydig o fel yr hoffder. O fydolion ffoliaid! y rhai ydych yn caru Gwaelder, pam yr ydych yn goddef eich cam arfer cyn frynted? Pa ham na chilwch oddi wrthi, a chwithau yn gwybod ei bod hi yn ddamnedig? Pam y credwch gelwyddog? Pam y dilynwch dwyllodrus? Pam y gwnewch gyddnabod â'r fath gynllwynwr? Pam na lanhewch eich deall oddi wrth ddryg-opinionau? Pam na wybyddwch beth yw y byd, drwy berffaith farnedigaeth? Ped faech yn gwneuthur felly, chwi a welech eich hunain ym mhell

oddi ar yr uniawn ffordd, o achos da bydol, drwg hwantau, a rhancboddiaeth a sydd yn hytrach yn gymmysgedig â phethau hwerwon nag â phethau meluson, am eich bod yn dilyn Gwaelder. Nid ydych hapus, ond anhapus; nid ydych ddoethion, ond ffolaid. Saint Iefan a ddywed, 'Pob peth a'r a sydd yn y byd yw, hwant y cnawd, hwantau y llygaid, a hwantau balchedd. Y byd a'i holl hwantau a ant heibo; ond yr hwn a wnel wyllys yr Arglwydd Dduw a bery yn dragwyddol.' Gwrandewch, y bydolion ffoliaid, a llestri Gwaelder; hyn a sydd yn dangos i chwi yn hollol mewn peth y mae eich holl ddedwyddyd yn sefyll, a phwy fodd y mae yn ddamunedig. Deellwch eirau Saint Iefan, y derfydd y byd a'i holl hwantau. Beth ydyw ef yn meddyled fod y byd? Nid ydyw amgen, fal y dywed Saint Awstyn; ond y bydolion, y rhai ynt yn caru Gwaelder, yn priso pethau gweledig yn fwy no phethau anweledig, y cnawd yn fwy no'r ysbryd, a Satan yn fwy no Iesu Grist. Yn yr un modd ag y galwn ni dy yn dda neu yn ddrwg yn ol arferon y rhai a fo yn trigo yndo. Y llygaid, y cnawd, a'r uchelfalch fywyd, yw dedwyddyd a nef y bydolion. Od ydi bob daioni yn dyfod o Dduw (fal y mae yn hollol) a hwantau y llygaid, y cnawd, a balchder y bywyd, yn dyfod o'r diawl; ond ydynt hwy yn cael eu twyllo, y rhai a sydd yn tybied mai daioni ydynt, ac yn doddi eu bwriadau idd eu dilyn hwynt? Mi a allwn ddywedyd fod cnoad y gydwybod yn trallodi y bydolion; mi a allwn ddywedyd fod lliid Duw yn hongan uwch ben y dyn gwael; mi a allwn ddywedyd fod angu tragwyddol yn ei gadw yn daliad iddo. Gwedy gormoddol fwyta ac yfed y daw chwydu, gwaew pen, cryd, colli synwyr, colli awen, gwingfa yn y mysgar, parsli, gwendid corff, anair, a chywilydd.

Yn awr at Anniweirdeb, yn yr hwn y mae dyn gwael yn cymmeryd y fath hoffder, nad oes dim cyn foddlauned ganto. Yn gyntaf, pwy boenau, pwy ddoluriau, pwy flinderau,

a phwy drallod ody y cariadwr yn ei ddyoddef cyn y caffo ei ddamuniad. Y damuniad hyny nis cair yn ddigolled; can's nyni a welwn odineb a glothineb yn magu tlodi, yr hwn a sydd faich trwm: ond pe caid ef heb gosti dim (megys weithau y hapia ei gael), eto er hyny y mae yn ei ddilyn golled corff ac enaid. Tebyg yw dyn godinebus i anifail, am fod hwant enawdol yn ei ddallu, ac yn ei ysbeilo o'i ddeall a'i synwyr; ac am hyny y mae y gweithred ei hunan yn dangos ei fod yn ddamunedig. Y pechod hwn a sydd yn dwyn gydag ef y taliadau hyn yn y byd yma; nid amgen no dropsi, parslï, liprosï, gowts, llogfaen, bothellau, a'r frech fawr, yr hwn yw y clefyd gwrthwynebusaf a chasaf i gyd; a chyda hyn, yn peri alltudio dyn allan o gydymeithias y rhai perffaith.

Bellach, o blegid Hwantau y llygaid, drwy'r hwn y ddeallir trachwant ar gyfoeth bydol, yn gyntaf, er nad ody aur ac arian ond pridd, eto pwy drafael ody y dyn trachwantus yn ei ddyoddef ac yn ei gymmeryd idd eu hennill a'u casglu hwynt. Ef a hwyla dros foroedd ystormedig; ef a drafaela dros fynyddau cellysgedig(?); ef a gloddia yn ddyfn berfedd y ddaiar; ef a oddef newyn a syched, annwyd a gwres, a mil o flinderau. Un a foddes; arall a las; y trydydd a ysbeiliwyd; a'r un a gafas ei wynfyd, a sydd yn byw yn bryderus rhag colli dim. Nid coffrau llawn bath a all wneuthur dynion yn hapus. Ein Ceidwad ni, Iesu Grist, a'u galwodd hwynt yn ddrain ac yn ddyrysi, am eu bod yn prico y galon, ac yn gwaethygu y corff a'r snaid. Pawl a draethodd, 'Y neb a hwennycho olud yn y byd, a sydd yn cwympto mewn profedigaeth. Onid ydyw Sidas yn ecsampl, yr hwn a ymgrogodd ei hunan o achos ei drachwant?

Bellach at Hwantau balchder. Y neb a gaffo enrhydedd, awdurdod, gallu, cymmeriad, a drychafiaeth yn y byd, a debyg fod yn hapus: ond y fath hyn a sydd gwedi eu beicho o anhapsurwydd. Pwy boenau a thrafaelau a ddyoddef damunwr anrhydedd,

cyn gallo ef ddyfod i anrhydedd, a drychafiaeth, ac awdurdod? A phan ddarffo iddo ei gael drwy drallod, nid yw ddiogel na gwybyddus iddo pwy hyd y caffo eu mwyniannu hwynt.

Ni a welwn lawer pryd fod y dyngedfen yn troi, a damunwyr anrhydedd yn diweddu eu bywyd yn anghlodfawr. Cymmerwn ecsampl oddi wrth Priaf, brenin Troea, yr hwn a fu yn blodeuo mewn traseiddrwydd a chyfoeth, enrhydedd a gallu, cenedlaeth a phlant: ond bu ef a'i holl genedl feirw drwy eu lladd yn druan alarus; a'r rhai na las, a aethont i gaethiwed.

Cresus, brenin y Lidiaid, er ei fod yn gyfoethog a galluog, gwedy iddo deyrnasu un ar bymtheg o flynyddau, y brenin Sirius a'i gorchfygodd ef; ac fe gollodd y deyrnas ac a arweinwyd ymaith mewn caethiwed, i droelo cwbl o'i oes megys bilain.

Dionisius, y brenin llyfr o Sisil, a helwyd allan o'i deyrnas, ac a aeth mor dlawd ag y cedwis ef ysgol yn Corinth; a thrwy ddysgu plant bychain y ennillodd ef ei fuchedd yn dlawd eisiwedig.

Mitridates, brenin Pontus, oedd dywysog cyfoethog galluog; efo a orchfygodd ddwy ar hugain o genedlaeth; ym mysg y rhai'n (meddai rhai) y dywedid pob iaith. Eto er hyny, gwedy iddo fino y byd o ryfeloedd, ei bobloedd ei hunan a'i gwrthododd ef, a'i fab ei hunan a'i herlidodd ef, ac a'i gorchfygodd drwy gynnilddeb, fal y bu dda ganto ddeisyf ar ffranc i'w ladd ef. Ac felly y gwnaeth.

Farlerianus, yr amherawdr mawr o Rufain, yr hwn a fu yn herlid y Crist'nogion, ac a wnaeth lawer o fesiff, brenin Persil a'i dalodd ef, yr hwn (yn erbyn cyfraith arfau) a barai iddo orwedd ar y ddaiar tra fai ef yn sengu arno i neido ar ei farch.

Baiasetes, y pedwaredd brenin o'r Twrc, Tamerlan y Tartarian, brenin Sithia, a'i gorchfygodd ef, yr hwn a'i cadwodd mewn caits megys anifail, ac a'i harweinai ef mewn cadwyn aur trwy fysg y llu, megys ysbaenel:

ac yr oedd yn ymborth dan ffordd Tauerlan, megys ci.

Ac am hyny, bid hyn i dystoliaethu nad ydyw anrhydedd, awdurdod, a gorchafiaeth yn ddim etifeddiaeth. Gyfa hyny, pwy lafur, pwy drallod, pwy drafael, a phwy berygl a sydd ar dywysogion yn yr amser hyn, yn eu myntuno eu hunain yn eu hystâd? Pwy ryfelau a lladdfâu a wnaethpwyd, rhan i ennill, a rhan i gadw rhiolaethau a breniniaethau? Wrth hyny gwelwch hapusrwydd bydol yn llawn trallodau. Yn eu hi'encyd, dynion a redeg eu rhedegfa, heb briso cydwybod; ond pan ddél henaint, a'r hwantau wedy darfod, pan fo' y gwallt yn wyn, a ffon dreiglo yn y llaw, ysbectal ar y trwyn, a gwlan yn y clustau, y pryd na allo un o'r rhai'n ddim help, yno y gorfydd arno oddef cnoad y gydwybod: yr hwn beth, Gwaelder a'i cadwodd yng nghudd yn hir o amser. Y peth a sydd hoffaidd gan i'encyd, a sydd anhoffaidd gan henaint. Ond pwy lawenydd a all dyn hen ei gymmeryd, pryd na welo ef iddo droelo dim o'i i'encyd mewn daioni a rhinweddau da? Pwy dristyd yw, bod cydwybod y dyn hen yn cyhuddo cynddrwg y truelodd ef flynyddau ei i'encyd? Ond megys y mae yr etholedig yn byw mewn gobaith; felly y mae y gwrthodedig yn byw mewn nobaith. Y neb a ddilyno Gwaelder yw casdyn Duw. Saint Iefan a ddywed: 'Y neb a garo y byd a gasâ Duw.' Chwi ellwch wybod yn dda, fod yn gas gan Dduw bechodau, pan goddefodd ef ei un Mab i farw ar allor y groes, er mwyn na chaffai fod heb ddial. A pham oedd hyny, ond am fod pechodau Addaf yn mwyhau fal ydd oedd yr epil yn amlhau. Y gwr drwg cyfoethog oedd yn ei boeni yn uffern & thân a syched, am iddo fyw yn ol hwantau y cnawd. Yn yr hwn y gwirhêir geirau'r Ceidwad Iesu Grist, yr hwn a ddywed, 'Gwae chwi y rhai ydych yn chwerrth-in, can's chwi a gewch dosturio ac wylo.' Am hyny, chwyclwi y bydolion ffoliaid a'r ofer waelaidd bobl, y rhai ydych yn dilyn hwantau y cnawd, ac yn gweled eich hunain

yn hapus, pan foch chwi am yr hoffder hyny, yn goddef poenau, ni d yn y byd yma, ond yn y byd a ddaw; y pryd hwnw chwi genwch lais newydd.

Ond bellach trown at ein Marchog, yr hwn adawson yn y gors. Synwch yn y Salmu o Dafydd, ac yn benaf ar y unfed ar bymtheg ar hugain, y wythfed a thrigain, y ddeuddegfed a thrigain, y trydydd a deugain a chant; ac yno chwi a gewch weled y gwirionedd, nad ydyw hapusrwydd bydol yn ddim ond oferedd, breuddwydon, a cham arferon. A hefyd, y bydolion a sydd felltigaid ac anhapus. Am hyny mi a ddamunaf arnoch, yn enw ein Harglwydd a'n Ceidwant Iesu Grist, arfer da y byd megys perinion yn arfer eu llettyau a'u hymborth yn eu traigl: hyny yw, na ddotoch eich calonau yndynt, fal na bo dim wedi ei adael i'r Arglwydd. Yn y modd y gwelas y Marchog y llys o hapusrwydd bydol, a'i holl bobloedd a'i balchedd, yn syrthio yn ddisymmwth; yr un modd y hapia i'r bydolion gwaelaidd ar ddydd y farn, yn llai nog iddynt droi o'u dryg-ffordd ac ymwrthod â phechod, a breich-eido buchedd newydd, a gwasanaethu yr Arglwydd mewn santeiddrwydd ac uniawnder. Am hyny, gedwch yn' i'rwyno ein chwantau, attal ein hoffder ein hunain, edifarhau drwy wir ddolur calon, waeto a gwylis am drugaredd Duw, drwy eiriolad ein Harglwydd Iesu Grist, ar iddo Ef ein gwneuthur yn ddedwydd wresgynwyr o wir dragwyddol hapusrwydd; i'r Hwn y bo anrhydedd a gogoniant byth bythoedd. Amen.

Hyn yn lle y rhan gyntaf o draigl y Marchog Crwydrad.

## RHAN II.

Bellach yr ail rhan o draigl y Marchog Crwydrad.

### Y 1. PENNOD.

*Gras Duw a dynodd y Marchog allan o frynti pechodau, yn yr hyn ydd oedd yn ffest.*

Mi a draethais yn y rhan gyntaf o'm traigl,

pw y fodd (drwy lywodraeth Ffolineb yn gwrthod Rhinwedd) y dilynais Gwaelder, ac yr aethof i'r llys o hapusrwydd twyllodrus; yno yn esmwytho fy hunan dros serten o amser, yn dryllio holl orchymynion Duw, yn arwain drwg fuchedd fydol, drwy dybied (o fyw felly) fy mod yn .....

[Coll dalen gyfan yma yn y gynysgrif.]

..... fod y rhai hyny mewn anufudd-dod, yn analluawg i godi o hanynt eu hunain. Angenrheidiol ydyw i Dduw ddywedyd wrth yr enaid, 'Cyfod.' Nid oes gwahaniad rhwng ei ddywediad a'i weithred; can's y peth a ddyweto, Ef a'i gwna; ac am hyny, os dywed Ef (yr Arglwydd) unwaith wrth yr enaid, 'Cyfod,' fe gyfyd. A'r pryd hyny fo a'i rhy ef idd ei fam, yr eglwys, yr hon oedd dosturus am ei bechodau ef. Yn yr un modd, Duw a'm drychaif i o'm pechodau, a ddanfones adfyd arnaf, i beri ym' gyddnabod fy nrygoni, a thrwy ufudd-dod i droi ato Ef; yr hyn beth ni allaf ei wneuthur heb ei rad nefol ef, na chyrhaeddyd gwir ddedwyddydd heb ei nerth ef; yno y'm rhybuddiodd gwialen Dduw, fy mod yn debyg i fydol: ac am ddilyn Gwaelder, fy mod yn anhapus, yn annedwydd, yn gyflawn o halogrwydd a brynti, yn ymgreino mewn cors y drygoni, o'r hon ni allwn fy nhynu fy hunan fyth, a'm llygaid fy neall yn gauedig gan Waelder, y rhai (gwedy hyny) a egorawdd drwy Ras Duw, i weled pwy fodd truan yr oeddwn yndo. A'r deall, hwn a ddaroedd i Ffolineb ei dywyllu, a'm gwnaeth yn flinaf budredd yn y byd oll; ond er hyny, pan gefais fy maeddu gan adfyd, mi wybuo fod fy neall yn goliannu ychydig, megys ydd oedd fy nghydwybod yn dangos na ddaroedd i mi ymarfer â dim pethau da-ionus. Pan gwybuo na allwn droi yn fy ol heb Ras Duw, mi a ddrychefais fy ngolygon tua'r nef, drwy wasgu fy nwylo yn gywilyddgar, a chwyno â llais uchel, ac ufuddhau fy hunan gair bron wyneb fy Nuw, yr hwn y gwnaethof yn dost yn ei erbyn, ac a wnaethof fy achwyn fal hyn: 'O Arglwydd

Dduw, Tad a Gwneuthurwr pob dim, nid wyf fi ddylyadwy i ddrychaif fy ngolygon tuag atad, nog i ofyu maddeuant am aml bechodau, yn y rhai yr wyf yn cyddnabod fy hunan yn euog; ond er hyny, Duw o'i holl dduwiolder, a Thad y trugaredd, mi adolygaf y't na chospych fi yn dy fawr lidawgrwydd, ac nad euogbâech fi ym mysg y gwrthodedig. Yr wyf yn cyddnabod fy nrygoni, ac yn eiriol maddeuaint am fy ngham weithredoedd; fy muchedd o'r blaen a'm hanfodlonhaodd yn fawr, a'm calon a sydd yn crynu rhag ofn dy farnedigaethau. O Dduw! na wrthod dy greadur, yr hwn a sydd bechadur; ond nertha a chynnorthwy fi â'th nefol ras, yr hwn (o caf flas ei rinwedd) nid rhaid ym' with gyanorthwy amgen. O cenatâ hyn. er gogoniant dy anwyl Fab Iesu Grist; i'r Hwn gyda Thi a'r Ysbryd Glân y bo holl enrhydedd a gallu yn dragwyddol. Amen.'

A minnau felly yn gweddio o'm llwyr wyllys, yn gellwng deigrau, yn curo fy mrest, yn ymddolurio, ac yn ymofidio am fy mhechodau; yn ddisymmwth mi a welwn arlwyddes yn disgyn o'r nef i waered, ac yn dod i hunan gair fy mron ar lan y gors, lle yr oeddwn wedi sinoo yn ffest. Yr arlwyddes hon oedd o ryfeddfawr urddasrwydd, ac yn odidog wybodus; hi a ymddangosodd i mi mewn trwsiad o sattan gwyn, a chlog o ddamasc glas gwedy ei frodro ag aur a pherlau; ei hwyneb oedd yn tywynu fal yr haul, ac am hyny anhodd oedd ym' edrych erni; mi anfedais ar y fath weledigaeth ddisymmwth; a heb wybod, y pryd cyntaf, pwy ydoedd; eto mi ymlawenheais gan dybied mai rhyw help oedd, yn dyfod o'r nefoedd i'm tynu allan o'r gors, yn yr hon yr oeddwn yn gorwedd. O'r diwedd (drwy ei mawrhau) mi ddamunais erni, gan ddywedyd, 'O arlwyddes ddajonus raslawn! pa bynag pwy wyd, mi adolygaf i ti yn uddyf (os gelli fod yn rancbodd genyd) fy helpu allan o'r gors halog hon, am nad oes dim yn agos imi, ond gwiberod gwenwynig: yn enw Duw, am hyny mi a eiriolaf dy gannorthwy ym.' I'r

hwn ddamuniad hi atebodd: 'O ffol ac anifail camarferedig! ti a well yr awr hon pwy rodd a gafaist gan Gwaelder am ei dilyn hi; pe buasid yn credu fy merch i, ni buasid yn y fath drueni yma.' Yno mi ofynais pwy oedd ei merch hi. Hithau atebodd, gan ddywedyd, 'Y ferch felusaidd foreddig, yr hon er un diwarnod ar ddeg aeth heibo, yr hon a'th gynghores di i adael ymaith Gwaelder, a'i dilyn hi; ac am na chredaist ti hi, yr wyd yn gorwedd yn yr anhapusrwydd yma.' Wrth yr ymadrodd hyn, mi wybuo mai Gras Duw ydoedd, a mam fertiw. Yno y cwypais ar fy nglinau, gan wlyo a dywedyd fal hyn: 'O arlwyddes anwyl! un feltigedig gynghorwraig, Ffolineb, a'm tynodd i oddi wrth dy ferch, a minnau (anhapus fudredd!) a'i credais hi; yr hwn waith a sydd i'm dolurio yn fawr; ac yr awr hon yr wyf yn deisyf maddeusaint genyd, ac yn ufudd yn eiriol arnad, o'th drugaredd, fy rhyddhau allan o'r halogrwydd clefychaidd hyn; a mi a wnaaf ammod ac adduned byth o hyn allan ar dy ddilyn di; er fy mod yn haeddu damnedigaeth am fy ngham weithredoedd; eto, am dy fod yn drugarog naturiol, arbed fi.' Pan glywodd Gras Duw fy nghwynfan tosturiol, hi (o'i daioni) a estynodd imi ielen aur, ac a orchymmynodd ym' ddodi fy llaw erni. Yr hwn beth, pan y gwnaethym, mi a godais o'm cyfrwy; ac felly y'm doded allan o'r figyn, yn yr hon y gedais fy march Ffromder, a'm llywodraethferch Ffolineb, i bysgota ffrogäid.

Fal hyn y gwelwch mai Gras Duw a'n tyn ni allan o bechodau, ac a sydd yn rhyddhau, yn cyfiawnhau, heb ein haeddedigaeth ein hunain; ond (fal cynt) nid heb ddolur calon, a blinder am ein pechodau; yr hwn a sydd rodd enwedig gan Ras Duw, ac nid gweithred dyn o'i naturiaeth gwaethygaidd.

## Y 2. PENNOD.

*Gras Duw a ddiangoedd uffern i'r Marchog, a'r holl gumpeini, y rhai a welsai ef yn y llys o Ddedwyddydd bydol.*

Minnau allan o'r figyn, yn ddarostyngedig ar

fy nglinau, mi a rois ddiolch i Ras Duw am ei daioni, drwy weled nad dlyedus i ddyn gael daioni gan Dduw, oni bydd ef diolchgar am dano. Yno Gras Duw aeth o'r blaen, ac a archodd i minnau ei dilyn, yr hwn beth a wnaethof; can's yn ddiiddau ein rhydd wyllys nid ydyw yn cyfrwyddo Gras Duw, ond Gras Duw yn cyfrwyddo ein rhydd wyllys. Yno mi a'i dilynais hi nes ym' gael gweled y llys o hapusrwydd bydol a'i gogoniant mwyaf gwedy ei thro'i i geubwill dyfn dywyll yn berwi gan dân troeledig; o'r hwn le ydd oedd darth halog a mwg drewllyd yn dyfod, gan frwmstan poeth. Dros y pwll hwn yr oedd raid yn' fyned, hyd astell fechan hir gul; ac am hyn ydd oedd fy ngwaft yn sefyll rhag ofn; yno, trwy ddolurus ucheneidion, mi a ddeisyfais ar Ras Duw ddywedyd wrthyf beth oedd y weledigaeth a welem ni yno. Hithau a ddywad, 'Yma y mae y lle, nid amgen, na llys Gwaelder a'th holl gydym-eithiaid, ym mysg y rhai y buost yn cael dy annogiaeth. Gwyl, oni buasai imi dy nerthu, a chym'ryd trugaredd arnad, tithau a fuasid yn cael dy blaeo gydag hwynt. Meddwl yn nod dy hunan beth yw y lle, ai hoffaidd ai nad ydyw. Ti weli pa wedd y mae y diawl yn eu trin hwynt mewn poenau. Dacw y brenin mawr Liwsyffer, yr hwn a dybiaist ei weled â chydymdeithas o foneddigion a phenaethiaid gydag ef yn y llys o anwiraidd hapusrwydd; doco hwynt yn ffraio yn y ffwrnais. Dacw daliad y rhai a'i gwasanaetho ef.' Yno y gwelem wely haiarn yn dwyn corff, yn yr hwn yr oedd wraig yn gorwedd yn hoeth, a sarff yn ei breicheido, ac yn hwareu ei gynffon rhwng ei choesau; a dwy wiber anferth yn blethedig am ei morddwydydd, yn bwyta ei dirgelwch. Y wraig druan hõno oedd yn llefain yn dosturus a llais uchel aruthr. 'Dacw (hebe Ras Duw) y gwely gwych yn yr hwn y gorweddais; a'r wraig acw yw Duwies y Cariad, yr hon a oedd yn cadw cydymdeithias gyda thi: a fyddai dda genyd fod gyda hi yr awr hon yn ei gwasanaethu?' Dywedais innau na fyddai. 'Ti

a weli (heb hi), dacw ddiwedd yr holl rai a sydd yn byw mewn gwaelder, a'r bydolion drwg. Gofyn iddynt yr awr hon pa le y mae eu da, a'u hoffder, a'u mawredd." 'O Arlwyddes (hebe finnau), ni beiddaf rhag ofn.' Ac yno, â llais uchel, hi a dlechreuodd ofyn iddynt yn neillduol, 'O chwydychwi y rhai melltgedig a dafodd Duw allan, a thruan bydolion! pwy le yr awr hon y mae eich ystafelloedd teg, gwedy eu gwisgo o amgylch iddynt â llenau sidan ares, a'ch gwelyau esmwythion, a'ch cyfoeth mawr, a'ch cybyrddau costfawr llawn plat, a'ch perls, a'ch main gwerthfawr, a'ch arian, a'ch garddau hoffaidd, a'ch trwsiaidau gwychion, a'ch meirch, a'ch gwin melus, a'ch dyfr peraidd, a'ch gweison, a'ch cogyddion, a'ch bwleriaid, a'ch arlwyddesi cariaidaidd, a'r fath bethau hyny? O bobloedd anhapus! y cyfnewid yma a sydd cyfiawn ichwi i'w gael. Yn lle eich glothineb, yr ydych yn goddef newyn; yn lle eich medd'dod, yr ydych yn goddef syched; yn lle eich aroglau peraidd, yr ydych yn goddef drewiant sur; yn lle eich anniwair gariadon, yr ydych mewn pcenau yng nghydymethias y diawliaid; ac yn lle eich difyrwch hoffaidd o flaen llaw, yr ydych yn awr yn goddef aruthr dialedd."

Gwedy i Ras Duw draethu yr ymadrodd hyny, y bobloedd felltgedig hyny a lefodd yn uchel: 'Gwae a fo yr awr y'n erioed! Cyfiawnder Duw, ie, trwm gyfiawnder yn haeddedig a'n poenodd fal hyn.'

Gwedy darfod hyny, Gras Duw a ddywad fod yn rhaid yn' fyned dros y lle hwnw drwa, er bod yr astell yn fain ac yn hir. Yno yr oeddwn ofnus; mi a'i dilynais hi; hithau yn myned o'm blaen er diogelrwydd ym': ond nid aetho dri cham, nes ym' weled Sarberus, y ci o uffern, â'i dri phen yn safn-ruthr i geiso fy ninystr; ac ar y gwelediad hyny, yn ofnus fy nhraed a lithrodd; ac yn fuan yntau a'm cymmerodd herwydd fy sodlau, i'm drylliaw. Yno mi lefais ar Ras Duw am fy nerthu, yr hon a edrychodd yn ei hol, ac a'm gwelodd mewn perygl; ac yn fuan hi

a'm cymmerodd i fynydd mewn muned, ac a'm rhyddhaodd o'r ceubwll. Yno mi a gofiais beth a ddywad Dafydd: 'Fy nhraed a lithrodd; dy drugaredd, O Arglwydd, a'm nerthodd i godi.' Y pryd hyny, pan ddygodd Gras Duw fi yn ei breichau, mi a ofnais rhag i'm halogrwydd i nerddo [anurddo] ei gwisgad cyfoethog hi; ond hyny a ddaeth yn ei wrthwyneb; can's nad oedd hagrach ei thrwsiad gwerthfawr hi, a'm trwsiad brwnt innau a aeth yn lân, yr hwn beth a wnaeth ym' ryfeddu yn fawr. Yno y dywad Gras Duw, 'Fy mab, megys ag y tery yr haul yn lliw y lliwydd, ac y try allan heb halogi dim; yn yr un modd yr wyf finnau heb halogi fy hunan yn entro yn dy ensaid pechadurus dithau, ac mewn muned yn ei wneuthur yn lân.'

Gwedy hyny, dros y mynyddau aruthr a'r creigau llaprau y rhodieson, nes ein dyfod i'r groesffordd, lle y buasai Rhinwedd yn damuno arnaf ei dilyn hi. Pan gofiais ei hymadroddion, mi a wylais yn hwerw am fy mhechodau a'm ffolineb, y rhai athoedd heibo. Ond pangwybu Gras Duw fy mod yn ddiffyg-iol, a drewiant y ceubwll gwedy fy mlinhau, hi a'm cymmerodd (o drueni) yn ei breichau, ac o'r diwedd hi a ddangoses i mi ysgol yr Edifeirwch, i'r hwn le ydd oedd yn rhaid ym' fyned, cyn y gallwn entro mewn gwir hapusrwydd.

### Y 3. PENNOD.

*Y Marchog yn traethu pa fodd ydd aeth i'r Ysgol o Edifeirwch, a phwy wedd y derbynwyd ef yno.*

Pan oeddem yn agos i Ysgol yr Edifeirwch, yr hon a oedd gwedy ei hadeiliad ar uchaf glan uchel, gwedy ei damgylchynu o mott, yr hwn a elwid Ufudd-dod. Gras Duw a alwodd, ac allan y daeth Arlwyddes yr Edifeirwch mewn trwsiad plain; yn nesaf idd y croen hoeth ydd oedd grys o rawn; ar uchaf hyny, gown o liain sach, gwedy ei amregysu o wregys lledr mawr; a chwrsi o ganfas garw ar ei phen. Gyda hi y daeth dwy lawforwyn, a elwid Dolur am Bechod, a



Chyffesu Pechod; a'u trwsïadau oedd fal trwsïad eu harlwyddes. Un oedd dosturus a thrist, a'r llall oedd wyl a chywilyddgar, yn dala ei phen yn isel. Y pryd hyny Gras Duw a ddywad wrth Edifeirwch, ac a'm presentodd i iddi, drwy ddywedyd: 'Y mae yma Farchog, yr hwn a sydd yn dyfod genyf i'th rsgol, fal y gallo ef anghofi y drygoni a ddysgodd ef ar lled, a chael dangos iddo y daioni, yr hwn nis cyddnabu eto erioed.' Ac wedi fy erbyn, i Ysgol Edifeirwch, mi a ddysgais fyw yn ddaionus, ac anghofi y drygedd a ddangosysid i mi mewn amseroedd a aethoedd heibo. Lle yr oeddwn o'r blaen gwedy dysgu neido, dawnso, bwyta, yfed, hwareu, hela puteinaid, a gwneuthur pob rhyw fileindra a mesiff, yno y dysgais wers newydd, nid amgen, penlino, tosturio, ym- prydio, gweddio, a byw yn ddaionus; yr hyn oedd wrthwynebus i'r pethau a ddysgaswn yn y llys o hapusrwydd bydol. Yno Edifeirwch a ddywad wrth Ras Duw, fod yn rhaid ym' dafu ymaith fy het asgellog, a phob peth amgen ag a oedd i'm cylch. Yno wrth orchymmyu Gras Duw, Edifeirwch a ddechreuodd dynu ymaith fy ngwisgad. Yn gyntaf, hi a dawlodd fy het o ewn falchder i'r ceubwll; gwedy hyny fy ngwregys o an- nhymcreiddrwydd, wrth yr hwn yr oedd fy nghleddeu yn fïest o anufudd-dod, yr hwn a dorodd hi yn ddryllau; a'm pais o ofer ogon- iant, a'm sanau o ofer hoffder, a'm dwbled o wael ddamuniadau; y rhai hyny oll a defid i'r pwll, fal nad oedd dim i'm cylch ond yn unig fy nghrys o anlladrwydd, yr hwn hefyd hi a fynai dynu dros fy nghlustau; ond mi ganlynais erni yn daer na'm gadai yn hoeth; felly y'm hesguswyd dros y pryd hyny, ond nid yn hir. Edifeirwch a ddywad: 'Yn llai nog iti frwr ymaith holl drwsïad yr hen ddyn, ni elli ddyfod i'm hysgol i.' Yno Edifeirwch a ddywad wrthyf: 'Fy mab, rhaid i ti ddy- fod i mewn i'r tyllad cyfing yma, drwy yr hwn y doethof fi allan.' Ond pan y achwyn- ais, ac y dywedais mai ammosibl oedd hyny, am nad ai fy mhen i mewn; lithau a ddy-

wad nad oedd un ffordd amgen i fyned idd ei hysgol hi. Yno mi a gofiais y peth a ddywad Crist yn yr Efengyl o Saint Fatheu: 'Y ffordd a sydd gyfing, yr hon a sydd yn arwain i'r bywyd tragwlyddol, ac ychydig a dreigla y ffordd hōno.'

Pan oeddwn yn sefyll, ac yn rhyfeddu gyfynged y tyllad, mi welwn hen wiber yn myned i mewn, ac yn gyfnaid yn dyfod yn ei hol yn gyfnewydd ac yn iefanc. Pau oeddwn yn rhyfeddu am hyny, Gras Duw a ddywad wrthyf: 'Fal hyn y mae yn rhaid i titbau i wneuthur; canys pan elych i Ysgol Edifeirwch, rhaid yt' adael dy hen groen ar dy ol; ac wedi hyny ti a ail droi yn ddyn iefanc; ac am hyny y dywaid yr Apostl: 'Dod ymaith yr hen ddyn yn gydsyniol a'r ymdlygiad cyntaf halogaidd drwy ddyg- feddylau, a dod arnad y dyn newydd, yr hwn a sydd idd ei greu yn gydsyniol a Duw,' mewn cyfiawnder, santeiddrwydd, a gwir- ionedd. Yr hen ddyn yw gweithredoedd pechod, a'r dryg-fywyd o'r blaen, yr hwn a edir ar ol yn yr Ysgol o Edifeirwch; a'r dyn newydd yw y bywyd daionus, yr hwn a ddechreuir yn newydd mewn santeiddrwydd a gwirionedd.' Fal yr oedd Gras Duw yn dangos ym' felly, mi a welwn hen eryr a llygaid trymion pluf-dew, yn hofran yn uchel. Yr eryr yma a ddisgynodd i'r lawr, ac a ym- greiniodd dair gwaith mewn ffynnon teg, yr hwn oedd yno; ac yn bresennol ef a ail droes yn iefanc ac yn hoenus, yr hwn wyrth- au a wnaeth i'm ryfeddu mwy nog am y wiber. Yno Gras Duw a ddywad: 'Fal yr ail droes yr eryr o'r ffynnon yn iefanc ac yn hoenus, felly yr ail droi dithau yn ol dy ddy- fodiad at Grist, drwy ymofidio am dy bech- odau a'u chyffesu, yr hwn beth, os gwnai, ti a gai dderbyn dy wirionedd cyntaf, yr hwn a roes i iti yn dy fedyddiad.'

Yno Gras Duw a aeth o'm blaen i ysgol Edifeirwch, ac a ddywad: 'Myfi a'th dynaf i mewn; can's nid oes neb ond myfi yn dangos y ffordd i bechaduriaid i edifarhau.' Ac yno hi a'm tynodd i mewn, ac yn ddiôhir

mi aethof yn elyniaid i bechod; ac am hyny na ogonedded neb ei hunan, can's Gras Duw a sydd yn myned o flaen wyllys dyn; a thrwy Ras Duw y gwneir dyn yn ddaionus. Yno mi aethof i mewn ar ei hol; ac wedi ym' fyned ychydig i mewn, y lle oedd yn helaethu ychydig. Gras Duw oedd i'm tynu herwydd fy mhen, ac Edifeirweh i'm gwthio erbyn fy nbraed. Ac felly wrth fyned i mewn i'r lle cyfyng, mi a edais fy nghrys o anlladrwydd ar fy ol gwedy tori yn ddryllau, yr hwn a dawlodd hi i'r ceubwll; a'm holl gorff oedd yn ysgrifenedig: 'Fal hyn y mae Edifeirweh yn parodhau idd ei hysgolhaig.' Can's o bydd neb o'i eneu yn cyffesu ei bechodau, y rhai aethont heibo, a heb fod o'r tu mewn yn ymofid ac yn ymddolurio am goddi Duw, a heb gyflawn fwriad ar wellâu ei fywyd; yn wir, mawr yw ei gamsyniad; can's o debyg y caiff fendith Dduw felly, fo gaiff ei fellidith yn hytrach.

Bellach at ein bwriad.

Edifeirweh a ddodes am fy nghorff hoeth y fath wisgad ag oedd hi ei hunan yn ei wisgo, yr hwn pan y gwelais, mi feddylais am yr Apostoliaid (nid trwy feddwl fy mod yn gystal ag hwynt, ond gobeitho dyfod (drwy Ras Duw) i'r lle y maent hwyntau) yr oeddwn yn gyfun i wneuthur megys y gwnaethont hwyntau.

#### Y 4. PENNOD

*Y modd y mae gwir Edifeirweh yn entro ynom; a phwy fodd yr oedd Cydwybod y Marchog yn ei gyhuddo ef; a phwy boenau oedd ef yn eu haeddu.*

Gwirionedd yw, na ellir edifarhau, fal yr ydys yn tybied, heb gael gras gan Dduw: can's calonau dynion pechadurus ni allant newidid eu hanweddus fuchedd, na throi oddi wrth eu beiau na'u pechodau eu lunain at Dduw, heb weithred Gras Duw.

Y doctoriaid a sydd yn ymholi beunydd, pa un y mae gwir edifeirweh yn cynmeryd ei dechreuad, ai o gariad, ai ynte o ofn. Y gofyniad hyny ellir ei ddsbarth mewn

ychydig o eirau. Ond i fod yn fyr, mi a ddywedaf y gull ddechreu ym mhob un o hant ynt ill dau; o achos bod gwir edifeirweh yn weithred Duw, ef a ddichon ddechreu fal y myno. Ond pan y del ef o gariad, nid ydyw yn weddus gyffredinol oed mawr ryfeddod. Edrych ar amhoeliad Saint Pawl, Saint Matheu, a'r lleidr.

Ond yn weddus, Duw a sydd yn dechreu edifeirweh ynom ni drwy ofn; megys yn y trydy Llyfr o'r Breninoedd, pan y gorchymmyuodd Ef i Elias ddyfod allan o'i ogof i aros ar y mynydd gair bron yr Arglwydd, a gwynt mawr nerthog y aeth heibo, a ddryllodd y glenydd uchel a'r cwarrau llaprau o flaen yr Arglwydd; ond yr Arglwydd nid oedd yn y gwynt. Gwedy hyny y daeth crynfa daiar; ond nid oedd yr Arglwydd yn y crynfa daiar. Gwedy hyny y daeth tân; ond nid oedd yr Arglwydd yn y tân. Gwedy hyny y daeth sown llariaidd; ac mewn hwnw ydd oedd yr Arglwydd. Yn yr un modd y denfyn Duw y gwynt, sef yw ofn, i dori y mynyddau galluog y balchder, at galon galledach no'r gareg neu'r cwarrau. Gwedy hyny y daw trallod i'r enaid. Gwedy hyny y daw Cydwybod i weitho calon y pechadur, ac idd ei gyhuddo ef o'i fywyd drwg. Ond eto nid ydyw yr Arglwydd yndynt a'i fywiol ras; ond er hyny y maent yn flaenoriaid i barodhau ffordd yr Arglwydd; ond pan fo dirfawr ofn gwedy marwolhau drygwyllys dyn, a'i arwain haechen i uffern; ar ol hyny y daw sown llariaidd gras Duw, yr hwn a fywocâ yr enaid a dywedyd, 'Lasarus, dare ymaith.' Dyma y llais a sydd yn rhoi diogelrwydd; pan y clywon ef ni allwn ymado mewn heddwch drwy ddiogelrwydd am faddeuant ein pechodau. Ond tebyg yw, mai trwy gariad y dechreuwys edifeirweh gyntaf yn y Marchog, a hyny yn wyrthfawr; can's pan ydd oedd of ym mrynti ei bechod, yn ddisymmwrth (drwy Ras Duw) fe addefwys ei ffolineb, drwy gasâu ei feiedig fywyd, fe archodd nerth a gwysgod gan Ras Duw, yr hon yn bresennol a'i nerthodd ac a'i dygodd allan o syrthfa

pechod. Ond y llall hyn ar dröedigaeth nid ydyw o gyffredinol arfer. Yn wir y mae serten o flaenoriaid i gyfiawnbau pechaduriaid, yr hyn a sydd yn parodhau y ffordd i fywiol Ras Duw, ac yn offrw m i Dduw ysbryd newydddaidd a chalon burdaidd gyfiawn; yr hwn ddull ar dröedigaeth ydyw pobloedd dduwiol yn unig yn ei arfer.

Gwedy darfog i Edifeirwech fy nhrwsiadu mewn rhawn a lliain ffetanau, fe'm doded ar ystôl; ac yno Gras Duw a ymddangoses i mi, a dwy wraig, ac un gwr, yr hwn oedd Prezethwr. Yr oedd yn llaw ddeheu un o'r gwraedd wialen haiarn flaenllem a elwid Cnoad y Gydwybod, ac yn y llaw asau llyfr coch; am hyny ei hofnais; can's fal yr oedd hi yn syned arnaf, yr oeddwn yn tybied ei bod i'm bwgwith. Y wraig arall oedd dirion, flariaidd, a boneddigaidd. yn dala yn ei llaw ddeheu llyfr euraidd gwedy ei werchurio a pherls, a'i henw oedd Cofedigaeth. Gras Duw a osododd Gydwybod ar fy llaw asau, Cofedigaeth ar fy .....

[Coll o wyth dalen yn y gynysgrif yn y lle bwn]

..... a wybyddai yn fuan pwy fath wraig yw hon, a sydd yn ei deimlo ef; can's y mae hi yn fawr bechadures. Gwirionedd yw, Cyfiawnder a Santeiddrwydd a drugarhâ wrth drnain bechaduriaid; ac yn erbyn hyny, anghyfiawnder a hipocrisi a'u casâ ac a'u salwhâ hwynt. Ond gedwech yn' wrando drwy ba ryw ymadrodd y gorchfygodd ein Harglwydd a'n Ceidwad y Phariswr ffol hwnw, drwy ei brwfo ef yn waeth no'r wraig bechadures. Yr Arglwydd y pryd hwnw a ddangosodd nad oedd Ef yn unig yn brophwyd, ond ei fod Ef hefyd yn Arglwydd ac yn Dduw y prophwydi. Fe atebodd i feddyfau y Phariswr balch, gan ddywedyd, 'Simon, y mae genyf beth idd ei ddywedyd wrthyd.' Yno y dywad yntau, 'Dywedwch allan, fy Meistr.' Yr Arglwydd a ddywad, 'Yr oedd rhyw un ag iddo ddau ddlyedwr; i un o hanynt yr oedd ef yn ddlyed pump cant ceinog; ac i'r llall, deg a deugain o

geinogau. A'r ddau oedd heb ddim modd i dalu. Y dlyedwr a faddeuodd iddynt ill dau eu dyled. Yn awr dywed pa un o'r ddau ddlyedwyr, a garai y dlyedwr yn fwyaf.' Simon a ddywad, 'Yr wyf yn tybied mai yr un y dlyai iddo y dlyed mwyaf, neu y madddeuwyd fwyaf iddo.' Iesu a ddywad, 'Un-iawn y bernaist.' Yr Arglwydd (wrth osod y gofyniad hyny) oedd yn ewyllysu iachâu y Phariswr hefyd. Can's pe buasai yn ei wadu, ni fwytasai yr Iesu ddim o'i fwyd ef. Y ddau ddlyedwyr hyny oedd Simon a'r wraig bechadures. Y wraig bechadures, nid yn unig ym marnedigaeth y rhai oeddynt yn sefyll o amgylch iddi, ond hefyd yn ei chyffes ei hunan, oedd yn ei chyddnabod mewn mwy ddlyed no Simon, a Simon mewn llai o ddlyed no'r wraig, am ei fod yn tybied ei hunan yn ddibechod, i.e. yr oedd yn ei gyfrif ei hun yn gyfiawn yn ei bron hi. Y dlyedwr ydyw yr Arglwydd Dduw, yr hwn a sydd yn benthyca, ac yn rhoi ni ei roddion ysbrydol a chorfforol mewn cyfran, drwy roi i un bump talent, ac i arall dau talent, ac i arall un talent. Yn awr, y mae yn arwyddocâu wrth farnedigaeth Simon, mai y wraig oedd fwyaf mewn dlyed i Dduw, i'r hon y maddeuodd Ef fwyaf; ac am ei bod hi yn caru Duw yn well nag ydd oedd Simon, ydd oedd hithau eilwaith yn haeddu ei charu yn well ganto Yntau, am iddi wneuthur mwy o wasanaeth i Dduw nag a wnaeth Simon, er iddo roi ei fwyd. Ac am hyny yr Arglwydd a brisodd y cariad a'r wyllys da oedd gan y wraig hōno yn fwy no'r hyn oedd gan Simon. Idd ei geryddu ef am ei eŵn-falchedd, yr Arglwydd a ddywad fal hyn: 'A wely di y wraig hon, yr hon wyd yn ei barnu ei bod mewn mwy o ddlyed na thydi? Myfi a ddaethof i'th dy, ac ni roist ym' ddwr i ymolchi fy nhraed; ond hi a'u golchodd hwynt o'u dagrau, ac a'u sychodd hwynt o'i gwallt, er bod yn haws cael dwr na deigrau. Ni chusanaist ti fy min, ond hi a gusanodd fy nhraed. Ni wylmentaist ti fy mhen ag oel cyffredinol; ond hi a wylmentodd

fy nbraed ag oel gwyrthfawr. Felly ti a wely wrth arwyddon ei bod hi yn caru yn well nog yr wyd ti. O'r achos hyny mi a ddywedaf wrthyd, fod llawer o bechodau yn faddeuol iddi, am iddi hi fy ngharu i yn fwy; os lleiaf a faddeuir i'r lleiaf a garo.' Yr Arglwydd a draethodd hyny i faeddu i'r llawr falch ymddaliad y Phariswr ynfyd. Nid er mwyn na ddaroedd maddeu iddo ond ychydig, ond fal y gallai Simon wybod ei fod ef yn tybied felly: can's yn wir, y mwyaf a wnel bechodau, a sydd mwyaf mewn dlyed i Dduw. Ac yn yr [un] modd am dano yntau yr hwn a becho leiaf. Ond i gyfuno pob un o'r ddau, y lleiaf a'r mwyaf a sydd raid iddo wrth ras Duw, at yr hwn ni allant ddyfod o'u nerth eu hunain, a'u rhinweddau. Ac megys y mae y pechadur mwyaf yn gadael ar law Duw ryddhâd ei bechodau, yn yr un modd y dyly y gwr cyfiawn wneuthur hefyd; os nid oes un pechod ag a wnel un dyn, na wnel dyn arall yr un fath, yn llai nog i Dduw, yr Hwn a wnaeth ddyn yn ddibechod, ei gadw ef oddi wrth bechod, fal y tystoliaetha Saint Awstin. Ond fe ddywed rhyw un: 'Ni wnaethof fi odineb, fal y gwnaeth y dyn acwy.' I hwnw mi atebaf: 'Ni roed iti y fath achos i odinebu ag a roed iddo ef; ac ni roed iddo yntau y fath ras i wechlyd ag a roed i tithau. Gweithred Duw ydoedd, ac nid dy wyllys di dy hunan am na chefaist achos nac amser gweddus i syrthio yn y fath bechod. Pe buasid yn rhoi i ti achos ac amser gweddus i bechu felly, a thithau yn ymattal, eto gwyl mai Duw a'th gyfrwyddodd, ac a'th rioledd fal na ddlyd bechu; ac am hyny cyddnebydd ras Duw (fal yr wyd rwy-medig i wneuthur) am na wnaethost y fath bechod. Felly y mae y mwyaf a wnaeth bechod yn sefyll yn y dlyed mwyaf i Dduw. Yn yr un modd y mae y neb na phechodd ddim yn ddlyeidwr i Dduw; can's oni bai fod gras Duw yn ei gyfrwyddo, fe wnaï ddrygoni ddigon.

Bellach at ein bwriad.

Gwedy i'r Arglwydd ddarestwng y Phariswr

balch yn ei ymddaliad, i lawenhau y wraig alarus oedd yn gorweidd wrth ei draed, Ef a ddywad fal hyn: 'Ha wraig, dy bechodau a faddeuwyd i ti.' O leferydd llawenydd! O wraig ddedwydd! yr hon wyd haeddedig i glywed Mab Duw yn dywedyd wrthyd, ac yn maddeu yt' dy bechod. Ond geirau llawenychaidd yr Arglwydd a anfoddlawnhâwdd y Pharisaid beilechon yn y wledd fawr; yr hyn a'i troes hwynt i gablu, drwy ddywedyd, 'Pwy gydymaith yw hwn a sydd yn maddeu pechodau? Y mae Ef yn gablwr; can's i Dduw yn unig y mae perthynus faddeu pechodau.' Yn wirionedd, y rhai oeddent yn eisteu wrth y ford, a'r hwn a wahoddysai yr Arglwydd Iesu Grist idd ei gino, oedd yn ei gymmeryd Ef yn lle gwr tlawd. Yr oedd yn gyddnabyddus na allai ddyn fadd[eu] pechodau; ond nid oeddynt yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw: ac am hyny y dywedynt, 'Pwy gydymaith yw hwn a sydd yn maddeu pechodau?' Y gwleddwyr hyny oedd gleifon o farwol haint, yr hyn nid oeddynt yn ei addnabod, nac yn gwybod pwy nerth oedd idd eu hiachâu, ac i wneuthur lles iddynt. Ond ffromder ydyw i'r rhai cleifon hwerthin am ben y rhai iach. Felly y gwnaeth y Pharisaid am ben Iesu Grist a'r wraig, y rhai nid oeddynt gleifon; ac od oedd hi glaf, ydd oedd hi yn cyddnabod ei chlefyd, ac yn ceiso nerth gan y phesygwr. Y mae yn wirionedd na ddichon dyn faddeu pechodau: ond y wraig hōno oedd yn credu y gallai faddeu pechodau, ac oedd yn credu hefyd ei fod Ef yn Dduw; ac am hyny yn alluog i faddeu pechodau. Pwy ham nad atebodd Crist ein Ceidwad y Pharisaid gwythig, a dywedyd, 'Myfi yw Mab Duw,' a hwyntau yn gofyn y gofyniad, drwy ddywedyd, 'Pwy gydymaith yw hwn i faddeu pechodau?' Na wnaeth: ond fe'u gadodd hwynt i wytho, ac a droes ei hunan at y wraig, ac a ddywad: 'Dy ffydd a'th gadwodd di; ymado mewn heddwch.' Er ei bod hi yn clywed arno Ef yn dywedyd wrth y Pharisaid: 'Y mae y dynion yn gwytho, ac

yn tybied am danaf fal y mynont; ond er hyny, bid sier i ti mai dy ffydd a'th gadwodd; ac am hyny ymado mewn heddwech, a mwynianna gyflawn lonyddwech cydwybod gyflawnedig drwy fywiol ffydd gyflawn o gariad.' Dawed pob enaid claf, llwythfawr o bechodau, os myn ef iechyd; ie, dawed mewn ffydd a gobaith cryf at wir Feddyg eneidiau, yr hwn yw Iesu Grist. Cyffesed ei feiau drwy ddoluriau ac wylaw; syched draed yr Arglwydd o'i wallt; ac fe gaiff ei wneuthur yn iach ddihaunt. Rhowch eich gormoddol gyfoeth ym mysg y tlodion, ac na throelwch hwyt mewn gwleddau a medd'od, ac uchelfalch drwsiadau. A phan ddarffo i'r pechadur drwy fawr gariad a haeloni nerthu y tlawd o bob cyfreidau, a dywedyd yn deg ac yn foneddigaidd wrtho, yn gystal mewn cynghorau a chardodau, a byw yn ol rhioleth gair Duw mewn sant-eiddrwydd ac uniawander; ef all fod yn sywr o gael heddwech a llynyddwech idd ei gydwybod, a myned at Dduw y Tad, drwy haeddeditaeth angyf a phassiwn ei anwyl Fab ef, ein Harglwydd ni Iesu Grist, i'r Hwn y bo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

#### Y 7. PENNOD.

*Gwedy i'r Marchog rysefo yr Aberth Sentaidd, a gwrandu y Bregeth, a diweddu cine, ef aeth yn uchel mewn cerbyd o orchafiaeth; a thrwy Ras Duw, fe ddygwydd i'r Llys o Rinwedd.*

'Ni ellir gwybod (hebe'r Marchog) pwy gymmaint y'm llawenhaodd y bregeth, yr hon a wnaeth y Meudwy Daionus; am hyny yr oeddwn yn damuno gwybod ei enw ef. Yr Arlwyddes Cofeditaeth a ddywad wrthyf mai Deall Da y gelwid ef. Yno mi dderbynais y Cymmun Sentaidd; ac wedy darfod hyny, a rhoi diolch i Dduw, mi feddylais am fyned i gyfarch gwell iddo ef. Ond cyn ym' fyned i rysefo yr aberth sentaidd o gorff a gwaed ein Harglwydd a'n Ceidwad Iesu Grist, mi a gofiais fawr gariad yr Arglwydd, yr Hwn yn uddyf a gymmetodd naturiaeth

dyn am dano, er ein mwyn ni, ac a ddyoddefodd chwerw angyf ar y Groes, i'n rhyddhau o gaethiwed pechodau uffern ac angyf tragwyddol, i'n dwyn ni i'r bywyd a bery byth. Mi a gofiais hefyd y cariad yr hwn a ddangosodd Ef i mi, pan y tynodd Ef fi allan o syrthfa pechod, lle yr oeddwn gwedy dygwyddo dros fy mhen a'm clustau. Ni'm tynodd yn unig allan o'm dirfawr bechodau; ond Ef a'm gwnaeth hefyd yn gyfranol o'i drugaredd a'i dduwiol fawredd drwy ffydd. Ac er mwyn damuno arno Ef fod yn rhancbodd ganto imi rysefo yr aberth yn gyflawn, mi a weddiais arno fal hyn:

'O y tirion Iesu! O gariadus Brynwr! yr wyf yn rhoi diolch i Ti am dy ddirtfawr gariad, drwy yr hwn y'm glanhâist oddi wrth halogrwydd fy mhechodau, a'm tynu drwy dy ras allan o ddyfn geubwll angyf; edrych, yr wyf yn ail troi atad, ac yn deisyf arnad, drwy wyllys calon, fod yn rhancbodd genyd, ym mysg rhifedi dy roddion a'th fawr haeloni, roddi imi ras i fod yn gyfranwr ffyddlon o'th werthfawr gorff a'th waed, yr hwn ydys yn eu rhoi i mi, mewn anweledig fodd, dan liw bara a gwin. O Frenin anfarwol! yr wyf yn addef nad wyf ddyedus i gael y fath uridedig rodd hōno; eto mi adolygaf arnad (fal ydd wyf) yn gwneuthur yr annheilwng yn deilwng, a'r pechadur yn gyflawn, fy ngwneuthur innau yn deilwng i rysefo yr aberth sentaidd nefol hwn er iechyd i'm henaid; portha fy enaid pechadurus, O Arglwydd, o'th gorff ysbrydol, a gad i'th waed fywocâu fy ysbryd gwanaf, drwy fod dy ras beunydd yn mwylhau ynof, yn aelod o'th gorff duwiol di, megys y bwyf o fewn yr addewid a'r bendith a wnaethost i'th saint a'th apostoliaid yn y swper ddiwaethaf, drwy gyfranau iddynt y sentaidd aberth o'th gorff a'th waed. A hefyd fy nodi o fewn rhifedi y rhai yn gyfun a'u hadduned a'i haeddo, yr hwn a wnaethant yn eu bedydd, a sydd yn byw mewn ffydd, a thrwy dy ras a dderbynwyd i gydymdeithias y saint. Amen.'

Gwedy diweddu y weddi, mi a dder-

bynais yr aberth santaidd yn dduwiol. A gwedy hyny ni aethon o'r capel i neuadd fawr; ac yno y cyhwrddais â'r Meudwy Daionus, Deall Da, yr hwn (gwedy ym' gyfarch iddo, ac yntau i minnau) mi a ddiolchais iddo y bregeth ddaionus. Ac fal yr oeddwn yn ymadrodd felly, Gras Duw a ddywad wrthyf: 'E, Farchog! myfi a roaf i ti yn llywodraethwr o hyn allan, y Meudwy Daionus, Deall Da. Cred ei gynghoran, a gwna y peth a archo ef i ti ei wneuthur.' Yno mi a gofiais am fy hen lywodraethwraig Ffolineb, yr hon adawswn yn y figyn ym mysg y gwiberod a'r llyffaint. Felly yr oeddwn yn llawen am gael y fath lywodraethwr; a mi a roiso ddiolch i Ras Duw, yr hon oddi ar y ford a roes i mi damaid idd ei fwyta, drwy gofio i mi fan ysgrifenedig yn y pedwar-ugeinfed Salm o Dafydd: 'Agor dy eneu yn llydan, a mi a'i llanwaf ef.' Gwedy ym' lyncu yr hwn beth a roes hi i mi, myfi a ellyngais y byd yn anghof, ac nid oedd genyf bris am ddim a'r oedd ynddo: can's fy holl ddamuniad oedd weled y Llys o wir Ddedwyddydd yn fuan; yr oeddwn yn damuno angeu, i gael myned at Grist i'r nef. Gwedy darfod cino, pyrth Edifeirwech a agorwyd, y rhai oeddynt gyfyngon, yn wrthwynebus i'r hyn oedd ysgrifenedig yn y llyfr cyntaf; nid amgen, y ffordd yn llydan ac yn ehalaeth i fyned i Lys Gwaelder; ond diwedd y ffordd hōno oedd anobaith a distrywiaeth. Megys, o'r rhan arall, y ffordd i Lys Edifeirwech a sydd gul a chyfyng; ond diwedd y ffordd hōno yw bywyd tragwyddol. Can's Saint Pawl a draethodd: 'Mae Edifeirwech yn arwain yr edifeiriol i gadwedigaeth dragwyddol.'

Gwedy agoryd y pyrth, mi esgynais i fynydd mewn cerbyd o ifori, yr hon oedd â thrwyll o aur, a dau farch gwynion adeinog yn tynu y cerbyd. Gras Duw aeth i fynydd yn gyntaf, ac o'i llaw y nerthodd hi finnau i fynydd. Gwedy

hyny y'm dilynodd y Meudwy Daionus, Deall Da, ac wedi hyny Cofedigaeth, a Chydwybod, ac Edifeirwech; a Gras Duw oedd yn llywodraethu y cwbl. Pan y tarawodd hi y meirch â'i gwialen, hwy a ddrychafysont dros y mynyddau, y rhai ydynt uwch law y ddaiar. Felly ni aethon drwy deyrnas yr wybr, lle yr oedd yr holl ddryg-ysbrydiaid yn trigaw, y rhai oedd-ent yn gwylad i anesmwytho pawb a fai yn drychaif i'r nefoedd. Ac er fy mod yn ofnus, eto fy ngobaith oedd mewn Gras Duw, dan adanedd yr hon yr oeddwn yn ymguddiaw. Nid oeddwn yn ymddired mewn Cydwybod, nac Edifeirwech, nac mewn Deall Da, ond yn unig mewn Gras Duw, yr hon oedd i'm cadw dan ei hadanedd, megys y ceidw y iâr y cwan rhag dyfodiad y barcut. A'r pryd hyny hi a orchymmynodd i'r dryg-ysbrydiaid gilo ymaith; ac yn ddiohir hwy a gilys-ont i'w ffordd dan lefain yn uchel, a dywedyd fal hyn: 'Yr awr hon y collys-om ni ein Marchog; gwelwch, fe esgynodd i fynydd i Lys Rhinwedd o'n hanfodd ni oll.' 'Pwy fodd y diangodd ef?' hebai un. 'Dan adanedd Gras Duw,' hebai y llall; 'o'r hwn le ni allwn ni oll ei gyrchu ef.' Gwedy dianc heibo, mi a rois ddiolch i Ras Duw am ei daioni; ac yn ddisymmwrth mi a welwn ar ben mynydd, lys urddedig; yn gymmaint a bod cariad yn magu cyddnabod, a chyddnabod yn magu ewnder, mi ofynais i Ras Duw pwy lys oedd hōno. Hithau a ddywad wrthyf mai Llys Rhinwedd oedd hi. Yr oedd hi yn uchel, yn cyrhaeddyd hyd y nef; ac o amgylch iddi ydd oedd saith tŵr o alablastr. Yn y cyntaf ydd oedd Ffydd yn trigo. Yn yr ail ydd oedd Gobaith. Yn y trydydd, Cariad perffaith. Yn y pedwrydd, Doethineb. Yn y pummed, Cyfiawnder. Yn y chweched, Grym-uder. Yn y seithfed, Tymmereiddrwydd. Yn y tŵr cyntaf Gras Duw a ddangosodd Ffydd imi, yr hon oedd yn gwylad ein

dyfodiad yno, yn llygos i'r hon, ydd oedd y llys o wir Ddedwyddy. Ar hyny mi ddamunais ar yr Arlwyddes Cofedigaeth fy nghofio y boreu i fyned i weled y dinas urddasol hyny. Erbyn hyny ydd oeddyn ni yn dyfod i Lys yr Arlwyddes Rhinwedd, a'i saith merched, Ffydd, Gobaith, Cariad, Doethineb, Cyfiawnder, Grymusder, a Tym-mereiddrwydd. Ac ar yr olwg gyntaf mi a addnabuo mai yr Arlwyddes hōno oedd Rhinwedd, yr hon a fuasai cyn hyny i'm cynghori, a minnau heb wrando erni. Yno yn uddyf ar fy nglinau, mi a erchais faddeuant iddi, am ym' salwhau ei chynghorau, a dil[yn] Gwaelder. Hithau a barodd ym' gyfodi; ac i arwyddocâu ei bod yn maddeu imi, hi a'm cusanodd, ac a'm grysewodd. Ac felly drwy fawr lawenydd yng nghydmeithias Gras Duw, Deall Da, Cydwybod esmwyth, a gwir Edifeir-wch, ni a ddaethon i Lys yr Arlwyddes Rhinwedd.

Ac fal hyn y terfyna yr ail rhan o'm traigl.

### RHAN III.

Y trydydd rhan o dreigl y Marchog Crwydrad.

#### Y 1. PENNOD.

*Y Marchog yn traethu y mawr ddaioni, y llawenydd, a'r hoffder, yr hwn a gafas ef yn Llys yr Arlwyddes Rhinwedd.*

A bod genyf fil o dafodau i draethu y gwirionedd o'r holl ddaioni a'r hoffder, yr hwn a gafais i yn Llys Rhinwedd; a phei bawn fyw fil o flynyddoedd i ddangos y mater, hyny oll oedd ryfychan i ddyfalu y peth: can's nid ydyw engylion wybyddiaeth (ac yn llai o lawer synwyr dyn) yn abl i ddamgylchynu y fath oruchel urddasrwydd hyny, nac idd ei addnabod; ond yr hwn a'i profodd ef. Chwi ellwch wybod yn wir, nid oes yno,

megys yn y llys o fydol hoffder, ystafell-oedd gwisgedig o lenau sidan ares eu gwaith, a phob man gwedy [ei] addurno yn uchelfalch; nac oes, nac oes; ond yno yr oedd ystoriis o'r Tesment Flen a'r Newydd, i syned arnynt. Ni welais i yno goffrau yn llawn o aur ac arian, cyp-pyrdau llawn plat, pressau yn llawn sidan, na dysgleidiau danteiddiol, na diodydd moethus, na chaniadau anllad, na cherdd-wriaeth ryfygus, nac Arlwyddes y Cariad a'i mab Ciwpit, na dim a'r ydyw y bydol-ion yn eu breicheido. Ond mi a welwn yno bob peth yn rhagori ym mhell bob dim ag a sydd ar y ddaiar yn y byd. Y daioni hyn, y llawenydd hyn, y cynffwrdd hyn, y diddamgylchynedig beth hyn, ni ellir enwi yn ddlyedus ddigon. Ond y rhai da a'r rhai drwg a'i galwant ef Duw; Ef yn uniawn yw y goruchel ddaioni uwch law pob dim. F' allai i chwi ddywedyd: 'E, Farchog! dyma newyddion dyeithr, pan y dywedwch chwi weled Duw yn Llys Rhinwedd.' Pwy ham y bai hyny ddyeithr neu ryfedd, a gwybod bod Duw ym mhob lle, nid yn unig yn y nef, ond hefyd yn y ddaiar, ac yn uffern. Yn wir, yr wyf yn addef bod Duw ym mhob lle, ond yr wyf [yn] ammheu bod Duw yn trigo ym mhob lle: mi wn, drwy ei allu anweledig ei fod ef yn bresennol ym mhob lle, ond nid yng nghyflawnder ei faint ym mhob lle, a'i roddion. Y mae yn canlyn wrth hyn, nad ydyw Ef yn trigo ym mhob lle. Pwy lesiant i'r rhai damnedig ei fod ef yn uffern, drwy ei nerth, ei gyflawnder, a'i ddialedd? Yn wir, er bod Duw yn bresennol felly, nid oes iddynt lawenydd na dedwyddydd o'i blegid; pawb a sydd fell-tigedig, a'r nad ydyw yn trigo yndynt drwy ras, pwy bynag pwy fōnt, ai breninoedd, ai tywysogion, ai pobloedd; er bod gantynt bob rhyw gyfoeth arall a hoffder yn [y] byd, ond pawb a'r a sydd gwedy cael gras a sydd hapus mewn gobaith, be baent mewn carchar drewllyd, a chyn

dloted a Lasarus, yr hwn a ddamunodd gael tori ei newyn o'r briwson oedd yn cwmpo oddi ar ford y gwr cyfoethog. Pan fôm ni yn gweddio ar Dduw, nid ydym yn dywedyd, 'Ein Tad, yr Hwn wyd ym mhob man;' ond, 'Ein Tad, yr Hwn wyd yn y nef.' A dyna y lle y mae y rhai etholedig yn cael gwresgynu a mwyniannu Duw, ac yno y mae y eu trigadle ordeinedig drwy ras Duw. Dyna y lle a ddywad Duw am dano drwy y prophwyd Esai, gan draethu fal hyn: 'Y nef yw fy eisteddle, a'r ddaiar yw fy ystôl draed.' 'Yn gymmaint (medd Duw) a'm bod i yn trigo yn y rhai etholedig drwy ras. Myfi a rof dramgwydd wrth fy nhraed i'r rhai a fo yn caru Gwaelder yn fwy no'u Creawdr.' Yn yr Llyfr o Doethineb y traethir fal hyn: 'Eisteddle doethineb ydyw calon y cyfiawn.' Duw yw'r Doethineb, a'r enaid cyfiawn yw ei eisteddle; Duw a sydd ym mhob lle ag y mae Ef yn trigo, ond nid ydyw Ef yn trigo ym mhob lle ag y mae Ef. Hyn a sydd wir, er ei fod yn rhyfedd. Os y mae y rhai drwg bob amser yn y lle y mae Duw, ac er hyny nid ydynt drigadwyr gyda Duw, na Duw yn drigadwr gyda hwyntau. Y maent lle mae Duw; ond er hyny nid ydyw Duw yn trigo yndynt hwy. Pwy le bynag y bo rhai drwg, ni allant ymguddio oddi wrth Dduw; ac er hyny nid ydynt yn drigadwyr gyda Duw, na Duw yn drigadwr gyda hwyntau. Y maent y lle y mae Duw yn yr un modd ag y mae dyn dall mewn goleu yr haul: nid ydyw y goleu yndo ef, am nad ydyw ef yn cael mwynant y goleu. Ond y rhai daionus a fydd bob amser gyda Duw, a Duw yn drigadwr yndynt, megys yn ei deul. A Duw ei hunan a ddywed: 'Myfi fydd gydag hwynt; Myfi a rodiaf yn eu mysg hwynt, ac a fyddaf Dduw iddynt, a hwyntau yn bobloedd i minnau.' Felly chwi a welwch fod Duw ym mhob lle drwy ei bwer; ac er hyny nid ydyw Ef yn

drigadwy yn un lle, ond yn y lle y mae Ef drwy ras. Y gwirionedd yw, fod Duw yn trigo lle y bo Rhinwedd. Dywedwch imi pwy anfoddlawnder a ddichon yr enaid ei gael yn yr hwn y bo Duw yn trigo drwy ras, yr hwn yw cyfnerth a llawenydd yr holl greaduriaid deallus? Ai ydyw yn bosibl i neb gael yn y nef nac ar y ddaiar y fath oruchel ddaioni ag ydyw Duw, yr hwn yw y daioni mwyaf a gwerthfawrocaf oll? Pwy fodd y dichon y corff ffaelu o un rhyw ddaioni; yr hwn a fo â Duw yn aros yu ei galon drwy ras, yr hwn yw Awdur pob daioni, a Rhoddiawdur pob gwir lawenydd a dedwyddyd perffaith? Bid hysbys ichwi, megys ag y mae yr enaid yn werthfawrocach no'r corff; yn yr un modd y mae daioni yr enaid yn rbagori daioni y corff. Mwy yw llawenydd y rhai cyfiawn o'r tu mewn nog o'r tu allan, o achos bod eu daioni hwynt yn yr enaid, a llawenydd y rhai rhyfygus bydol a sydd o'r tu allan yn y corff. Y dyn cyfiawn a sydd yn goddef molest a thristyd o'r tu allan; ond er hyny y mae o'r tu mewn iddo ef fwy o lawenydd nag yn y dyn gwael. Ac er bod y dyn cyfiawn yn ei drallod bob amser, ac yn ymddangos yn brysur; eto er hyny y mae ei lawenydd ef yn ymddangos pan ddêl awr angeu, drwy obaith am fywyd tragwyddol. Ac yn wrthwyneb i hyny, y bydolion gwaelaidd a sydd yn myned i uffern drwy wytho yn anobeithus. Y dyn cyfiawn nid ydyw yn priso am aur nac arian, ond megys pridd gwedy ei liwio, a chyfoeth bydol, ac enrhydedd, a drychafiaeth, a hoffder, megys mwg a fai yr wybr yn ei ddiffwytho ac yn ei ddarfod yn ddisymmwth. Ac i fod yn fyr, nid ydyw 'ef yn cyfrif y byd yma yn well nag alltudiaeth; ac er bod y corff yn y byd hwn yn aros dros amser; eto ei holl feddylau a'i ddamuniadau a sydd gynnefu ym mysg graddau yr engylion santaidd, a hapus gynnulleidfa y saint yn y nef yn canu salmau a moliant diderfyn. Felly pob peth



ag ydym ni yn ei gymmeryd ac yn ei briso megys yn ddrygoni yn y byd hyn, y mae Duw yn ei droi yn ddaioni; can's y mae Ef yn peri i ni ymlawenhau yn ein trallodau, a'u cymmeryd hwynt megys meddyginiaethau i lanhau ein halogrwydd, ac nid cyfrif ein herlynwyr megys yn gasogion ini; ond yn hytrach yn nerth ac yn gadwedigaeth. Y dyn cyfiawn a sydd yn priso buchedd gymmedrol yn well nog amlder o foethau, a gormoddol fedd-dod neu lothineb; y maent hwy yn cymmeryd mwy o hoffder mewn penlino, gweddïo, ac ymprydio, nag ydy y bydolion yn ei gymmeryd mewn dawnso, neido, a chanu. Ar ei derfynol, pob peth a sydd yn troi yn ddaioni i'r dyn cyfiawn: ac am hyny Saint Pawl a ddywad fod pob peth yn troi yn ddaionus i'r dyn a fo yn caru Duw. Erioed ni welas llygaid, ni chlywas clustau, ac ni ddeallodd calon dyn, pwy gymmaint yw'r llawenydd ydyw Duw yn eu dwyn i'r corff, pan y del Ef drwy ras i drigo yndo. Y bydolion gwaelaidd a sydd yn cymmeryd da y byd hwn yn lle gwir hapusrwydd; megys dyn dall a fai yn cymmeryd arno fedru addnabod lliwiau: can's y maent hwy yn cyffelybu anwiraidd ddedwyddyd a chyfoeth bydol, i gyfoeth a pherffaith ddedwyddyd; yr hyn bethau yn wir nid odynt ond gogysgod: nid oes dim yn anfoddlawnhau y cyfiawn yn fwy no pechod, a'r pethau a fo yn arwain i bechod. Nid oes dim yn boddlawnhau y rhai etholedig ond Duw, a'r pethau a sydd yn arwain at Dduw. Ond am yr enaid, ni ddichon neb ammbheu, o bydd ef yn casu pechodau, ac yn caru rhinweddau, nad ydyw yn well ganto golli yr holl fyd na cholli Rhinwedd; a goddef pob rhyw boenan, na gwneuthur pechod: can's lle mae Rhinwedd, yno y mae llonyddwch; ond lle mae pechodau, nid oes daioni. Am hyny trafaed pawb i golli hapusrwydd bydol, o bydd ef yn bwriadu ennill Rhinwedd, yn yr hwn y mae pob daioni yn aros. Ond nid oes pris gan lawer am Rhinwedd, am nad ydynt yn gwybod beth

yw Rhinwedd. Am hyny y Meudwy Daionus, Deall Da, a sydd yn ei dysgrifo hi a'i saith merched, nid amgen, Ffydd, Gobaith, Cariad, Doethineb, Cyfiawnder, Grymusder, a Thymmereiddrwydd, yn y modd y traethir ar ol.

## Y 2. PENNOD.

### *Dysgrifiad Rhinwedd.*

Saint Awstin, yn yr ail llyfr o Ryddwyllys, yn y ddeunawfed pennod, a ddywad fal hyn: 'Rhinwedd ydyw cynneddfau daionus yr enaid, drwy yr hyn y mae dyn yn byw yn gyfiawn, heb wneuthur drygoni; yr hwn beth yn wir ydyw unig weithred Duw mewn dynion.' Drwy yr enaid (yn y man hyny) y mae Ef yn deall y rhan uchaf o'r meddwl neu yr enaid, yn yr hwn y mae rheswm, barn, ac 'wyllys; y rhan orisaf a alwn ni Deall, yr hwn a sydd gyffredinol i ddyn ac i anifail. Drwy yr enaid (wrth hyny) y deallwn ni ryddwyllys dyn; yr hyn beth ddyweddiad y philosophers, nid ydyw yn ddim amgen ond rhydd farnedigaeth y meddwl a'r 'wyllys. Pan fom ni yn dywedyd Rhyddwyllys, yr ydym yn traethu dau air, nid amgen, rhydd ac 'wyllys. Yr ydys yn ei alw yn rhydd, am ei fod yr 'wyllys yn ddigymhell mewn rhyddid, i wneuthur ei gynnildeb; ac yr ydym yn ei alw Rhyddwyllys, er mwyn barnedigaeth yr enaid; am hyny rhyddwyllys a sydd yn y rhan uchaf o'r enaid. Ac am hyny y mae rhyngom ni wahaniaeth a'r anifeilaidd, y rhai a sydd a deall gantynt megys ninnau; ond nid oes gantynt farnedigaeth rhyddwyllys. Am hyny, pan ddywedom ni mai Rhinwedd yw cynneddfau daionus yr enaid, hyny yw rhyddwyllys; o achos Rhinwedd a sydd yn tymmeru rhyddwyllys, ac yn ei barodhau i wneuthur ac i wyllysu yn ddaionus: yr hyn beth ni ellir ei wneuthur heb gannorthwy a nerth Gras Duw.

Yr ail rhan o'r ymadrodd yw, drwy yr hwn y mae dyn yn byw yn uniawn: ond nid oes neb yn byw yn union, oni bydd ef

yn byw yn gyfion; nid oes neb yn byw yn gyfion heb Rinwedd: ergo, nid oes neb yn byw yn union heb Rinwedd. Y neb a fo yn byw yn gyfiawn, a sydd yn byw yn ddaionus; od erys ef mewn hyn a sydd yn ennill gwir ddedwyddyd. Wrth hyny ni welwn mai Rhinwedd a sydd yn ennill gwir ddedwyddyd; can's Rhinwedd a sydd yn parodhau rhyddwyllys, yr hwn a sydd analluog i feddylid yn dda, nac i wneuthur yn dda, heb gannorthwy Gras Duw, yr hwn a sydd yn llywodraethu Rhinwedd.

Y trydydd rhan o'r ymadrodd ydyw, heb wneuthur dim drygoni, yn yr hwn ydys yn damgylchynu urddasrwydd Rhinwedd a'i mawr ddaioni, drwy yr hwn ni ddichon neb wneuthur drygoni. Dynion a ddichon gam arfer holl ddaioni a holl gelfyddydau y byd, megys yr ydys yn wir yn eu cam arfer yn fynych, megys arian, gwin, a gwragedd. Ond drwy Rinwedd ni cham arferir hwynt byth. Pwy bynag a sydd yn arfer o Rinwedd, ef a wna weithredoedd rhinweddus. Y neb a sydd yn arfer o weithredoedd rhinweddus, a sydd yn gwneuthur daioni. Ac os drwy Rinwedd y gwageli wneuthur drygoni, ti a ddylai fod yn well genyd golli yr holl fyd na cholli Rhinwedd, a'i gweled hithau yn rhagori pob peth a phob daioni yn byd.

Y pedwrydd rhan o'r ymadrodd ydyw hyn; yr hwn beth yn wir ydyw unig weithred Duw mewn dynion. Rhinwedd wrth hyny ydyw gweithred Duw ynom ni, fal y tystoliaetha Saint Awstin ar yr ymadrodd a draethwyd yn y ddeunawfed a chant Salm: 'Myfi a wnaethof farn a chyfiawnder.' Cyfiawnder (medd ef) ydyw mawr rinwedd yr enaid, yn dyfod trwy Ras Duw; yr hwn beth ydyw Ef yn ei wneuthur mewn dyn, ac nid neb amgen. A phan ydoedd y prophwyd yn dywedyd, 'Mi a wnaethof gyfiawnder,' nid ydoedd ef yn meddwl neu yn dywedyd iddo ef wneuthur Rhinwedd cyfiawnder o hano ei hunan, yr hyn a sydd yn rhagori gallu pob dyn idd ei wneuthur: ond ydd oedd ef yn ei

osod i gyd i Dduw, yr hwn ydoedd ef yn gwirionedd fod yr awdurdod a'r gallu ganto. Drwy y geirau hyn a ddywed Saint Awstin, y mae yn amlwg nad ydyw cyfiawnder dyn yn weithredoedd dyn ei hunan, namyn gweithred Duw mewn dyn. Piter Lombard, ar y geirau hyn o Saint Awstin, a sydd yn cytuno ac yn dywedyd nad ydyw Rhinwedd yn peri rhyddwyllys, nac un hoffder o'r enaid yn dyfod o ryddwyllys; ond y mae ef yn dywedyd mai Rhinwedd a sydd yn diffrwytho drygoni, halogrwydd, a gwaelder, ac yn nerthu ac yn cyffro rhyddwyllys i wneuthur daioni. Ac felly chwi welwch mai Rhinwedd (yr hyn, medd ef, ydyw Gras Duw) a sydd yn parodhau yr ewyllys i wyllysu yn ddaionus, a thrwy hoffder yr enaid yn ol hyn, y dawant y gweithredoedd daionus a buchedd puraidd. I beri deall hyn yn amlycach, y mae ef yn rhoi cyffelybiaeth hyn: 'Megys (medd ef) ag y mae y gwlaw yn irhau y pridd idd ei wneuthur yn ffrwythlawnach; ac eto er hyny, nid y gwlaw yw y pridd, ac nid y pridd yw y ffrwyth. Yn yr un modd (medd ef) y bydd yr eneidau, sef yw hyny, rhydd-did ein 'wyllys, y mae y gwlaw o fendith Dduw yn ei dywallt: sef yw hyny, Gras Duw yn ysbrydoli ac yn irhau 'wyllys dyn idd ei wneuthur yn ffrwythlawn i wyllysu yn ddaionus yn ol naturiaeth ysbrydoliaeth Duw, yr hwn ydyw ei Ras ef yn gweitho ynom ni, i'n dwyn i wneuthur daioni. Ac am hyny, yr holl weithredoedd da, y rhai a wnaethom ni, ac a allom ni eu gwneuthur, a sydd yn dyfod o Ras Duw, yr hwn a sydd yn parodhau ein 'wyllys i wneuthur daioni. Y Gras hyny a sydd yn magu chwantau daionus mewn enaid dyn, a'r chwantau daionus ydyw y rhodd benaf gan Ras Duw i ddyn: ac yn enwedig Ffydd i gredu bod Crist yn wir Fab Duw; Cariad perffaith i garu Duw a'n cymmodog. Ac felly yr holl rinweddau ereill, y rhai ydynt ddaionus fagwriaeth a rhoddion Gras Duw yn gweitho ynom i fwyhau rhinweddau er gwresgynu bywyd tragwyddol.

Y mae yn amlwg, am hynny, mai Rhinwedd ydyw rhodd gan Ras Duw, yn gweitho ein wyllys, i beri iddo wyllysu a gwneuthur daioni. Ac am hynny (meddwn i) Ffydd, Gobaith, a Chariad (y rhai ydynt dduwiol rinweddau) ydyw rhadau Duw. Rhai a ddywad mai Rhinwedd ydyw daionus arfer a nerth naturiol mewn dyn, o'r tu mewn yn unig, ac nid o'r tu allan; nid amgen na pherffaith hwantau yr enaid, yr hyn ydyw yn ei annog mewn dyn, ac nid dyn o hano ei hunan; er bod y damuniadau hynny yn debyg i ddamuniadau rhyddwyllys: eto ni allant fêd felly, yn llai nog i Dduw o'i weithrededig ras, santeiddio yr ewyllys, a'i wneuthur yn gyflawn o'r fath hwantau daionus. Y ddau opiniwn neu ymddaliad hynny yr wyf yn eu gosod ym marnedigaeth y darlleawdr, ac yn eu cymmeryd hwy ill dau yn gybelled a y maent yn cytuno: sef yw hynny, mai gweithredoedd Duw mewn dyn ydyw Rhinwedd, ac nid gweithred dyn yndo ei hunan. Ond eto y maent yn anghytuno, am fod y cyntaf yn dywedyd mai cyffrôedigaeth yn yr enaid yw Rhinwedd, am ei fod yn unig weithred Duw, heb ddyn ac o lwyrr ras. Yr ymddaliad arall a sydd yn dywedyd mai Rhinwedd yw damuniad daionus mewn dyn, nid yn dyfod o ddyn, ond o Dduw, fal y mae ef yn weithred Duw mewn dyn. Ni beiddaf farnu yn ffrom mewn peth mor uchelfawr; ac am hynny yr wyf yn symnud at y dysgedig. Digon i nyni wybod mai gweithred Duw mewn dyn ydyw Rhinwedd, ac nid gweithred dyn yndo ei hunan. Ac yn y pwynt hyn, megys y mae y ddau opiniwn yn cytuno, yr wyf yn ei bryfo yn wir.

### Y 3. PENNOD.

*Dysgrifiad Ffydd; a phwy fodd y dlywn ni gredu i Dduw i gael cadwriaeth.*

Ffydd ydyw Rhinwedd, drwy yr hwn y credwn y peth nis gwelwn. Pan fair yn dywedyd mai ffydd yw Rhinwedd, y mae yn amlwg mai Ffydd ydyw peraidd rodd Duw, drwy'r hon y credwn y peth nis gwel-

wn. Ond eto nid credu pob peth a'r nas clywsom ac nas gwelsom; ond credu yn unig y pethau a sydd yn perthynu i ffydd Iesu Grist, a gwir addoliaeth Duw. Nid ydyw ffydd y[n] berthynus i bethau amlwg, o achos pethau gweledig amlwg, nid rhaid iddynt Ffydd, ond y gwelediad amlwg: megys pan ddywad yr Arglwydd wrth Tomas: 'Am i ti weled y credaist.' Eto Tomas a gredodd mwy nag a welodd; can's fe welodd ddyn, ac fe gredodd fod y dyn hynny yn Dduw hefyd, yr hwn nis gwelodd; os fe ddywad, 'Tydi yw fy Nuw a'm Harglwydd.' Mewn hyn y mae haeddeditigaeth ffydd yn sefyll, nid amgen no phan fo dyn (drwy orchymmyn Duw yn credu y peth nas gwelas. 'Cred (medd Saint Awstin) ydyw tybied am y peth a fo yn cytuno â meddwl; megys pan fych yn tybied geni Mab Duw o Forwyn wry, ac iddo gymmeryd naturiaeth dyn am dano; ac yn cytuno â'r meddwl hynny; dyna grediniaeth briodol. Y meddwl hynny a ddichon ddyfod yn fynych drwy weled, ac yn fynych drwy glywed. Ac am hynny Saint Pawl a ddywed: 'Ffydd yn gyffredinol a ddaw trwy glywed, a chlywed a ddaw trwy air Duw.' Ydd oedd ef yn deall mai trwy glywed y daw ffydd i'r meddwl, os byddem ni yn cytuno â hynny; ni allwn edrych ar y pregethwr, heb gytuno â'r peth a fo ef yn ei draethu; o achos nad ody dynion bob amser yn credu y peth a fo y pregethwr yn ei draethu. O achos y cytundeb, yn yr hwn y mae perffeiddwch ffydd yn sefyll, a sydd yn dyfod o buraidd rodd Duw, ac nid o weled na chlywed; ond o oleuni Gras yn dywedyd yn enaid y credadyn, yn credu y gwirionedd penaf, yr hwn yw Duw, ac yn gweitho yndo ef gytundeb â'r gwirionedd penaf uwch law pob peth arall. Felly ffydd yw sylfaen disymmudedig i'r ffyddlon ac i'r gwirionedd, drwy yr hon ffydd, pan fo hi yn gyssylltedig â chariad perffaith ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yw sylfaen gwir santeiddrwydd a drig yng nghalonau y rhai credadwy. A'r hyd y bo ffydd mewn dyn, fe all fod yn sywr

na chyfrgollir ef byth. Ond ffydd heb gariad, nid ydyw yn sylfaen, am fod y fath ffydd hyny yn ofer ac yn ddimwynant. Ffydd gyssylltedig â chariad perffaith a sydd yn berthynus i'r Crist'nogion daionus; a ffydd heb gariad a sydd berthynus i'r Crist'nogion drwg. Y mae yn angenrheidiol am hyny i ni syned ar y gwahaniad a sydd rhwng y tri dywedydiad hyn, neu ymadroddion, nid amgen, credu Duw, credu o Dduw, a chredu mewn Duw. Credu o Dduw yw credu bod bob dim yn wir ag a ddywad Duw: ac y mae y Crist'nogion drwg yn credu felly, yn llai eu bod hwynt yn eriticiaid. Credu Duw yw credu ei fod ef yn unig yn wir alluog Dduw. Ac felly y mae y diawlaid yn credu yn gystal a'r Crist'nogion drwg. Ond credu mewn Duw yw caru Duw, ymddired mewn Duw, a thrwy gredu, dy gysylltu dy hunan â Duw drwy gariad ac ufudd-dod, a'th gydgorffoli dy hunan â'i aelodau Ef, sef ynt yr Eglwys. Dyna ffydd a sydd yn cyfiawnhau y pechadur; dyna ffydd yn gyssylltedig â chariad a sydd yn dechreu gwneuthur gweithredoedd da, y rhai ni ellir eu gwneuthur heb gariad. Y ffydd yr hon a sydd gan Grist'nogion drwg yw naturiaeth o ryddwyllys; ond nid yn gyssylltedig â chariad perffaith, yr hwn yw rhwym perffeiddwch, a bywyd y ffydd, fal y mae y ffydd yn fywyd yr enaid. A'r fath ffydd hoeth hyny a ellir ei galw yn rhodd Duw: os fe ddichon y dyn drwg gael peth rhodd gan Dduw; ond ni ellir galw hyn yn briodol yn rhinwedd, o achos mai drwy rinwedd yr ydym ni yn dysgu byw yn uniawn. Ac am fod y diawlaid, a'r Crist'nogion drwg, yn byw mewn drygoni, hyny a sydd yn arwyddocâu bod eu ffydd hwynt yn farwol, ac am hyny nid ydyw yn rhinwedd briodol, nac yn weithred rhinwedd. Os myni fod dy ffydd yn ddaionus ac yn iachus, rhaid yw bod yndi bedwar rhyw natur, nid amgen, rhaid iddi fod yn blain ac yn ufudd, yn gyfan ac yn iach, yn ddianwadol ddisymmudedig, yn fywiog ac [yn] fywiol.

Am y natur cyntaf, sef ydyw plain ac ufudd, hyn a ddengys iti fod yn rhaid i ti gredu gair Duw yn ufudd ac yn blain, a phob dim ag a sydd yndo, heb ymfyn na chwilo niwlogion fateroedd Duw, drwy resymau dynol: ond yn ufudd credu yn dy galon fod pob peth ag a sydd yn yr Ysgrhythyr Lân yn wirionaid.

Am yr ail mater, sef ydyw, bod dy ffydd yn gyfan ac yn iach; ni ddylid di gymmeryd cyfran o ffydd yr eriticiaid, na gorbwyso at ddrwg opinionau gelymion gwirionedd Dduw: can's nid ydyw hōno yn ffydd dda iachus. Ac am hyny, er mwyn tystoliaethu beth yw dy ffydd, na fid arnad gywilydd er addef dy ffydd ym mysg y gynulleidfa yag nghydymethias y saint; a dywedyd, 'Yr wyf yn credu yn y bendigaidd Drindod; megys y mae yr Eglwys santaidd (yr hon a adeilwyd drwy Grist, ar yr hon y mae Ef yn bwn) yn dangos gosod fy ffydd.'

Am y trydedd naturiaeth, sef ydyw, bod dy ffydd yn ddianwadol ac yn ddisymmudedig, hyny yw, bod yn ddiogel ac yn ddiogel mewn profedigaethau; ac er dy fwgwth o ffyn ne angeu, na'th dyner i hofran, er un rheswm ag a fedro amhenydd dyn ei ddychymmygu. Ac na ad i wrthgasedd y neb a fo yn ceiso dy swynogli di a'th hudoliaethu drwy ofer hoffder y byd hwn, er ei fod ef yn byw mewn llawenydd, allel dy dwyllo i orbwyso at ei opiniwn ne'i ymddaliad ef; can's hyny a sydd anffyddlon, a gweithred Satan yw, yr hwn a sydd yn ei newidio ei hunan yn rhith angel goleuni, i dwyllo y rhai gwirion; y rhai ydyw Duw yn goddef eu profi, er gweled eu diogelrwydd dianwadol. Ac pe bain ni yn yr amser diwaethaf, y pryd y bydd llawer rhyw o gredau, a rhinwedd y gwirionedd yn llawer lle gwedy ffaelu; eto gedwch yn' wrando beth a ddywad ein Harglwydd a'n Ceidwad: 'Y neb a greto fed y diwedd, a fydd cadwedig.'

Am y pedwrydd natur, sef yw, bod dy ffydd yn fywiog ac yn fywiol; hyny yw, rhaid iddi fod yng nghyd â chariad perffaith,

yr hwn yw bywyd y ffydd; megys y mae yr enaid yn fywyd i'r corff. Ac am hyny, na thwylla dy hunan, megys ag y mae rhai yn gwneuthur, drwy ddywedyd, 'Y mae genyf Ffydd, ac mi fyddaf gadwedig, pa beth bynag a hapio.' Nag e, nag e; bid hysbys iti, oni bydd dy Ffydd gwedy ei bywhau â chariad perffaith, ni thâl hi ddim. Ac am hyny y mae yn analluogi ennill neu i gael gwir sant-eiddrwydd; megys y mae Saint Pawl yn ei ddangos yn yr Epystyl cyntaf at y Corinthiaid, y trydedd pennod ar ddeg. Yn yr un modd, pan ydoedd ein Harglwydd yn yr Efengyl yn rhoi gallu cadwriaeth i nydd, a Saint Pawl cyfiawnhâd; hyny a sydd raid ei ddeall, nid angen, bod y Ffydd hõno yn santaidd, yn fywiol, ac yn efengylaidd, yn gweitho drwy gariad perffaith. Yn yr un modd, ein Harglwydd a'n Ceidwad a ddywad yn yr Efengyl, 'Y neb a greto, ac a fyno ei fedyddio, a fydd cadwedig.' Hyn a sydd idd ei ddeall, mai y fath ffydd ag ydyw cariad perffaith yn ei bywhau ydyw hõno. Yr Ysgrhythyr Lân mewn llawer o leoedd a sydd yn traethu na byud neb cadwedig yn llai nag iddo gadw gorchymynion Duw. Ni all neb gadw y gorchymynion heb gariad perffaith. Felly ni all neb fod yn gadwedig heb gariad perffaith. Yr holl swm yw hyn: y neb a ymwrthoto â phechod a drygoni, ac a freicheido fywiol ffydd, ac a fo byw mewn cariad perffaith, ni ddichon hwnw gyfrgolli; ond fe gaiff yn y diwedd wir, perffaith, a thragwyddol ddedwyddyd ym mhreniniaeth nef.

#### Y 4. PENNOD.

*Dysgrifad Gobaith, a phwy fodd y dlywn ni obeitho mewn Duw Hollalluog.*

Gobaith yw rhinwedd, drwy yr hyn pob un o'r ddau, daioni ysbrydol a thragwyddol, a obeithir am danynt. Ac megys ag y mae Ffydd am bethau heb eu gweled; yn yr un modd y mae Gobaith hefyd. Can's Saint Pawl a ddywed, 'Gobaith, yr hyn a welir, nid gobaith ydyw, am ein bod yn wresgynol

o hyny yn barod. Cyffredinol yw i Ffydd a Gobaith fod am beth heb ei weled; ac er hyny, y mae Gobaith yn neillduo oddi wrth Ffydd, nid yn unig mewn Duw, ond hefyd mewn rheswm: can's drwy Ffydd ni gredwn yn gystal bethau drwg megys pethau da, fal nef ac uffern. Ni gredwn hefyd fod cariad perffaith yn beth daionus. Y rhai'n oll da a drwg, ni gredwn eu bod: ond ein Gobaith a sydd yn unig am bethau daionus, ac nid am bethau drwg. Ffydd a sydd am bethau aeth heibo, am bethau a sydd, am bethau a ddaw. Can's ni a gredwn anghy Iesu Grist, yr hwn aeth heibo: nynei a gredwn hefyd ei fod Ef yr awr hon yn eistau ar ddeheulaw Duw Dad yn y nef: ac ni gredwn y daw Ef odd yno i farnu byw a meirw. Ond drwy eich cenad, yr wyf yn tybied mai Gobaith am bethau presennol a sydd fal hyn. Yr wyf yn gobeitho fy mod mewn arbediaeth gyda Duw. Ac am bethau a aeth heibo, fal hyn: yr wyf yn gobeitho bod Duw gwedy maddeu imi fy mhechodau. Ac am bethau a ddaw, fal hyn, yr wyf yn gobeitho caffael bywyd tragwyddol. Digon i'r dyn obeitho, a fo yn credu ac yn caru Duw; ymddired yn hollol y rhy Duw o'i ras a'i ddaioni iddo ef bob peth ag a addawodd idd ei etholedigion, drwy obaith ei fod ef yn un o'u rhifedi hwynt. Ac felly, rhaid yw bod genym ymddired diogel, gwybyddus, yn ein cadwriaeth, yn gymmaint a bod Gobaith yn edrych ac yn gwylad am ddaioni ysbrydol a thragwyddol. Rhaid i ni ddeall fod dau beth mewn gobaith: un yw Duw ei hunan, a'r mwynant perffaith a sydd o fod yn ei wydd: a'r nall yw, y moddion angenrheidiol i ddyfod i gael mwynant o Dduw, a'i weled yn amlwg ac yn ddysglær. A'r moddion hyn ydyw, maddeuant am ein pechodau, cyfiawnhâd, nerth gras Duw, ffydd ddidwyll, gweithredoedd trugarog, a chytundeb â Duw. Yn awr, pob peth ag ydym ni yn ei obeitho, ni a ddlywn yn dduwiol weddio ar ei gael gan Dduw; megys cael ei deyrnas Ef, maddeuant am ein pechodau, ein cyfiawnhau, rhag-

oriaeth o ras a rhinwedd, gweithredoedd, ffydd, a chariad perffaith. Ond am dda bydol, fe ellir eu harfer hwynt yn ddrwg ac yn dda; fe ellir dywelyd eu bod hwynt yn fwy o rwystr ar gadwriaeth enaid nag o nerth. Ac am hyny ni ddylly Criston daionus ofyn na chwennech gormod o honynt: ond eto cymmaint ag a fo angenrheidiol idd ei wasanaeth, ac i geiso ymborth iddo, fe ddichon ei ofyn yn gyfreithus. Ond cofiwn y wers hon, a dysgwn hi; sef ydyw, bod yn angenrheidiol i ni wneuthur gweithredoedd da, fal y bo boddlon gan Dduw ein cyfoethogi o dda, yr hwn dda a ddylir eu gosod a'u traefo yn ddaionus. Ac i Dduw yn unig y perthyn haeddledigaeth y gweithredoedd y rhai a wnaetho Ef ynom ni: can's ein holl weithredoedd da ni ydyw rhoddion Duw, er nad ydyw Ef yn amneheu ei ras i nynt, drwy yr hyn yr ydym ni yn cytuno ar wneuthur y gweithredoedd da, yr hyn ydyw Ef yn unig ya eu hannog ynom ni. Ac am hyny, pob dyn o'i holl nerth a ddylly wneuthur gweithredoedd da, gymmaint ag a allont fwyaf, a gwybod eu bod yn dyfod o Dduw, yr hwn yw athro pob gwaith da, a hebdo Ef nid ydym abl i feddwl yn dda, nac i wneuthur daioni; ond gobeitho cael myned i'r nef drwy wneuthur drygoni, heb wneuthur gweithredoedd daionus i'n impo o uniawn ffydd; nid gobaith ydyw heno, ond ewnfalchder. Ac am hyny, tydi a ddlyy y dy gymhell dy hunan i wneuthur gweithredoedd da, drwy obaith dy fod di a'th weithredoedd yn gymmeradwy gan Dduw. Ond er hyny, nac ymddiried i'th haeddledigaeth, nac i'th weithredoedd dy hunan; ond yn hollol i fawr gariad a daioni Duw. Can's o gwnei di amgenach na hyny, yr wyd yn syrthio dan felltith yr hyn a ddywad y Prephwyd, gan ddywelyd: 'Melltiagedig a fo y dyn a ymddireto mewn dyn, a dedwydd yw'r dyn a ymddireto mewn Duw.' Nynt a ddlyen bob amser wneuthur daioni, a doddi ein hoffder mewn daionus weithredoedd, a gobeitho mewn daioni Duw, fal y rhoddo Ef ini y

pethau addawodd Ef eu rhoi. Ond y gobaith hwn a ddlyy fod yn gryf ac yn ddianwadol, megys angor i ddala ein cydwybod, fal na bai lif profedig[aeth] yn cyffro dim arno. Rhai a ofyn pwyl fodd y tystoliaethir bod y cydwybod mewn diogel lonyddwch am fadd-euant pechodau drwy ddewisiad Duw, a'i Santeiddrwydd nefol. Mi atebaf fal hyn: Saint Iefan a ddywad, 'Y mae tri pheth yn rhoi tyst ar y ddaiar; nid amgen, ysbryd, dwr, a gwaed.' Y tri hyny a sydd yn tystoliaethu i ysbryd y dyn credadwy, fod Crist yn wirionedd diffaeledig, yr hwn a sydd yn cyflenwi yn y dyn credadwy gwbl o'i holl addewidion. Felly y tystoliaetha y cyntaf, ag a sydd yn diogelhaul dyn mewn gobaith yw gwerthfawr waed ein Harglwydd a'n Ceidwad Iesu Grist, yr hwn a ollyngwyd er rhyddhau dynion o'i pechodau. Yr ail tystoliaeth ydyw y dyfwr bedydd, drwy yr hwn y maddeuwyd i ddynion eu pechodau: ond nid ydyw y ddau dystoliaeth hyny yn doddi y cydwybod pechadurus mewn cyflawn obaith perffaith diogel; ac am hyny rhaid yw doddi atynt hwy y trydedd tystoliaeth, sef ydyw hyny, yr Ysbryd Santaid, yr hwn a sydd yn dwyn tystoliaeth gyda ein hysbryd ninnau, ein bod ni yn feibion ac yn etifeddion i Dduw. Y neb ni bo y tyst hyny ganto, ni ddichon ef fod mewn diogelrwydd am geidwadigaeth gweithredoedd yr Ysbryd Santaid mewn dyn, a sydd yn dwyn tyst fod yr Ysbryd hyny mewn dyn. Os gofyni di imi pwyl weithredoedd yw y rhai hyny, mi a ddywedaf wrthyd, mai y rhai hyn ydynt, a'r fath hyny, nid amgen, ymosidid am bechu, casau pob peth ag a anfodlonhao Dduw, ac a fo gwrthwynebus idd ei orchymnyion Ef; cymmeryd hoffder mewn darllain a gwrando gair Duw, tristau am ein hamherffeiddwch, ac am fychaned ein ffydd, ein gobaith, a'n cariad perffaith, ac am fychaned ein hwant, a'n damuniad, a'n bwriad i garu Duw yn fwy no dim, ac i wneuthur ein holl allu i gadw ei orchymnyion. Ond yr holl bethau hyny nid impan' allan o halog

naturiaeth dyn, yn llai na bod y meddwl a'r galon gwedy eu hirhau o gwlith gras Duw. Ni chlywn ynom ein hunain (heb ras Duw) ddim bwriad na hwant gwneuthur gweithredoedd da, y rhai ydynt arwyddion bod yr Ysbryd Glân gyda ni; ac am hyny ni a ddlywn (drwy ucheneido a chwynfan) weddio ar Dduw, a deisyf arno yn uddyf, fod yn wiw ganto, o'i fawr drugaredd, ddanfôn i ni ei Santaidd Ysbryd, yr hwn a ddichon ein diogelhau ni am faddeuant o'n pechodau, a'n galw ni idd ei nefol ddewisiad, i fwyniannu tragwyddol santeiddrwydd.

Ac fal hyny o blegid Ffydd a Gobaith. Traethwn bellach o Gariad.

#### Y 5. PENNOD.

*Dysgrifiad Cariad Perffaith, a phwy fodd y dylwn ni garu Duw a'n cymmodog.*

Cariad yw Rhinwedd, drwy yr hyn y cerir Duw er ei fwyn Ef ei hunan; a'n cymmodog er cariad ar Dduw, neu er cariad mewn Duw. Yn y rhan gyntaf o'r ymadrodd y traethwyd mai Rhinwedd yw Cariad. Gedweh in' wel-ed am hyny, fod Cariad yn benaf Rhinwedd ag a sydd oll, ac yn fam a'mammaeth y rhinweddau ereill oll: can's y neb a sydd heb Gariad yndo, nid oes yndo ddim i ennill bywyd tragwyddol. Y Cariad hyn a rodia pan y rhodder yr Ysbryd Santaidd; can's yr Ysbryd Santaidd, pan fo Ef yn drigadwy yn yr enaid, a bair ini garu Duw er ei fwyn ei hunan, a'n cymmodog er mwyn cariad Duw. Caru Duw er ei fwyn ei hunan ydyw ei garu Ef er mwyn ei Dduwoliaeth ei hunan, ac am ei fod yn Dduw: a hyny a sydd idd ei wneuthur mewn tair ffordd; nid amgen, caru Duw uwch law pob peth yn anwyl, uwch law pob peth yn weddus, ac uwch law pob peth yn wyrthfawr. Nyni a draethwn am y tair ffordd hyn yn amlycach, fal y gallo pob dyn wybod pwy fodd y bo iddo ef garu Duw.

Caru Duw yn anwyl yw bod wyllys da at Dduw, a bod yn llawenhau am ei fod Ef y fath un ag ydyw yn wir. Ond er mwyn

rhagor wybyddiaeth, nid oedd gam ini ddangos beth yw cariad. Cariad ydyw damunodaioni i bob rhai, megys pan fwyf fi yn caru dyn, yr wyf yn damuno daioni iddo megys ym' fy hunan. Y mae dau ryw Gariad. Un yw cariad trachwantus, fal pan fo dyn yn caru rhywbeth er ennill neu hoffder iddo ei hunan: ac felly y mae dynion yn caru eu meirch, neu eu trwyddyd, a phob angenrheidrwydd bydol. Y cariad arall a elwir Cariad o draseiddrwydd, neu o wyllys da, fal pan fo dyn yn caru peth er ei fwyn ei hunan, heb briso am ei ennill neu ei hoffedd ei hunan; megys pan fwyf yn gweled gwr doeth rhinweddus, y mae genyf hoffder yndo, ac yr wyf yn damuno i'r rhinweddau a sydd yndo barhau ac amlhau yndo ef. Ac felly y gwnaf, am fy mod yn wyllysu daioni iddo, ac yn [ei] garu ef drwy hoffder. Nid oes dim daioni mewn Duw nad ydyw yn debyg iddo ei hunan, o achos ei allu, ei ddoethineb, ei gyfiawnder, ei drugaredd, ei gyfoeth, a'i ddaioni, a sydd nefol, fal y mae Ef ei hunan, yr Hwn a sydd oll yn ddoeth, oll yn drugarog, oll yn gyfoethog, ac yn ollalluog. Felly yr ydym ni yn caru Duw yn anwyl uwch law pob peth, pan ydym ni yn llawenhau am ei fod Ef y fath un ag ydyw yn wir; heb briso am ein hennill neu ein hanrhydedd ein hunain.

Ni ddylŷ di garu Duw o gariad trachwantus; sef yw hyny, ni ddylŷ di garu Duw yn unig er mwyn ei fod Ef yn rhoi pob peth ennillfawr i ti. Os o wneuthur felly, yr wyd yn dy garu dy hunan yn fwy nag yr wyd yn caru Duw. O ceri di Dduw yn uniawn, ti a gai fawr daliad ganto ef: ond rhaid i'r cariad hyny fod yn wirion ac yn buraidd. Y neb a fo yn caru Duw er mwyn ei ennill, nid ydyw yn ei garu Ef ond megys ei farch, yr hwn a sydd hoff ganto, am ei fod yn gwneuthur gwasanaeth iddo. Duw a ddylŷ ei garu yn gariadus, heb briso am ennill neillduol. Ond ti elli ofyn gofyniad imi, 'Oni allaf fi garu Duw er mwyn iddo Ef roi

nef i minnau gwedy hyny, neu dros hyny, yr hyn ydyw y peth goreu ag a ddichon dyn ei ddamuno ar ol y bywyd hwn? Y doctoriaid a ddywed, 'Nag e, o deallwn ni yn dda pwy beth ydyw yr hwn ydym ni yn ei garu, sef ydyw Duw. Os o wneuthur felly yr wyd yn dy garu dy hunan yn fwy no Duw. Os ti a elli gael nef yn y moddion hyn, nid amgen, drwy gadw ei orchymynion Ef, a rhoi cardodau, a gwneuthur gweithredoedd daionus ereill; ac eto rhoi i Dduw ei ddylydedus buraidd gariad. Y pethau hyny nid ydynt gariad eu hunain, ond gweithredoedd cariad. Ni a ddywedwn am hyny, mai Duw a ddylyür ei garu drwy wneuthur gweithredoedd daionus, a thrwy gadw ei orchymynion. Ond y cariad hyny a ddyly fod yn anwyl gariad, heb briso am ennill neu daliad.

Caru Duw yn weddus uwch law pob peth yw, iti dy osod dy hunan a'th holl gyfoeth dan law Duw. Pob peth ag a gerych, a wyllysyh, a wnelych, ac a edych heb wneuthur, ti a ddyly eu caru, wyllysu, gwneuthur, a gadael heb ei wneuthur, er mwyn cariad Duw a'i ogoniant. Felly, drwy osod pob dim i anrhydeddu Duw, ac idd ei ogoneddu, yr wyd yn caru Duw uwch law pob peth yn weddus, ac yr wyd yn cyflawnhau cymmaint ag a sydd perthynus iti ei wneuthur yn ol dy allu. Y mae yn ysgrifenedig yn Deteronomie ac yn Saint Mathe fal hyn: 'Tydi gery dy Arglwydd Dduw o'th holl galon, o'th holl enaid, ac o'th holl nerth.' Beth amgen ydyw caru Duw o'th holl galon, o'th holl enaid, ac o'th holl nerth, ond gosod pob peth i Dduw ac idd ei ogoniant Ef; ein holl feddylau, ein holl eiriau, ein holl weithredoedd, ein holl ffyrdd, ein holl fwriadau? Ac felly caru Duw yn weddus yw i ni osod ein hunain i Dduw a'i ogoniant, oll a sydd o fewn ac o faes ini; yr hwn beth ni allwn ei wneuthur, yn llai na bod ein meddylau, ein geirau,

ein gweithredoedd, a'n ffyrdd, yn ddaionus, ac yn gymmeradwy gan Dduw.

Caru Duw yn wyrthfawr yw ei garu Ef mor anwyl ac mewn cymmaint gymmeriad, ag na fynid er dim yn y byd ei golli Ef, na'i gariad, ond damuno yn gynt golli dy holl dda, dy holl dir, dy aelodau, dy fywyd, a chariad yr holl fyd. Yn y modd hyn yn wir y mae caru Duw yn gariadus, pan fôm ni heb briso ein hennill, yn gosod i Dduw a'i ogoniant, y maint oll a fo genym ni, ein calonau, ein dwylaw, a'n gwefusedd, idd ei fawrhau Ef, ac i ddodi allan urddasrwydd uwchder ei ogoniant a'i allu. Caru Duw er ei fwyn ei hunan yw ei garu ef am ei fod yn ddaionus; a'r neb a garo Dduw yn y modd hyny, bid hysbys iddo na ddygwydd arno ddistrywiaeth byth.

Caru dy gymmodog: gorchymynedig yw i ti ei garu ef mewn Duw, neu er mwyn Duw. Rhaid iti ddeall mai pob dyn yw dy gymmodog, pan gallo y naill ai tydi iddynt hwy, ai yntwy i tydi, ddangos trugaredd, cyfnerth, neu gannorthwy. Felly pob creadur rhesymol a sydd gymmodog iti, pwy bynag b'le y bo ef yn trigo yn yr holl fyd. Felly y mae y saint yn y nef yn gymmodogion iti, drwy ddangosiad y rhai y'th nerthwyd ac y'th ddangoswyd i fywyd dduwiol; ac am hyny, ti a ddyly eu caru hwynt, a holl hiliogaeth dyn, er mwyn Duw, neu mewn Duw. Tydi a ddyly garu dy gymmodog am ei fod ef yn ddaionus, neu am ei ddyled ef [i] fod yn ddaionus. Ac felly, yn wir, yr wyd yn ei garu ef er mwyn Duw. Ti a ddyly garu pob dyn ag a sydd bechadur, nid am ei fod yn bechadur, ond am ei fod ef yn ddyn. Er mwyn cariad Duw, tydi a ddyly garu yn y dyn pechadurus y peth ydyw ef yn ei gasäu, a chasäu y peth ydyw ef yn ei garu. Y dyn pechadurus a gar bechod, halogrwydd, a drygoni, yr hyn a ddyly di ei gasäu. Y dyn pechadurus a gasä ei enaid, a phureidd-der naturiaeth, yr hyn a ddyly di ei garu; os y mae



pechod yn erbyn natur, yn halogi natur, yn darestwng natur, ac yn diffodd natur; a'r neb a wnel bechod i ladd ei enaid ei hunan, ac i waethygu ei natur.

Tydi, am hyny, a ddylŷ garu enaid a naturiaeth y pechadur, ond nid y pechod. A phan roddych gardod i bechadur, yr hwn a fo mewn eiseu, ni ddylŷt ti wneuthur felly am ei fod yn bechadur, ond am ei fod ef yn ddyr, ac o'r un naturiaeth ag ydd wŷd tithau. Rhai y[n]t yn drasau, rhai yn gasogion: dy drasau a ddylŷd ti eu caru mewn Duw, rhag iti (os cery di hwynt mewn modd arall) anfoddlawnhau Duw. Ti a ddylŷ garu dy gasogion er mwyn cariad Duw. Ac o gwna dy gas i'th erbyn, ar air neu weithred, ac edifarhau, a erchi maddeuant iti, ti a ddlŷ (er mwyn cariad Duw) faddeu iddo ef o'th holl galon, a'i dderbyn ef i wir draseiddrwydd a chydymeithias eilwaith. O bydd dy wrthwynebwyr yn wrthgas, a heb beido â'th herlid, a'th drallodi, er na ellych yn bresennol faddeu iddo, eto ni ddlŷ ei gasau ef, ond yn gynt gwneuthur daioni iddo ef, ac yn enwedig y pryd y bo yn edifarhau, a bod bob amser yn barod i faddeu iddo, pan geiso ef faddeuant, ie, ti a ddlŷ wneuthur iddo ef y daioni mwyaf ag a ellych yn ei angenrhaid.

Wrth yr hyn a draethwyd o'r blaen, y mae yn ddangosedig y dlŷ di garu pob dyn byw, da a drwg, trasau a chasogion, yn gymmaint a thi dy hunan. Ein Harglwydd a'n Ceidwad, yn y seithfed o Fathau, a ddywad fal hyn: 'Pob peth ag a fynid i'th gymmodog eu gwneuthur i tydi, gwna dithau yr un modd iddo yntau.' Am hyny y neb a wnel idd ei gymmodog fal y mynai idd ei gymmodog wneuthur iddo yntau, a sydd yn caru ei gymmodog megys ef ei hunan. Ond hyn a sydd raid ei ddeall yn gyfunol â Duw ac â rheswm, os, o daw un a chynnyg y'th foddlonhau, ddyfod o herlodes bert i gysgu gyda thi, neu roi benthg cleddyf it' i ymladd ac i ladd

arall; Deall a ddengys iti y dlŷyd di wrthod y cynnygion hyny. Felly Cariad cyfun â Duw a ddengys iti ufudd-dod, a hyny a ddyly fod yn rheol i'th fywyd, ac yn oleuni i'th arwain, ac i'th gyfrwyddo mewn lleoedd tywyllon.

Ac wrth hyny y dangosyson yn fyr pwy fodd y dlŷyd dyn garu Duw a'i gymrodog. Bellach ein bwriad yw, dangos naturiaeth a iawn ganmoliaeth Cariad Perffaith.

#### Y 6. PENNOD.

##### *Canmoliaeth a Ffrwyth Cariad Perffaith.*

Nid oes tafod yn y byd a wŷr draethu yn wirionedd holl urddasrwydd, ffrwyth, a chanmoliaeth Cariad Perffaith: can's yn gyntaf dim oll, Cariad a wna ddynion yn blant i Dduw, ac yn etifeddion o nef. Yn gyfun â dywedydiad Saint Iefan: 'Synwch pwy gariad a ddangosodd y Tad ini, i'n gwneuthur yn blant i Dduw.' Saint Pawl a draethodd hefyd: 'Yr holl rai ag ydyw Ysbryd Duw yn eu harwain, plant i Dduw ydynt. Nid erbynysoch Ysbryd caethiwed i ofni dim mwy, ond chwi erbynysoch Ysbryd y dewisiad, drwy yr hwn y llefwn Abba, ein Tad; a'r Ysbryd hyny (yr hwn yw Ysbryd Cariad Perffaith) a sydd yn tystoliaethu gyda ein hysbryd ninnau, ein bod ni yn blant ac yn etifeddion i Dduw, ac yn gyd-etifeddion â Christ.' Eif allwn ni ddamuno peth urddedicach na bod yn blant i Dduw, ac yn etifeddion o'r nef? Pwy enhydedd yw hyny ini fostio am dano? Y neb a fo â gwrandawriad Cariad Duw yn eu calonau, a sydd ag ewnder a gwres ddigon ynddynt, a bod y byd yn eu heuocâu hwynt. Can's hyn a sydd wybyddus, y rhai a fo'r byd yn eu casâu, nid plant y byd ydynt, ond plant Daw. Ac yn erbyn hyny, y rhai a fo y byd yn eu caru, plant y byd yn wir ydynt, ac yn yr un mold plant y diawl eilwaith. Cariad a sydd yn gweithio yr achos ynom. Y mae Duw yn trigo ynom ni. Saint Iefan a draethodd: 'Y neb a fo yn trigo mewn Cariad Perffaith, a sydd yn trigo mewn Duw, a Duw yndo yntau.' Ein Harglwydd

Crist a ddywad : 'O car dyn Fyfi, a chadw fy nghorchymmynion, fy Nhad a'i car yntau, ac Ni a Jdown ac a drigwn gydag ef.' Ei allwn ni ddamuno cael un llettywr cyfoethogach a haelach nag Efo? Ai odyw yn debyg i lettywr mor gariadus a hwnw adael yr enaid mewn eiseu? Ai gais Ef arian draul? Na wna; nid ydyw Ef yn dyfod i drigo gyda ni, i droelo y peth a fo genym, ond i amlhau ein cyfoeth, ac i fywhau [fwyhau] ein hystôr.

Yn drydedd, Cariad a wna ein cyfoeth, gynnag p'un a fo genym ai ychydig ail llawer, yn gymmeradwy gan Dduw. Cariad a bair i ddyn euocâu y byd, a bod yn llawen mewn tralodau a phrofedigaethau. Pan ddél Cariad ac entro yn yr enaid, y mae ef yn dwyn gydag ef bob daioni, ac y mae ef yn [ein] clymu ni yn undeb â Duw. Cariad a wna ddynion yn yr un feddwl ac yn yr un wyllys. Cariad a bair i ddynion wella eu harferion, a nesâu at Dduw. Cariad a bair galon lân buraidd, yr hon a ddichon ddeall a gweled pethau nefol. Drwy Gariad y llywodraethir da y byd hwn yn weddus. Drwy Gariad, dirgelwch Duw a welir. Saint Ieuan a ddywad : 'Duw yw Cariad :' drwy yr hyn eirau yn ddiddau yr oedd ef yn meddwl y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn Dri Undod : Duw y Tad yw Cariad, Duw y Mab yw Cariad, Duw yr Ysbryd Glân yw Cariad. Y Cariad hyn a ddilufod yn buraidd, fal y gelych drwyddo ef, megys drwy ysbrydol undeb, dy gydio dy hunan wrth Dduw, a bod yn ewn i ymddyddan â Duw yn ddiöfn. Y neb ni charo yn berffaith a gyll ei fywyd, a'r neb a garo yn berffaith a ddrychaif yn wastad ei olygon at Dduw; yr Hwn ydyw ef yn ei garu, yn ei ddamuno, yn meddyled am dano, ac yn gorphwys yndo; drwy yr Hwn y mae ef yn gadwedig. A'r fath enaid ffyddlon, dwyfol, cariadus hyny, a gân, a ddywed, a ddarllen, ac a sydd ho fysnys,\* ac yn ddeallus a wyl bob peth o'r blaen,

\* Felly yn y gynysgrif.

megys pe bai Dduw yn bresennol gydag ef; yr Hwn yn wir a sydd yn ysbrydol gydag ef. Y dyn a bo Duw yn ei enaid yn llettya, a weddia megys pe bai Dduw yn gorfforol gydag ef yn bresennol. Cariad Perffaith a ddihuna yr enaid pan fo ef yn cysgu, ac a'i dyd mewn meddwl am ei gadwedigaeth; fe irhâ ac a nawseidda y galon. Cariad a wna galon afrwyog [afrywiog] yn fone[ddi]gaidd. Cariad a ddyr ymaith y pechodau. Cariad a geidw hwantau y gwaed a'r enawd yn orisel. Cariad a wella arferon y dynion gwallus. Cariad a adnewydd yr ysbryd. Cariad a ffrwyna ysgawn hwantau ie'nctyd. Hyny i gyd a weitha Cariad Perffaith, lle bo ef yn bresennol. Ac yn erbyn hyny, lle nid ydyw Cariad perffaith, yno y mae yr enaid mewn haint, ac wedy oeri, megys padellaid o ddwr gwedy tynu y tân oddi dano. Cariad yn unig yw y peth a bair i'r enaid yn ewn nesâu at Dduw, ac yn ddianwadol lynu wrtho Ef, ac yn llawen ymddyddan ag Ef, a gofyn cynghor iddo yn ei holl orchwyllion. Yr enaid a fo yn caru Duw, ni ddichon ond meddyled ac ymadrodd am Duw, a chasâu pob auwolder [annuwolder?] Y neb a fyno addnabod Duw, rhaid iddo garu Duw. Pwy mwyaf y caro Dduw, mwy y tyf ef mewn cyddnabyddiaeth Duw. Ni chaiff dyn gyddnabyddiaeth ar Dduw, er darllain, nac ysgrifenu, na myfyrio, oni bydd Cariad Perffaith yndo. Ofer yw ini bregethu, ofer yw ini ddarllain, ofer yw ini ymadrodd, ofer yw ini weddio ar Dduw, oni byddwn yn caru Duw. Cariad Duw a sydd yn ennill cariad dy enaid dy hunan, ac yn [ei] wneuthur ef yn feddylgar am Dduw bob amser. Duw a gâr idd ei garu Yntau eilwaith : a phan y caro Ef, nid ydyw yn gofyn ond cariad eilwaith. Am hyny hapus yw y neb a garo Duw. Yr enaid a fo yn caru yn berffaith a ddygir drwy addewidion ac a dyner drwy ddamuniadau i'r nef. Yr enaid a fo â chariad Duw yn bresennol yndo, a sydd gyflawn o lawenydd, ac a neida i'r nef. Cariad a fag gynnefinrwydd â Duw : cynnefinrwydd â Duw a fag

ewnder gyda Duw: ewnder gyda Duw a fag flas ar Dduw: blas ar Dduw a fag newynu am gael myned at Dduw. Pe bewn yn traethu holl urddasrwydd Cariad Perffaith, yr amser a ffaelai imi: a'm gallu a'm gwybyddiaeth oedd ryfychan. Ond bid hyn yn gyfundeb am y cwbl: yr enaid y bo Cariad Duw yndo, ni ddichon hwnw ddamuno dim ag a fo gwrthwyneb i Dduw; ond cygynned ag y clywo ef flas pechod, ef a lef allan gyda'r prophwyd, gan ddywedyd, 'O Arglwydd Dduw, yn y modd y mae y carw yn hwennych y ffynnonau croew-ddwr, felly yr wyf finnau yn dy ddamuno Dithau.' As am hyny (E, Farchog!) drychaif dy enaid, a chofia ddirfawr gariad a thrugaredd Duw arnad ti, a'r rhoddion perffaith y rhai a roes Ef iti; drwy y rhai (gwedy eglurhau deall dy galon) y gelych beunydd fyned i'th flaen, drwy amlhau dy weithredoedd daionus er gogoniant i Dduw, yr hwn a sydd hoffaidd ganto y rhai hyny, fal y dywedir: 'Bid eich gweithredoedd da yn dysgleirio gair bron dynion, fal y gallout hwy (wrth weled eich gweithredoedd da) roi gogoniant i Dduw, yr hwn a sydd yn y nef.'

Cymmaint a hyny am y tair Rhinwedd prynspal. Bellach ni draethwn am y Pedair Rhinwedd ereill.

#### Y 7. PENNOD.

*Dysgrifiad y Pedair Rhinwedd Bydol,—Doethineb, Cyfiawnder, Grymusder, a Thymmereiddrwydd.*

Drwy y pedair Rhinwedd hyny y bydd dyn byw yn dda ac yn weddus yn y bywyd marwol hwn. Saint Sierom a ddywad mai drwy y pedair Rhinwedd hyny y bydd y dyn Crist'nogaidd byw yn ddaionus yn y byd hwn: a thrwyddynt hwy, gwedy marw, ef a ddaw i fywyd tragwyddol. Doethineb a edwyn ddaioni, yr hwn a ddlywn ni ei wneuthur, a'r drygoni yr hwn a ddlywn ni ei adael heb wneuthur. Cyfiawnder a wna ddaioni. Tymmereiddrwydd a edy heibo y drygoni. Grymusder a sydd ddianwadol, heb golli ei hoenusrwydd mewn ad-

fyd, na balchio mewn gwynfyd. Doethineb a ddengys i ddyn pwy fodd y mae iddo ef nesáu at Dduw. Grymusder a Thymmereiddrwydd a ddengys i ddyn pwy fodd y mae iddo ef i lywodraethu ei hunan. A Chyfiawnder a ddengys y modd y dylyo ef arfer ei gymmodog. Dyma y pedwar peth y mae Satan yn saethu atynt i ddinystr yr enaid. Drwy Ddoethineb (yr hon yw union riolaeth rheswm) yr ydym yn llywodraethu ein hunain yn synwyrus, heb wneuthur dim ond uniawnder a rheswm mewn doethineb. Y mae gwybyddiaeth, dangosiad, a chynghor da yn aros. Dyn doeth a wŷr o'r blaen pwy fodd y diwedda ei gynghor. Plato a ddywad mai Doethineb yw prynses yr holl rinweddau bydol, yn dangos i ni pwy fodd y dlywn ni dileall ac arfer y rhinweddau ereill oll. Can's megys ag y mae Ffydd yn dangos ini am bwy bethau y dlywn ni obeitho, a phwy a ddlywn ni ei garu; yn yr un modd Doethineb a ddengys i ni pwy fodd y dlywn arfer Cyfiawnder, Grymusder, a Thymmereiddrwydd. Aristotl a ddywed mai amhosibl oedd na bai wr doeth yn ddaionus. Od oedd ef yn meddwl am ddaioni bydol, gwir a ddywad; os nid ydyw gwr doeth yn gwneuthur dim ond a sydd gyfreithus. Ond er hyny oll, nid ydyw Doethineb heb Gariad Perffaith ond diffrwyth, megys Ffydd heb Gariad Perffaith: ond o bydd dyn yn caru o'i holl galon, amhosibl ydyw oni wna ef ddaioni, a hefyd oni bydd ef ddaionus.

Cyfiawnder yw y rhinwedd ydys yn ei harfer mewn dau fodd: weithau y mae hi yn rhinwedd gyffredinol, ac yn damgylchynu yndi ei hunan yr holl rinweddau ereill; megys dyn a sydd yn byw yn ddaionus ac yn gyfiawn; ac am hyny y gelwir ef yn ddaionus, yn rhinweddus, ac yn gyfiawn. Mewn modd arall y mae hi yn rhinwedd neillduol, ac yn cael ei galw Cyfiawnder gyfranedig, yn rhoi i bob dyn y peth a fo dlyedus iddo ei gael. Y rhinwedd hyny (sef ydyw Cyfiawnder gyfranedig) a sydd weddus ei bod gan bob dyn, ac yn enwedig mewn

amherodron, breninoedd, a thywysogion, a'r neb a fo yn llywodraethu er esmwythder cyffredinol a chyfraith; er mwyn rhoi i bob dyn ei eiddio ei hunan, ac amddiffyn y gwirion, a chospi y camweddwyr, enrhydeddu y rhai da, a salwau y rhai drwg, a gwneuthur cyfiawnder, ac yn gyfun â chydwybod, yn gystat i'r rhai bychain a'r rhai mawron, i'r tlodion a'r cyfoethogion. Llawer a sydd gwedy peinto Cyfiawnder yn eu tai, ac er hynny camredd yn eu calonau. Llawer a sydd â Christ yn eu geneuau, a'r diawl yn eu meddylau. Ond i gyfuno ar derfyn: y neb a fyno fod yn gymmeradwy gan Dduw, rhaid iddo fod yn gyfiawn yn ei air a'i weithred, ac yn buraidd yn ei feddylau.

Grymusder ydyw rhinwedd, i'r hon y perthyn mawredd hoenusrwydd, heb ofni dim ond gofynion anghyfreithus. Y neb a fo â'r rhinwedd hynny ganto, a geidw ei hunan yn uddyf yn ei adfyd, ac yn ddifalch yn ei wynfyd. Grymusder a ry i ddyw fawredd, dianwadalarwydd, gobaith, diogelrwydd, goddefiaeth, ac ufudd-dod. Y merthyri ym mhob oes, ac ym mhob gradd, oedd gwedy eu cyflenwi o'r rhinwedd hynny yn aros ar uchaf gwir ffydd, yn diogelau y byd, heb briso am fygythau na phoenau y croelonaidd, yn barod i ddyoddef angeu yn gynt na gwaðu Iesu Grist. Prophwydi Duw oedd gwedy ymarfogi mewn Grymusder, y rhai oeddynt (yn ddiweniaith) yn beio breninoedd yr Israel a Iuda am eu pechod, a'u cam addoliaeth i Dduw, a heb ofni eu lliawgrwydd. Apostoliaid Iesu Grist oedd gwedy ymarfogi eu hunain mewn Grymusder; y rhai nid oeddynt yn ofni cyngwyso doethineb y rhai doethion, a gorchfygu y rhai oeddynt mewn uchel leoedd, fal y gallent hwy felly, mewn meddwl boddlon, ddwyn iau Iesu Grist. Nid oeddynt yn gwneuthur hynny trwy rym eu cyrff, na thrwy bwer dynol, neu arfau rhyfeledig, ond drwy ddysgeidiaeth duwiol; nid damuno eu lladd, ond y meirw eu hunain. Y breninoedd a'r gwyr cedyrn a ddylai fod gwedy ymarfogi mewn Grymusder, fal na baint yn pryderu un

perygl i amddiffyn ffydd Crist Iesu, ond bod yn yr un meddwl â'r merthyri santaidd mewn Duw. Yn y rhinwedd hyn y dylai bregethwyr a dangoswyr eu harfogi eu hunain yn deilwng yn amddiffyn gair Duw yn erbyn holl ericiaid, a rhai a fai gelynon iddo, heb ofni bygythau yr erlynwyr, pa rai bynag a faint. Ond rhaid i chwi ddeall nad ydyw Grymusder yn gyfranog i wneuthur pethau anghyfreithus, fal ffusto, clwyfo, lladd dy gyd-Griston, yn llai na bod yn iawn iti wneuthur felly i'th amddiffyn dy hunan, neu dy wlad. Os gwnei di hynny mewn achosion ereill, megys llid, cenfigen, a ffromder, meddwl ydyw ac nid Grymusder. Nid ydyw milwriaeth (yr hwn yw Grymusder) yn ganmoledig, ond mewn pethau cyfreithus; megys amddiffyn dy gorff dy hunan, dy dywysog, dy wlad, neu ffydd Iesu Grist: yng nghweryl yr hon o goddefi angeu, dyna Rymusder neu filwriaeth urddedig.

Tymmereiddrwydd ydyw wyllys i firwyno hwantau y cnawd. Medd Saint Awstin, 'Tymmereiddrwydd yn rhioli ac yn llywodraethu rhanboddau a hoffder, ac yn gwrthod gwneuthur pob cim ag a aller ei wneuthur heb anfoddlonhau Duw, ac na wnel un rhyw ormodiaeth ag a baro i ddyw fyned allan o riolaeth ei reswm. Byw mewn Tymmereiddrwydd yw rhioli pob peth yn ol yr union arfer y parodhawyd gyntaf.'

Y pedair rhinwedd hynny a sydd â phedwar rhyw ddrygedd yn wrthwynebus yndynt; yr hyn ddrygeddau a sydd yn halogi ac yn distrywio y rhinweddau, nid amgen, Doethineb drwy ffolineb, Cyfiawnder drwy drachwant, Grymusder drwy falchder, Tymmereiddrwydd drwy anwadalarwydd, a ddiwynebir. Y pedwar drygedd hynny a arwyddoca y pedwar dial a ddistrywodd gyfoeth Io; yn enwol, y Sabes, y Caldes, grym y tân, trais y gwylt. Y Sabes o ffolineb a wneuth hafog ar ychain Doethineb; y Caldes o falchedd a arwenodd ymaith gamels Grymusder; tân y godineb a afradodd ddefaid Tymmereiddrwydd; triswynt trachwant a ddychwelodd dai Cyfiawnu-

der. Felly y mae hoesach fod yn difa rhinwedd doethineb; balchedd yn difa rhinwedd Grymsuder; trachwant yn difa rhinwedd Cyfiawnder; godineb yn difa rhinwedd Tymereiddrwydd.

Er mwyn hyny, E, Farchog! mi fyawn iti yngadw rhag y drygeddau hyny, rhag iti golli mwynant y pedair rhinwedd uwchod. Ti wyddost pwy lawenydd, hoenusrwydd, a chydymdeithas ddaionus a gefaist ti yn Llys Rhinwedd. Yno y gwelaist Dlaw, Ffydd, Gobaith, Cariad, Doethineb, Cyfiawnder, Grymsuder, a Thymereiddrwydd, a phob daioni ag a allai ddyfod i'r enaid yn y bywyd presennol hwn: ond am y melusder, y llawenydd, a'r hoffder, a'r daioni a gaiff y neb a garo ac a gadwo y rhinweddau hyn, ni all neb ei ddangos neu ei draethu, ond y rhai a gafas wybyddineth am danynt.

#### Y 8. PENNOD.

*Y modd y dangosodd Ffydd, o'i Thwr hi, i'r Marchog, Ddinas Nef.*

Gwedy i Ddeall Daionus draethu wrthyf yr ymadrodd hyny, yr oedd fy meddwl gwedy newiduo; nid oeddwn yn priso am fwyd neu ddiod, ond yr oeddwn yn rhyfedda am na welwn y nos yn dyfod, am ddarfod traelo llawer o oriau. A minnau yn rhyfeddu felly, Rhinwedd a ddywad wrthyf na byddai nos byth yn ei llys hi, ac nad oedd i dywyllwch ddim a wnelai yn y man y bai hi yn trigo. Yno mi gofiais i Ras Duw draethu wrthyf ar y ffordd, mai trwy weithredoedd Ffydd (y rhai ydynt ei ffrwyth hi ei hunan) y gallwn weled Dinas Nef, yn yr hon y damgylchynir y gwir santeidd ddedwyddydd. Y pryd hyny Ffydd am harwenodd i idd ei thwr hi, a'r holl rinweddau ereill oedd yn cadw yn ei chydymdeithias: can's Ffydd alwedig nid ydyw heb Obaith, na Gobaith heb Gariad; ac am hyny rhaid yw iddynt fod i gyd unparth. Ac er bod cynneddfau neillduol ar y rhinweddau hyny, eto y maent bawd yn llawen, heb wahanu un â'u gilydd. Saint Sierom a ddywad fod Abraham yn gyflawn

o Ffydd, a Sioel yn gyflawn o Rymuder, a Dafydd yn gyflawn o Ufudd-dod; ac felly yr un modd y gwyr santeidd ereill a draethir am danynt yn yr Ysgrhythyr LAn.

Yno Ffydd, o'i thwr hi, a ddangosodd imi lan uwchel, ar yr hon y daroedd a leiliad dinas mawr ryfedd ur-ddasrwydd; a hi a ddywad wrthyf mai hōno oedd Ddinas Nef, yn yr hon y mae gwir santeiddrwydd a pherffaiith ddedwyddydd. Yn y dinas hōno ni welwn un deml, yr hyn beth a wnaeth imi ryfeddu yn fawr, nes dyfod Ffydd a dywedyd wrthyf mai yr Arglwydd Dduw Hollalluog oedd deml y dinas hōno. Nid rhaid yno wrth dywyn yr haul, goleuni'r loer, na dysgleirwch y ser i roi goleu; can's Duw galluog yw eu goleu hwynt ei Hunan. Nid a neb i'r dinas hōno, ond a sydd yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd. Hefyd, Ffydd a ddywad i mi nad oedd yno ddim anundeb, nac adfyd, na phecod, na dannod, na drygoni, nac ofn, na thristyd, na chywilydd, na thywyllwch, na phoenau, na drygilyb, na thraia, nac anufudd-dod, nac anesmwythder, na digofaint, na dim ond oedd yn hanfod o farwolder: ond yno ydd oedd cyfundeb, gwynfyd, perffeiithwch, cariad, llawenydd, llonyddwch, a gwir hapusrwydd, a daioni diderfynedig mewn Duw, a bywyd tragwyddol, a dedwyddydd. Yno ydd oedd llawenydd heb dristyd, esmwythder heb drafael, ennil heb golled, bywyd heb angeu, glendid heb halogrwydd, dedwyddydd heb rwystr. Yn y dinas hōno Duw a welir wyneb yn wyneb. Yno y mae y goleuni diderfynedig yn dyagleiro, a'r Saint bob amser yn canu, a'r eneidau santeidd yn llawenhau, ac yn edrych ar Dduw byth; acer hyny, yn hwennych syned arno Ef heb hurtrwydd. Damuniad dinaswyr y dinas hōno, a sydd gyd-etifeddion o'r Drindod, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Y maent gwedy eu gwneuthur yn buraidd ac yn anfarwol, yn gyssyniol ag addewid ein Harglwydd a'n Ceidwad Iesu Grist, yr hwn a ddywad: 'Fy Nhad, y rhai a roesost imi, mi a fynaf eu bod hwynt lle y bwyf Fiunau, fal y gallont weled

fy nysgleirwch. Beth a ddywedaf mwy? Yn y dinas hōno y mae un Brenin heb anghen a heb gyfnwid, heb ddechreu a heb ddiwedd. Yn y dinas hōno nid oes dim nos; nid oes mesur ar amseroedd, ond dydd dysgleiredig tragwyddol: can's yn y dinas hōno y mae y Tad y goleuni yn 'rigo, i.e., Duw ei hunan, a'i oleuni Ef ni ddichon tywyllwch ei wasgodi. Dinaswyr y dinas hōno a sydd dyngedfenus a santaidd: can's y maent yn gyfranol o rad didraethedig, ac o ddedwyddyd difesuredig, ac o lawenydd diderfynedig, ac o'r fath berffeithwch na ellir ei fwyhau. Ac i'r lle hyny y drychfir y rhai cyfiawn: a'r rhai drwg, yn y pwll yn llosgi o dân a brwmstan y bydd eu cyfran hwyntau.

Bellach at ein bwriad.

### Y 9. PENNOD.

*Y damuniad oedd gan y Marchog gael myned i'r Nef; a'r modd y daeth Gras Duw ag Arlwyddes ato-ef, yr hon a elwid Aros yn Ddianwadol.*

Gwedy ym' weled dinas nef o dŵr Ffydd, a chlywed pwy fath drefn oedd yno, yr oeddwn yn fy meddwl yn casâu y byd, ac yn tybied fy mod yn rhodio yn y nef. Yno mi a ddamunais ar Ffydd gael aros yn ei thŵr hi bob amser; yr hwn beth hi a'i cenadodd ym' yn wyllysgar, am nad oeddwn un amser byth yn blino drwy ffenestr ei thŵr hi yn edrych ar y nef. Pwy fwyaf yr oeddwn yn edrych erni, mwyaf oll y gwelwn ei thegwch hi. O'r diwedd y oedd yn gas genyf fyw yn y byd yma; ac mi ddamunais anghen, fal y gallwn yn gynt weled dinas nef, a chael gwled mwyniant Crist fy Nghheidwad. Ac yno wrthyf fy hunan mi a benlinais, ac a weddiâis fal hyn:

'O! pwy mor ddedwydd ydyw yr enaid a sydd allan o garchar daiarol, ac a sydd yn gorphwys mewn llawenydd nefol, yn gwled y Ceidwad wyneb yn wyneb! Yr enaid hyny a sydd heb ofn na thrallod. O! pwy mor hapus ydyw yr enaid a sydd yn nghydmeithias yr engylion a'r saint bendigaid yn

canu moliant i'r Goruchaf! Yn wir, y fath enaid hyny a sydd gwedy ei lwytho o lawenydd. O hapus undeb dinaswyr! O hapus gydmeithias saint, y rhai a fuont yn ymofidio yn y bywyd marwol! ond yr awr hon y maent yn teyrnasu gyda Duw tragwyddol. O y tirion Iesu! gad ym' ddyfod i'th ddinas hoffaid, lle mae dy ddinaswyr i'th weled Di beunydd, er mawr hoffder iddynt. Pwy lawenydd diderfyn ydynt hwy yn ei gael! a phwy mor hapus fyddwn innau, pei cawn glywed eu caniadau, na be cawn fy ngoddef i ganu un o ganiadau Dafydd yn dy lan santaidd Sion! O na chwawn (yr hwn wyf y lleiaf o'th weison) drwy dy ras ddodi heibo fy maich enawdol, a dyfod i'th ddinas ddedwydd, i gydymeithias y gynulleidfa santaidd ddedwydd saint, i weled gogoniant fy Nghreadur, ac i syned ar ei gariadus urddasrwydd, megys y bwyf fi gweddus i gael y fath santeiddrwydd! Cenatâ (mi adolygaf arnod, Arglwydd graslon) nad edrychwyr byth yn fy ol ar gygod dyffryn y lleigrau, ac na chofiwyr dwyllodrus hoffder y byd gwael hwn, ac na phriswyf ddim am y bywyd halog ddrwg hyn. O! pwy fodd y gallwn fod yn ddedwydd yma, lle mae y diawl bob pryd i'n molestu ni; a'r byd i'n twyllo ni; lle mae yr enaid yn cael ei ddallu; a phob dyn yn pechu: yn ol yr hyn ddrygoni y daw anghen i ddiweddu pob ofer hoffder! Pwy gyfiawnhâd a ellir ei wneuthur iti, O Dduw, yr hwn wyd yn rhoi cyfnerth ini yng ngenol ein holl drallodau, drwy dy dduwiol ras? Syna arnaf druan pechadur cyflawn o brysurdeb. Pan wyf yn deall fy mhechoiau yn ofni dy farnedigaethau, yn meddwl am awr anghen, yn cofio poenau uffern, a heb wybod pwy ddial a ddylaf ei gael, a heb wybod pwy le na phwy fodd y diweddfaf fy nyddiau; yn yr holl bethau hyny, a llawer hefyd, yr wyf yn ymroi dan dy rasol ddaioni, a gwybod dy fod yn barod i roi imi gyfnerth yn yr holl flinderau hyny. Yr wyd yn drychaf fy enaid yn uwch na'r mynyddau; yr wyd yn peri ym' erbyned dy gariad a'th ddaioni, drwy yr hwn yr wyd yn bywhau fy ysbryd godrwm,

ac yn llewychu fy nghalon brysur, drwy ddangos i mi dy nefol hoffder.'

Gwedy ym' ddiweddu fy ngweddi, mi edais yn anghof fy holl flinderau, ac a orphwysodd fy enaid wrth angor Gobaith. Felly pan oeddwn yn penlino, Gras Duw a ymddangosodd imi, ag Arlwyddes arall gyda hi, yr hwn nis gwelwn erioed. Ac wedy ym' roi diolch iddi am ei rhoddiou daionus, hi a roes yr Arlwyddes hŷno, yr hon a elwid Aros yn Ddianwadol, i drigo gyda mi, drwy roi gorchymyn ym' ei chadw gyda mi bob amser byth, os bawn yn meddwl bod yn ddinaswr yn y nef. A hi a ddywad: 'Hebdi hi nid y Jyw y rhinweddau ereill yn ddim i ennill: ond y mae yn ysgrifenedig, "Y neb a aroso yn ddianwadol hyd y diwedd, a fydd gadwedig." Rhaid iti barhau. O blaid hyny y mae llawer o samplau yn yr Ysgrhythyr Lân: ond ni ddangosaf ond dau o hanynt.

'Y pryd cyntaf ag y gwnaethpwyd Sawl [yn] frenin ar yr Israel, ydd oedd ef mor uddyf ostyngedig a'r plentyn blwydd o oed; ond ni pharhaodd ef felly yn ei ddaioni ond dwy flynedd: can's gwedy iddo ef ddodi Dianwadol Aros heibo oddi wrtho, ef a droes ar ddrygoni, ac a dyfodd yn groelon dost, yn gymmaint ag y lladdodd ef lawer o brophwydi yr Arglwydd, a herlid y brenin Dafydd. Ond pwy fodd y bu ei ddiwedd? Fe gorchfygodd ei elynion ef; ac wedy i Dduw ei roi ef i fynydd, ef a laddodd ei hunan ar fynydd Gelbœ.

'Eilwaith, am yr un rhyw beth: pan y gwnaeth Duw Sidas gyntaf yn apostol, ydd oedd ef yn ddaionus ac yn wasanaethgar: ond pan ddodwys ef Ddianwadol Aros ymaith oddi wrtho, ef aeth yn lleidr trachwantus; ef a fradychodd ac a werthodd ei Feistr, Iesu Grist. Ond pwy fodd y bu ei ddiwedd? Ef aeth yn wrthodig gan Dduw, fe gwmpodd mewn anobaith, a thrwy ei gydwybod melli-gedig (yr hwn oedd yn cyhuddo drygoni ei weithred) ef a ymgrogodd ei hunan wrth geb-ystr.'

Pan y clywais i yr Arlwyddes Arosiad yn

traethu felly, rhag ofn dygwyddo y fath bethau hyny i minnau, mi a ddamunais i'r Meudwy, Deall Daionus, ddangos i mi pwy fodd y gallwn gadw gyda mi Arosiad bob amser: megys (drwy wneuthur felly) na chollwn i ogoniant dinas nef. Yno (ar fy neisyl) Deall Daionus (yr hwn oedd yn pryderu cadwriaeth fy enaid) a ddywad wrthyf fal hyn.

#### Y 10. PENNOD.

*Deall Daionus a ddangosodd i'r Marchog pwy fodd y gallai ef gadw Dianwadol Aros gydag ef bob amser.*

'Fy mab (hebe Deall Da), y rhan ddiwethaf o iechyd dy enaid ydyw iti ddyysgu gwybod pwy fodd y arhŷych yn y man yr wyd yn awr, heb droi yn dy ol; yr hwn beth, os m; ni ei wneuthur, rhaid iti gadw Dianwadol Aros gyda thi: can's o gwrthod hi dydi unwaith, rhaid iti yn wir golli hoffder llys yr Arlwyddes Rhinwedd, yn yr hwn le yr wyd yn awr; ac od ai di yn dy ol odd yno, bid hysbys i ti y colli di hi a llawenydd nef hefyd. Rhaid yt' am hyny aros yn ddianwadol yn dy ddaionus feddwl, heb hofran; yr hwn beth idd ei wneuthur, rhaid i ti weddio yn deilwng bob amser, a damuno nerth gan Ras Duw, heb yr hwn ni ddichon neb aros mewn daioni, ac i gyflenwi yr holl bethau. Rhaid iti gofio tri pheth: yn gyntaf, dy fuchedd, yr hon aeth heibo; yn ail, dy fuchedd bresennol; yn drydy, dy fuchedd yr hon a ddaw. Y tri chofiedigaeth hyny a'th hoenusa di i aros yn y lle yr wyd, ac megys ffwrwyn a'th geidw di rhag aryo.

'Meddwl beth a wnaethost, a pheth a wel-aist cyn hyn wrth ddilyn Ffolineb; pwy fodd yr wyd yn byw yn ofer, ac yn ymroi i bob ofer hwantau y cnawd, drwy yr hwn y cwmpaist mewn halogrwydd pechod, ac y dodaist dy enaid a'th gorff mewn perygl, a'th gydwybod i'th gyhuddo; a phwy le y buasid oni buasai i Ras Duw gymmeryd trueni arnad ti. Pwy le y mae y bydolion, y rhai ni fyn-ent ymofidlo am eu pechodau? B'le yr aeth-

ont? Ond ydynt hwy gwedy eu heuoghau i boenau tragwyddol i dan uffern. O meddwl am hyny fod pechod yn anfoddlawnhau Duw yn fawr! Meddwl pwy boenau a ordeinodd Duw am bechodau, y rhai a wnant ddyn yn elyn i Dduw, ac yn dras i'r diawl. Meddwl i bechod beri iti gollu dy wirionedd cyntaf at Rinwedd, a'th wneuthur di yn fwyd i huaid uffernol, ym mysg y rhai y buasid i'th gyfrif dithau, oni buasai i Dduw o'i ras gymmeryd trueni arnad. Meddwl dy fod yr awr hon mewn arbediaeth Duw .....  
 .....\* yr hon a'th wnaeth di yn blentyn.....† ac yn etifedd o'r nef, drwy obaith, fal y mae dy gydwybod yn awr yn esmwyth. Meddwl pwy gyfnerth daionus a gefaist drwy weddio. Meddwl pwy ddangosiadau ysbrydol a gefaist gan Ras Duw. Meddwl pwy fodd y mae hoffder y byd yn gymmysgedig o flinderau. Meddwl na chai ddim drygoni, od arosi lle yr wyd, os yr wyd yng nghadwriaeth Duw. Meddwl yr ä y byd hwn heibo, a'i holl hoffder. Meddwl mai y modd bresennol (yr hwn yr wyd yndo) yw'r uchelffordd a sydd yn myned i'r nef. Ac felly y cedwi Ddianwadol Aros gyda thi. Meddwl mai cyfiawn farn Duw ydyw dyfod i roi nef i'r rhai da, ac uffern i'r rhai drwg. Meddwl fod yn rhaid yt' farw, ac ar dy awr angeu na chai y fath gyfnerth ag a gefaist gan Rinwedd a Gras Duw, o fewn dangosiadau a chyngornu y rhai y dylŷ aros hyd y diwedd. Meddwl pan ddél angeu, fod yn rhaid iti adael ar dy ol dy wraig, dy blant, dy dda, a'th arian, pwy bynag p'un a wnaeth ai da ai drwg. Meddwl fod yn rhaid iti fyned i deyrnas anghyddnabyddus, ac i le na buost erioed, ac, o'th ddelir yn marw mewn pechod heb edifarhau, y diawlaid a fydd yn gwylad cael dy gorff melltigedig a'th enaid damnedig; a hwy a ddygant ill dau i geubwll y tywyll wch, i glywed yno boenau tragwyddol. Ond, o'th ddelir di gyda Dianwadol Aros

\* Briw bychan yng nghwr y ddalen.  
 † Briw bychan arall.

.....\* Rhinwedd milioedd o Engylion a .....† a thrwy fawr lawenydd hwy a'th ddygant ... .....† O meddwl am gyfiawn farn Duw, yr hon a ddaw, ac yn yr hon y bernir pob un yn ol ei weithred! Can's nid arbed Duw na brenin, nac amherawdr, na thywysog, na phobl uchel nac isel, cyfoethog na thlawd. Yno y corona Ef y rhai da, ac y euoghâ Ef y rhai drwg. Ar ddydd y farn hōno (pan fo raid ini bawb ymddangos yn ddiesgus gair ei fron Ef,) y pryd hyny rhaid i bawb fod yn attwrnai drosto ei hunan, pan fo y Barnwr cyfiawn yn ei ddangos ei hunan yn aruthr i'r rhai gwrthgas a ddilynodd Gwaelder, ac nad edifarhausant, ac na throisant o halogrwydd a bryntni llaca eu pechodau: ond fe fydd rhywiog, boneddig, a daionus, i'r rhai a ymofidodd ac a edifarhaodd am eu beiau. O meddwl pwy boenau a ddyoddefodd y rhai edifeiriol, bob un o'r ddau, enaid a chorff, yn dragwyddol! Ond y rhai a aroso mewn daioni hyd y diwedd, a gaiff lawenydd a chyflawnder Duw a'r nef. Felly o'th holl allu ymrô i aros mewn daioni hyd y diwedd, a thi a gai weled Duw yn barod, o'i ras a'i drugaredd, i'th santeiddio di, ac i'th arfogi yn dy Grist'nogaidd fwrriad.'

## Y 11. PENNOD.

*Ammodiaeth ac Addefaeth, yr hwn a ddangosodd Deall Da i'r Marchog, i wneuthur beunydd gair bron Duw .....*

[Y RHELYW AR GOLL.]

\* Briw cwr dalen. † Briw cwr dalen.  
 ‡ Briw etto.



[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)

[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)



[www.libtool.com.cn](http://www.libtool.com.cn)